



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cymorth Cyfreithiol ar gyfer y Grant Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LSLIP)

Adolygiad Canol y Grant, Rhagfyr 2021

Paige Welham a William Dugdale

Tîm Ymchwil, Mynediad at Gyfiawnder a Gwerthuso Cymorth Cyfreithiol

Gwasanaethau Dadansoddi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

2022

Mae Gwasanaethau Dadansoddi yn bodoli er mwyn gwella'r gwaith o lunio polisïau, gwneud penderfyniadau ac arferion y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu data a chyngor cadarn, amserol a pherthnasol sy'n deillio o waith ymchwil a dadansoddi a wnaethpwyd gan ddadansoddwyr yr adran a chan y gymuned ymchwil ehangach.

Ymwadiad

Safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid ydynt o reidrwydd yn cael eu rhannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (ac nid ydynt yn cynrychioli polisi'r Llywodraeth).

Cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2022



© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:

nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn researchsupport@justice.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr oddi ar y we yn <http://www.justice.gov.uk/publications/research-and-analysis/moj>

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i'r 52 o dderbynwyr grantiau LSLIP a ddarparodd lawer iawn o ddata a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn dros gyfnod cyflwyno heriol. Hoffem ddiolch hefyd i'r tîm grantiau yn y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder a oedd yn allweddol i gasglu'r data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn drwy arwain y gwaith o reoli a gweinyddu'r grant LSLIP o ddydd i ddydd ochr yn ochr â'r broses casglu data.

Paige Welham a William Dugdale

Cynnwys

Rhestr o dablau

Rhestr o ffigurau

1.	Crynodeb Gweithredol	7
2.	Cyflwyniad	10
3.	Strwythur y Grant	12
4.	Dull gwerthuso	27
5.	Y cyngor a ddarparwyd gan y rhaglen LSLIP	33
6.	Canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer cleientiaid LSLIP	63
7.	Rheoli rhaglenni	105
8.	Edrych tua'r dyfodol (ar ôl 2022)	114
9.	Casgliad	117
	Cyfeiriadau	119
	Atodiad A: Model rhesymeg LSLIP	121

Rhestr o dablau

Tabl 1: Golwg gyffredinol ar yr 11 grant LSLIP, eu prif bartneriaid a'r meysydd ffocws	14
Tabl 2: Y 10 maes cyfraith sifil a theulu lle cynigir cyngor gan dderbynwyr y grant LSLIP, gydag enghreifftiau o broblemau yn y meysydd hyn	15
Tabl 3: Pedwar cam y cyngor a ddarperir gan dderbynwyr grant LSLIP	17
Tabl 4: Canlyniadau craidd wedi'u mesur gan dderbynwyr y grant LSLIP	27
Tabl 5: Confensiwn talgrynnu LSLIP	32
Tabl 6: Nifer y materion a gynghorwyd gan dderbynwyr grant lleol a rhanbarthol ar draws gwahanol feysydd o'r gyfraith, fesul chwarter cyflawni	39
Tabl 7: Canran y materion y rhoddwyd cyngor arnynt gan dderbynwyr y grant yn lleol ac yn rhanbarthol ar draws gwahanol feysydd o'r gyfraith, fesul chwarter cyflawni	39
Tabl 8: Y gefnogaeth a ddarperir gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant ar bob cam	42
Tabl 9: Nifer derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant a roddwyd ym mhob cam, yn ôl y gyfraith	44
Tabl 10: Dosbarthiad oedran cleientiaid LSLIP, dileu'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud, o'i gymharu â data Cyngor ar Bopeth, Arolwg Datrys Problemau Cyfreithiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a data Cyfrifiad 2011	59
Tabl 11: Dosbarthiad rhyw cleientiaid LSLIP, dileu'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud, o'i gymharu â data Cyngor ar Bopeth, Arolwg Datrys Problemau Cyfreithiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a data Cyfrifiad 2011	59
Tabl 12: Dosbarthiad hil cleientiaid LSLIP, dileu'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud, o'i gymharu â data Cyngor ar Bopeth, Arolwg Datrys Problemau Cyfreithiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a data Cyfrifiad 2011	60
Tabl 13: Nifer yr achosion o anabledd ymysg cleientiaid LSLIP, dileu'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud, o'i gymharu â data Cyngor ar Bopeth, Arolwg Datrys Problemau Cyfreithiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a data Cyfrifiad 2011	60
Tabl 14: Cyfraddau datgelu rhyw, oedran a hil – pob cleient LSLIP lleol a rhanbarthol, o'i gymharu â chleientiaid gyda materion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles	61
Tabl 15: Nodweddion gwarchodedig pob cleient LSLIP lleol a rhanbarthol, o'i gymharu â chleientiaid gyda materion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles	62
Tabl 16: Canlyniadau gallu cyfreithiol ar gyfer yr holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol, o'u cymharu â chleientiaid sydd â phroblemau teuluol a chyflogaeth	75

Tabl 17: Canlyniadau gallu cyfreithiol ar gyfer pob cleient LSLIP lleol a rhanbarthol, fesul cam 76	
Tabl 18: Canlyniadau gweithredu ar gyfer yr holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol, o'u cymharu â chleientiaid sydd â phroblemau teuluol a chyflogaeth	80
Tabl 19: Canlyniadau gweithredu ar gyfer pob cleient LSLIP lleol a rhanbarthol, fesul cam 80	
Tabl 20: Canlyniadau datrys cynharach ar gyfer holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol, o'u cymharu â chleientiaid sydd â phroblemau teuluol a chyflogaeth	86
Tabl 21: Canlyniadau datrys cynharach ar gyfer yr holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol, fesul cam	86
Tabl 22: Canlyniadau boddhad cleientiaid ar gyfer yr holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol, o'u cymharu â chleientiaid sydd â phroblemau teuluol a chyflogaeth	92
Tabl 23: Canlyniadau boddhad cleientiaid ar gyfer yr holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol, fesul cam	92
Mewnbynnau	121
Gweithgareddau	121
Canlyniadau cychwynnol	121
Canlyniadau tymor hwy	121

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Map o Gymru a Lloegr yn dangos cwmpas daearyddol y partneriaethau LSLIP lleol a rhanbarthol	13
Ffigur 2: Cleientiaid a materion a gynghorwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant, fesul chwarter cyflawni	35
Ffigur 3: Cleientiaid a gynghorwyd gan Support Through Court, RCJ Advice a LawWorks, fesul chwarter cyflawni	37
Ffigur 4: Nifer y materion a gynghorwyd gan dderbynwyr grant lleol a rhanbarthol ar draws gwahanol feysydd o'r gyfraith, fesul chwarter cyflawni	40
Ffigur 5: Y gymysgedd gyffredinol o gyngor a ddarperir gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant, cyfanswm a fesul chwarter cyflawni	41
Ffigur 6: Nifer y materion a gynghorir ar bob cam gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant, fesul chwarter cyflawni	42

Ffigur 7: Y gymysgedd gyffredinol o gyngor a ddarperir gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant, cyfanswm a fesul chwarter cyflawni	43
Ffigur 8: Cyfran y materion a gynghorwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant ar bob cam, yn ôl y gyfraith	44
Ffigur 9: Dosbarthiad oedran yr holl dderbynwyr LSLIP lleol a rhanbarthol a'r rheini sydd â materion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles, gan gael gwared â'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud	49
Ffigur 10: Dosbarthiad rhyw yr holl dderbynwyr LSLIP lleol a rhanbarthol a'r rheini sydd â materion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles, gan gael gwared â'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud	51
Ffigur 11: Dosbarthiad hil yr holl dderbynwyr LSLIP lleol a rhanbarthol a'r rheini sydd â materion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles, gan gael gwared â'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud	53
Ffigur 12: Nifer a chanrannau nifer yr achosion hysbys o anabledd ymysg cleientiaid lleol a rhanbarthol sydd â phroblemau teuluol, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles	55
Ffigur 13: Astudiaeth achos partner LSLIP lleol	57
Ffigur 14: Astudiaeth achos partner LSLIP lleol	66
Ffigur 15: Astudiaeth achos partner LSLIP lleol	70
Ffigur 16: Astudiaeth achos Affordable Advice (Law for Life)	73
Ffigur 17: Astudiaeth achos Support Through Court ac RCJ Advice	73
Ffigur 18: Astudiaeth achos partner LSLIP rhanbarthol	78
Ffigur 19: Astudiaeth achos partner LSLIP rhanbarthol	83
Ffigur 20: Astudiaeth achos partner LSLIP lleol	84
Ffigur 21: Astudiaeth achos partner LSLIP rhanbarthol	84
Ffigur 22: Astudiaeth achos partner LSLIP rhanbarthol	89
Ffigur 23: Astudiaeth achos partner LSLIP lleol	90
Ffigur 24: Astudiaeth achos partner LSLIP rhanbarthol	90

1. Crynodeb Gweithredol

Ym mis Ebrill 2020, lansiodd y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder y Grant Cymorth Cyfreithiol i Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LSLIP), sef rhaglen grant ddwy flynedd sy'n ariannu ystod o wasanaethau ymyrryd cynharach ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.

Mae'r grant yn ariannu 11 o brosiectau grant ledled Cymru a Lloegr sy'n darparu cyngor ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ar wahanol gamau o'u problemau o fewn sawl maes cyfraith sifil a theuluol. Wrth wraidd yr holl weithgareddau hyn mae gweithio mewn partneriaeth ac ymyrryd yn gynt, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i gleientiaid.

Er mwyn datblygu sylfaen dystiolaeth gyfunol o'r manteision y mae'r rhaglen yn eu darparu, mae pob derbynnydd grant wedi casglu ac adrodd ar amrywiaeth o ddata ansoddol a meintiol ynghylch y cyngor y maent wedi'i roi, y cleientiaid a gafodd y cyngor hwn a'r effaith y mae'r cyngor hwn wedi'i chael ar ganlyniadau allweddol o ddiddordeb.

Mae'r adroddiad interim hwn yn dwyn ynghyd y data a'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, er mwyn adrodd ar gynnydd tuag at dri amcan y grant. Nid yw'r adroddiad hwn o reidrwydd yn ddangosydd cywir o berfformiad ar hyn o bryd, ond yn hytrach yn adroddiad cynnydd dangosol i adolygu'r data a gasglwyd hyd yma a nodi unrhyw faterion allweddol.

Prif ganfyddiadau

Bu derbynwyr y grant yn gweithio'n galed i sefydlu eu gwasanaethau'n gyflym a dechrau helpu ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn gyflym. Roedd yr holl bartneriaid yn falch iawn o ba mor gyflym cafodd eu gwasanaethau LSLIP eu sefydlu a'u bod yn gallu dechrau darparu cymorth i gleientiaid. Fodd bynnag, roedd y cyfnod sefydlu cychwynnol hwn yn heriol, gan fod sefydliadau'n mynd i'r afael ag effeithiau Covid-19, anawsterau recriwtio a'r gofynion data a thystiolaeth anghyfarwydd. Gyda chefnogaeth y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, llwyddodd y derbynwyr grant i oresgyn y problemau hyn yn gyflym ac mae gwasanaethau bellach yn dechrau cyrraedd eu llawn botensial.

Mae derbynwyr y grant cenedlaethol wedi darparu cymysgedd o gyngor cyfreithiol, cefnogaeth ymarferol a gwybodaeth am weithdrefnau i bobl ledled Cymru a Lloegr. Rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mehefin 2021, mae LawWorks a'r bartneriaeth rhwng

Support Through Court ac RCJ Advice wedi darparu cyngor a chymorth o bell i 2,800 o gleientiaid gydag amrywiaeth o broblemau sifil a theuluol. Yn yr un cyfnod, mae LSLIP hefyd wedi cefnogi'r gwaith o ddarparu Llinell Gymorth Genedlaethol Support Through Court, sydd wedi rhoi gwybodaeth ac arweiniad i 4,000 o gleientiaid, ac wedi cefnogi'r gwaith o ddarparu gwefan Advicenow Law for Life sydd wedi cael dros 750,000 o ddefnyddwyr yn defnyddio ei hadnoddau.

Dechreuodd y grantiau lleol a rhanbarthol 3 mis yn ddiweddarach, a rhwng mis Hydref 2020 a mis Mehefin 2021, mae grantiau LSLIP lleol a rhanbarthol wedi cynghori 7,700 o gleientiaid gydag 8,300 o faterion cyfreithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r materion hyn (bron i 75%) wedi bod yn broblemau teuluol, cyflogaeth neu dai. Roedd y rhain yn feysydd y ceisiodd llawer o dderbynwyr y grant gyllid ar eu cyfer, gan eu bod wedi'u nodi fel meysydd lle'r oedd gan sefydliadau fwch yn eu gwasanaethau a/neu feysydd lle disgwylid y byddai cynnydd yn y galw am gyngor o ganlyniad i bandemig Covid-19. Mae derbynwyr y grant yn dechrau gweld y galw am gyngor yn cynyddu, wrth i'r cyfyngiadau iacio a rhai ffynonellau cymorth (fel y cynnydd i Gredyd Cynhwysol) ddod i ben.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor a ddarparwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant ar y materion hyn wedi bod yn gyngor cyffredinol cychwynnol (68%), ond mae nifer sylweddol o waith achos a chyngor cyn llys wedi'u rhoi. Mae'r mathau o gyngor a ddarperir yn amrywio rhwng gwahanol feysydd cyfreithiol, gan adlewyrchu sut nad yw'r llwybr at ddatrysiaid yn un cyffredinol ar draws pob math o broblemau ac efallai y bydd angen mwy o ymgysylltu â'r system gyfiawnder ffurfiol ar rai materion.

Yn fras, mae'n ymddangos bod y rhai sy'n derbyn grant yn lleol ac yn rhanbarthol yn cyrraedd carfan debyg o ddefnyddwyr Cyngor ar Bopeth. Mae'r rhan fwyaf o gleientiaid yn fenywod (62%), rhwng 25 a 55 (65%), a gwyn (91%). Mae o leiaf chwarter y cleientiaid yn nodi bod ganddynt anabledd, ond mae tystiolaeth i awgrymu bod hyn yn amcangyfrif rhy isel a bod gan nifer uwch o gleientiaid iechyd corfforol a meddyliol gwael a dangosyddion eraill o fod yn agored i niwed. Mae rhywfaint o amrywiaeth yn nodweddion cleientiaid mewn meysydd cyfreithiol, gan gynnwys nifer y cleientiaid y mae'n well ganddynt beidio â datgelu'r wybodaeth hon.

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn allweddol i LSLIP a'r gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain. Drwy ffurfioli llwybrau atgyfeirio rhwng gwasanaethau a rhannu adnoddau arbenigol, mae derbynwyr y grant

wedi gallu ehangu'r cyngor sydd ar gael ar draws ardaloedd daearyddol ehangach a meysydd o'r gyfraith, er mwyn darparu gwasanaeth mwy cyfannol sy'n gallu mynd i'r afael â holl broblem y cleient. Mae cyfathrebu, ymddiriedaeth a pherthynas agos wedi bod yn allweddol i hwyluso'r gwaith partneriaeth llwyddiannus hwn, yn enwedig ar gyfer partneriaethau gyda sefydliadau o wahanol rwydweithiau cynghori, sydd â gwahanol ffyrdd o weithio.

Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod y cyngor a'r gefnogaeth yn gwella canlyniadau cleientiaid. Mae'r data interim a gasglwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant yn awgrymu bod 93% o gleientiaid wedi gwella eu dealltwriaeth o'u problem ac y gallai gael datrysiad cyfreithiol; roedd 76% yn ymwybodol o unrhyw gamau yr oedd angen iddynt eu cymryd i ddatrys eu problem; roedd 66% wedi cael mwy o hyder a gallu i gymryd y cam hwn; roedd 62% o'r materion wedi'u datrys gerbron y llys neu'r tribiwnlys; roedd gan 83% o'r rhai a aeth i'r llys neu'r tribiwnlys well dealltwriaeth o'r hyn i'w ddisgwyl; ac roedd 81% wedi rhoi asesiad cadarnhaol o'r cymorth a'r canlyniad.

Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar ddata interim o feintiau sampl gwahanol, felly mae angen mwy o ddata i gefnogi'r casgliadau hyn. Bydd rhagor o ddata'n cael ei gasglu drwy gydol oes LSLIP a bydd y tueddiadau hyn yn cael eu monitro. Cafodd dulliau gwerthuso arbrofol neu lled-arbrofol eu harchwilio ond nid oeddent yn cael eu hystyried yn gymesur oherwydd cymhlethdod y dulliau hyn a'r adnoddau y byddent wedi bod eu hangen yn ystod y pandemig, felly mae angen rhagor o dystiolaeth er mwyn priodoli'r canlyniadau hyn yn hyderus i'r cyngor a chyffredinoli'r canfyddiadau hyn.

Mae'r adolygiad canol grant yn dadansoddi'r data a gasglwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant gyda'i gilydd, er mwyn cydbwysu'r manylion gyda'r parhad ar y cam hwn o'r grant. **Dros y flwyddyn nesaf, y flaenoriaeth ar gyfer y gwerthusiad fydd edrych yn fanylach ar y gwahanol fodelau darparu LSLIP, y canlyniadau y maent yn eu cyflawni ac a oes modd eu hailadrodd neu eu ehangu.**

Er bod y cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol wedi atal hyn rhag digwydd cyn hyn, mae cydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn croesawu'r cyfle i ymweld â sefydliadau i weld gwasanaethau LSLIP drostynt eu hunain, os caniateir iddynt wneud hynny yn ystod y misoedd nesaf.

2. Cyflwyniad

Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol¹ a oedd yn amlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i weledigaeth newydd ar gyfer cymorth cyfreithiol, ar sail ymyriadau cynharach. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, roedd y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol yn cynnwys sawl ymrwymiad i dreialu a gwerthuso gwahanol fathau o gymorth cyfreithiol cynnar, er mwyn deall yn well pa ymyriadau sy'n gweithio orau, pryd, ac i bwy. Ymysg yr ymrwymadau hyn yr oedd yr addewid i gynyddu cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y Strategaeth Cymorth i Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain i £3 miliwn am ddwy flynedd.

Er mwyn darparu'r cyllid hwn, bu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, sefydliad sydd â phrofiad sylweddol o reoli grantiau i'r sector cynghori. Mae'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder yn rheoli'r Strategaeth Cymorth i Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi darparu £1.45m o gyllid y flwyddyn ers 2015, a'r Gronfa Cyfiawnder Cymunedol, a roddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder £4.4m² iddi yn ddiweddar i gefnogi'r sector cynghori drwy gydol y pandemig.

Bu'r ddau sefydliad yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddatblygu'r rhaglen Grantiau Cymorth Cyfreithiol i Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LSLIP), sy'n gwella'r cymorth cyfreithiol sydd ar gael ledled Cymru a Lloegr drwy ariannu gwasanaethau newydd, ehangu neu uwchraddio sy'n cefnogi'r ymyriadau cynharaf posibl ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Lanswyd LSLIP yn ffurfiol ym mis Ebrill 2020, gyda thri amcan canolog:

1. Gwella gwasanaethau sy'n cefnogi'r ymyriadau cynharaf posibl ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, gan leihau'r risg y bydd eu problemau'n gwaethygu.

¹ Y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol 'The Way Ahead - An action plan to deliver better support to people experiencing legal problems' sydd ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/777036/legal-support-the-way-ahead.pdf

² Rhoddwyd £3m ychwanegol i'r Rhwydwaith Canolfannau Cyfraith, gan ddod â chyfanswm y cyllid ar gyfer y sector cynghori fel rhan o'r Cynllun Gwasanaeth Cynghori Arbenigol Covid i £7.4m.

2. Datblygu ein dealltwriaeth o sut a phryd y mae ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn cael mynediad at wahanol wasanaethau, er mwyn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio o amgylch y bobl y mae angen iddynt eu defnyddio.
3. Creu sylfaen dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio, drwy werthuso effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir gan y grant newydd i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.

Felly, mae gwerthuso'n elfen allweddol o'r grant, fel y gall y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder ddatblygu sylfaen dystiolaeth gyfunol o'r manteision y maent yn eu darparu i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, mewn partneriaeth â'r sector cynghori. Mae pawb sydd wedi derbyn y grant wedi gwneud ymdrech sylweddol i gasglu dystiolaeth, casglu ystod o ddata meintiol ac ansoddol am eu cleientiaid, y cyngor y maent wedi'i roi a'r effaith y mae'r cyngor hwn wedi'i chael ar ganlyniadau allweddol o ddiddordeb. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd yr holl ddata a thystiolaeth a gasglwyd rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mehefin 2021, er mwyn adrodd ar gynnydd tuag at dri amcan y grant a rhoi rhywfaint o wybodaeth am y buddion a gyflawnwyd i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain o ganlyniad i'r cyllid. Bydd data'n parhau i gael ei gasglu ar gyfer gweddill cyfnod y grant, gydag adroddiad llawn yn cael ei baratoi yn ystod hydref 2022.

Mae'n bwysig nodi bod lansio LSLIP wedi cyd-daro â dechrau pandemig Covid-19, sydd wedi cael effeithiau economaidd a chymdeithasol eang ar anghenion cyfreithiol, y sector cynghori a'r dirwedd gyfiawnder ehangach. Mae wedi bod yn hollbwysig cymryd agwedd agored a hyblyg at y rhaglen, er mwyn ystyried effaith Covid-19 ar y sector a chaniatáu i sefydliadau ymateb i'r amgylchedd sy'n newid. Mae'r sector cynghori wedi addasu gwasanaethau'n gyflym er mwyn parhau i helpu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn ystod y cyfnod ansicr hwn.

3. Strwythur y Grant

3.1 Sefydliadau a ariennir

Y Prif Bwyntiau


- Ariannwyd un ar ddeg o grantiau gan LSLIP i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cynghori ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol ledled Cymru a Lloegr.
- Roedd derbynwyr y grant yn darparu gwasanaethau i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ar draws nifer o feysydd cyfraith sifil a theulu ac yn adrodd ar weithgareddau mewn pedwar cam allweddol i gofnodi nifer y cyngor ar wahanol gamau yn eu taith datrys problemau ac effaith y gwahanol fathau hyn o gyngor.

Mae LSLIP wedi ariannu amrywiaeth o wasanaethau cynghori ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Pennwyd y fframwaith hwn gyda'r farn bod ymyriadau ar bob un o'r tair lefel yn fuddiol er mwyn gwella'r gefnogaeth a'r cyngor sydd ar gael i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ledled Cymru a Lloegr.

Mae cyfanswm o 11 o grantiau LSLIP		
Pum grant lleol	Tri grant rhanbarthol	Tri grant cenedlaethol
Mae'r grantiau hyn yn cynyddu'r ddarpariaeth o sefydliadau ledled y wlad sydd eisoes yn gweithio gydag ymgyfreithwyr drostynt eu hunain mewn sawl maes cyfraith sifil a theuluol.	Mae'r grantiau hyn yn datblygu gwasanaethau ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain mewn ardaloedd daearyddol lle ceir bylchau yn y ddarpariaeth, gan greu rhwydweithiau cydlynol ar draws rhanbarth.	Mae'r grantiau hyn yn ariannu gwasanaethau sy'n gallu darparu gwybodaeth, arweiniad a/neu gyngor ledled Cymru a Lloegr, gan ddefnyddio dulliau darparu o bell.

Mae'r grantiau lleol a rhanbarthol yn cael eu darparu mewn ardaloedd ledled Cymru a Lloegr, fel y dangosir yn Ffigur 1. Nid yw derbynwyr cenedlaethol y grantiau yn cael eu dangos yn y map hwn, ond maent yn cael sylw cenedlaethol, felly gall pobl sydd â phroblemau sifil a theulu ledled Cymru a Lloegr gael gafael ar wasanaeth a ariennir gan LSLIP.

Ffigur 1: Map o Gymru a Lloegr yn dangos cwmpas daearyddol y partneriaethau LSLIP lleol a rhanbarthol



*IDAS - Independent Domestic Abuse Service

Roedd y rhaglen LSLIP yn gwahodd carfan ddethol o sefydliadau cynghori i wneud cais am gyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori a fyddai'n gwella eu gwasanaeth presennol ac yn diwallu anghenion eu hardaloedd lleol, gan gydnabod y bydd gan bob ardal wahanol anghenion cynghori, yn dibynnu ar y boblogaeth leol a'r gwasanaethau sydd eisoes ar gael. O ganlyniad, mae derbynwyr y grant yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ar draws sawl maes cyfraith sifil a theulu.

Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o'r 11 o grantiau LCLIP, y sefydliad arweiniol ar gyfer pob partneriaeth, nifer y sefydliadau sy'n darparu cyngor ym mhob partneriaeth, a phrif feysydd y gyfraith y mae pob derbynnydd yn darparu cyngor yn eu cylch. Mae llawer o'r

partneriaethau hyn hefyd yn darparu rhywfaint o gyngor y tu allan i'w meysydd ffocws. Mae rhagor o fanylion am y partneriaethau hyn ar gael ar t.17.

Tabl 1: Golwg gyffredinol ar yr 11 grant LSLIP, eu prif bartneriaid a'r meysydd ffocws

Prosiect a ariennir				Meysydd ffocws					
Ffrwd gyllido	Enw'r bartneriaeth	Prif bartner	Partneriaid cyflawni	Aelodau'r teulu	Cyflogaeth	Tai	Budd-daliadau Lles	Gwahaniaethu	Gofal yn y Gymuned
Lleol	Dorset a De Somerset	Cyngor ar Bopeth Canol Dorset	9	✓	✓	✓		✓	
	Canolbarth a Gogledd Swydd Efrog	Cyngor ar Bopeth Canolbarth-Gogledd Swydd Efrog	4	✓		✓		✓	
	Dwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr	Central England Law Centre	2		✓				
	Suffolk a Norfolk	Canolfan y Gyfraith Suffolk	2	✓		✓		✓	
	Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhirfryn	Canolfan y Gyfraith Manceinion Fwyaf	2	✓	✓	✓	✓	✓	
Rhanbarthol	Gogledd-ddwyrain Lloegr	Canolfan y Gyfraith Gogledd Ddwyrain Lloegr	13	✓	✓		✓		
	Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cyngor ar Bopeth Ynys Môn	8	✓	✓				✓
	Dyfnaint a Chernyw	Cyngor ar Bopeth Teignbridge	9	✓					
Cenedlaethol	Support Through Court ac RCJ Advice	Support Through Court ac RCJ Advice	2	✓					
	Law Works	Law Works	1	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	Law for Life	Law for Life	1	✓		✓	✓		

Mae Tabl 2 yn amlinellu cwmpas eang y meysydd cyfraith hyn, gydag enghreifftiau o broblemau yn y meysydd hyn. Er bod y categoreddio hwn yn ddefnyddiol er mwyn cael dealltwriaeth eang o'r mathau o broblemau a brofwyd, nid yw rhai problemau'n rhai ar wahân ac maent yn cyd-fynd ag un neu nifer o feysydd cyfraith eraill. Er enghraifft, gall problem cyflogaeth, megis diswyddo annheg, fod yn ganlyniad i wahaniaethu. Mae'n

gyffredin hefyd³ i rai pobl brofi nifer o broblemau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'i gilydd (a elwir hefyd yn glwstwr o faterion) ar draws nifer o feysydd cyfraith. Felly, efallai y bydd rhywfaint o amrywiaeth yn y ffordd y mae'r materion hyn yn cael eu categorio a'u cofnodi gan sefydliadau.

Tabl 2: Y 10 maes cyfraith sifil a theulu lle cynigir cyngor gan dderbynwyr y grant LSLIP, gydag enghreifftiau o broblemau yn y meysydd hyn

Maes y gyfraith	Cwmpas
Tai	Gall materion tai gynnwys bygwth cael eich troi allan a/neu ddigartrefedd posibl, problemau gydag ôl-ddyledion rhent, ad-daliadau morgais, delio â phroblem gyda landlord neu, yn gyffredinol, ceisio cymorth ar gyfer mater sy'n ymwneud â thai.
Aelodau'r teulu	Gall materion teuluol gynnwys ysgaru, gwahanu neu derfynu partneriaeth sifil, delio â materion ariannol neu drefniadau eiddo ar ôl gwahanu, gwneud neu gael cymorth gyda threfniadau plentyn neu faterion yn ymwneud â marwolaeth neu ewyllys.
Cyflogaeth	Mae problemau sy'n gysylltiedig â gwaith yn cynnwys cael eich diswyddo'n annheg neu golli eich gwaith, wynebu gwahaniaethu, damwain yn y gwaith neu ddelio â chwyn neu gamau disgyblu. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys problemau gyda'r cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (neu 'ffyrlo').
Budd-daliadau Lles	Gall problemau gyda budd-daliadau a chredydau treth gynnwys herio penderfyniadau ynghylch budd-daliadau, gordaliadau budd-daliadau neu broblemau sy'n gysylltiedig â chyhuddiadau o dwyll budd-daliadau.
Dyled	Gall problemau dyled gynnwys methu fforddio biliau neu daliadau dyled, gan gynnwys biliau cyfleustodau neu dreth gyngor, ad-dalu morgais neu ddyled treth, delio ag ôl-ddyledion rhent, delio â champau gweithredu gan gredydwyr, a gwella gallu ariannol yn gyffredinol.
Gwahaniaethu	Mae'r problemau hyn yn ymwneud â gwahanol fathau o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu sy'n ymwneud ag oed, anabled, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.
Trais Domestig	Mae'r materion hyn yn cynnwys ymddygiad camdriniol neu dreisgar gan aelod o'r teulu, partner neu gynbartner, gan gynnwys harasio, stelcio, masnachu, rheolaeth ariannol, anffurfio organau cenedlu benywod, priodas dan orfod a cham-drin 'ar sail anrhydedd'.

³ Canfu Arolwg Datrys Problemau Cyfreithiol diweddaraf y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2014-15 fod hanner yr holl oedolion â phroblem gyfreithiol wedi cael mwy nag un problem. Mae'r canfyddiadau hyn ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/596490/legal-problem-resolution-survey-2014-to-2015-findings.pdf

Mewnfudo	Gall materion mewnfudo gynnwys gwneud cais am statws sefydlog, problemau gyda fisa neu gais am fisa, cael gafael ar wasanaethau neu fudd-daliadau pan fyddant yn ddarostyngedig i fesurau rheoli mewnfudo, derbyn cymorth lloches neu ffoaduriaid, dioddefwyr masnachu neu lafur gorfodol, neu ddelio ag alltudio.
Gofal yn y Gymuned	Mae'r rhain yn faterion sy'n ymwneud â phobl sy'n derbyn gofal yn y gymuned, gan gynnwys pobl anabl neu fregus, aelod o deulu oedolyn neu blentyn anabl, a gofalwyr. Gall materion penodol gynnwys cau cyfleusterau gofal, tynnu'n ôl neu leihau lefel y gofal sy'n cael ei ddarparu, methu cynnal asesiad gofal yn y gymuned neu ddarparu lefel ddigonol o ofal yn dilyn asesiad, a materion Atwrneiaeth Arhosol a Gwarcheidiaeth.
Cyfraith Gyhoeddus	Mae'r rhain yn faterion sy'n ymwneud â methiannau penodol awdurdod cyhoeddus i weithredu'n unol ag egwyddorion a rheolau cyfraith gyhoeddus perthnasol. Gall materion penodol gynnwys herio proses gwneud penderfyniadau corff cyhoeddus, dilyn trefn gwyno, apelio yn erbyn penderfyniad, adolygiad gweinyddol neu ailystyried gorfodol, ac adolygiad barnwrol.

Nid yw derbynwyr y grant wedi gosod targedau ar gyfer nifer y cleientiaid y mae'n rhaid iddynt eu cyrraedd yn ystod cyfnod y grant, er mwyn rhoi lle iddynt ddatblygu eu modelau cyngor a mabwysiadu dull profi a dysgu. Mae hyn hefyd wedi rhoi'r hyblygrwydd i sefydliadau ymateb i'r newidiadau yn lefelau'r angen cyfreithiol sy'n codi drwy gydol y pandemig, fel cynnydd yn y galw am gymorth cyfreithiol mewn meysydd teulu, tai, cyflogaeth a dyled.

Fodd bynnag, er mwyn cofnodi faint o gyngor a roddir i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain ar wahanol gamau yn eu taith datrys problemau, ac effaith y gwahanol fathau hyn o gyngor, gofynnwyd i dderbynwyr grant adrodd am eu gweithgareddau ym mhob maes o'r gyfraith mewn pedwar cam allweddol. Mae'r camau hyn wedi cael eu haddasu o gamau'r cyngor cyfreithiol a ddiffiniwyd gan Gynghrair y Gwasanaeth Cynghori⁴. Mae pennu'r gwahaniaeth hwn wedi helpu i gofnodi niferoedd cleientiaid, nodweddion cleientiaid a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o gyngor mewn ffordd gyson.

Mae'r camau cynharach yn cefnogi cleientiaid drwy frysbennu, cyngor cyffredinol, gwaith achos a chyfeirio ac atgyfeiriadau i ddatrys eu problemau cyn i achos llys neu Dribiwnlys gychwyn. Mae'r atgyfeiriadau hyn yn aml yn rhai mewnol i gynghorwyr arbenigol yn y sefydliadau partneriaeth, gan gynnwys y rhai a ariennir gan LSLIP a'r rhai sy'n rhan o'u

⁴ Ewch i: <https://asauk.org.uk/wp-content/uploads/2013/08/Definitions-to-help-you-understand-the-advice-sector.pdf>

gwasanaethau ehangach. Mae'r camau diweddarach yn rhoi cyngor a chefnogaeth i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain gerbron y llys ac yn y llys, unwaith y bydd achos llys neu Dribiwnlys wedi'i gychwyn. Mae Tabl 3 yn rhoi rhagor o fanylion am y pedwar cam cyngor hyn.

Tabl 3: Pedwar cam y cyngor a ddarperir gan dderbynwyr grant LSLIP

Cyn ymgysylltu â'r system cyfiawnder ffurfiol		Yn ystod ymgysylltu â'r system cyfiawnder ffurfiol	
Cam 1 Cyngor cyffredinol a brysbennu	Cam 2 Gwaith achos	Cam 3a Cyngor, arweiniad a chefnogaeth cyn y llys	Cam 3b Cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol yn y llys
Ymgysylltu â phobl a allai fod ag ateb cyfreithiol i'w problem/problemau ond nad ydynt yn ymwybodol o hyn. Datrys yr hyn sy'n achosi eu caledi ariannol neu eu problem gyfreithiol sifil cyn gynted ag y bo modd drwy brosesau brysbennu medrus i ganfod y broblem/problemau a dilyn hyn gyda chyngor cyffredinol cychwynnol.	Darparu gwaith achos i'r cleientiaid mwyaf agored i niwed sy'n cysylltu ag asiantaethau cynghori ynghylch camau gweithredu posibl, gan ddatgelu eu holl anghenion cyfreithiol i ddatrys y clystyrau sy'n achosi problemau cyn i achos llys ddod yn angenrheidiol.	Darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth i alluogi ymgyfreithwyr drostynt eu hunain i gynrychioli eu hunain yn well yn y llys. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar sut i baratoi unrhyw ddogfennau llys angenrheidiol, cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r llys a chyfleu eu hunain yn ystafell y llys.	Rhoi cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i gleientiaid mewn llys neu dribiwnlys.

3.2 Ffrwd gyllido leol

Y Prif Bwyntiau

- Mae'r ffrwd gyllido leol yn cynnwys pum grant sy'n cefnogi ac yn cynyddu'r ddarpariaeth o sefydliadau sydd eisoes yn gweithio gydag ymgyfreithwyr drostynt eu hunain mewn sawl maes cyfraith sifil a theulu.
- Mae cyfanswm o 19 o sefydliadau'n ymwneud â darparu'r grantiau hyn, gan gynnwys swyddfeydd Cyngor ar Bopeth, Canolfannau'r Gyfraith a gwasanaethau cymorth eraill yn y gymuned.

Dwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr

Mae'r bartneriaeth rhwng Canolfan y Gyfraith Canolbarth Lloegr a Chanolfan y Gyfraith Swydd Derby yn darparu cyngor a chefnogaeth ar faterion cyflogaeth. Mae'r bartneriaeth yn cynyddu capasiti'r gwasanaeth gwaith achos, gan alluogi cwrmpas daearyddol ehangach, i gynnwys ardal Cyngor Bwrdeistref High Peak yn Swydd Derby ac o gwmpas Birmingham a Coventry.

Meysydd y gyfraith
Cyflogaeth

Sefydliad Arweiniol
Central England Law
Centre

Partneriaid Cyflawni
Canolfan y Gyfraith Swydd
Derbv

Mae'r prosiect yn cynnwys gweithgareddau ym mhob un o'r pedwar cam cynghori. Mae hyn yn cynnwys: llinell gymorth dros y ffôn sy'n helpu cleientiaid i ganfod a oes ateb cyfreithiol ac sy'n darparu cymorth i gyflawni canlyniad heb ddechrau achos cyfreithiol; cefnogaeth gwaith achos i gleientiaid sy'n fwy agored i niwed ac sydd angen cymorth ychwanegol i lywio drwy'r broses gyfreithiol; cyngor a chymorth adeiladol cyn y Tribiwnlys; a chynrychiolaeth yn y Tribiwnlys ar gyfer cleientiaid sy'n fwy agored i niwed.

Dorset a De Gwlad yr Haf

Mae partneriaeth Dorset a De Gwlad yr Haf wedi cael ei hariannu i gyflogi neu wella gallu gweithwyr achos arbenigol ym meysydd cyflogaeth, tai, teulu a gwahaniaethu ar sail hil.

Mae'r rhaglen yn cynyddu lefel y cydweithio rhwng gwasanaethau lleol, i gydlynu brysbennu cyffredinol ar draws yr holl bartneriaid ac ehangu llwybrau atgyfeirio, fel bod cyngor arbenigol ar gael ar draws Dorset a De Gwlad yr Haf.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio arbenigedd gweithwyr achos i hyfforddi cynghorwyr gwirfoddol arbenigol ac i ddarparu gwasanaeth ymgynghori a chefnogaeth, i ehangu eu gallu a darparu cynaliadwyedd yn y tymor hwy. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio arbenigedd a safbwyntiau penodol Shelter a Chyngor Cydraddoldeb Hiliol Dorset, er mwyn cynyddu ehangder a dyfnder y cyngor.

Meysydd y gyfraith

Teulu, Cyflogaeth, Tai, Gwahaniaethu

Sefydliad Arweiniol

Cyngor ar Bopeth Canol Dorset

Partneriaid Cyflawni

1. Cyngor ar Bopeth Bridport
2. Cyngor ar Bopeth Dwyrain Dorset
3. Cyngor ar Bopeth Purbeck
4. Cyngor ar Bopeth De Gwlad yr Haf
5. Shelter Dorset
6. Shelter Bryste
7. Cyngor ar Bopeth Bournemouth, Christchurch a Poole
8. Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Dorset

Suffolk a Norfolk

Mae'r bartneriaeth rhwng Canolfan y Gyfraith Suffolk a Gwasanaeth Cyfraith y Gymuned Norfolk yn darparu cyngor ar faterion teuluol, cyflogaeth, tai a gwahaniaethu. Mae'n sefydlu'r gwasanaeth allgymorth gwledig, a dreialwyd gyda chyllid blaenorol gan y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, ac mae'n cynyddu'r gwaith achos arbenigol a'r cyngor cyfreithiol sydd ar gael.

Meysydd y gyfraith

Teulu, Cyflogaeth, Tai, Gwahaniaethu

Sefydliad Arweiniol

Canolfan y Gyfraith Suffolk

Partneriaid Cyflawni

Gwasanaeth Cyfraith y
Gymuned Norfolk

Darperir gwasanaeth allgymorth drwy'r 'Bws Cyfiawnder', gwasanaeth brysbennu symudol a chyngor arbenigol sy'n cyrraedd y ddwy sir. Mae'r gwasanaeth symudol yn darparu cyngor cyfreithiol cychwynnol mewn manau dibynadwy y mae pobl eisoes yn mynd iddynt, fel llyfrgelloedd a banciau bwyd. Gall y swyddogion brysbennu wedyn gyfeirio cleientiaid sydd ag achosion mwy cymhleth at yr arbenigwyr yn y bartneriaeth, lle gallant gael gwaith achos arbenigol a chyngor cyfreithiol cyn y llys ac yn y llys.

Canolbarth a Gogledd Swydd Efrog

Mae partneriaeth Canolbarth a Gogledd Swydd Efrog wedi cael ei hariannu i gyflogi, hyfforddi a chynyddu capasiti gweithwyr achos arbenigol ym maes tai, teulu a gwahaniaethu.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio model 'hub-and-spoke', lle gall cleientiaid gael gafael ar gymorth gan un o'r canolfannau canolog neu drwy'r bws 'Rural Reach' sy'n darparu gwasanaethau allgymorth mewn lleoliadau cymunedol fel llyfrgelloedd a banciau bwyd. Mae pob unigolyn sy'n cyflwyno i'r gwasanaeth yn cael asesiad cychwynnol gan wirfoddolwr neu hyfforddai cynghori, sy'n gallu canfod a dadansoddi'r broblem a darparu cyngor cyffredinol. Os oes angen, cânt eu cyfeirio at weithwyr achos arbenigol sy'n gallu rheoli achosion a chlystyrau mwy cymhleth, neu at gymorth ychwanegol yn ôl yr angen (e.e. gwasanaethau iechyd meddwl).

Meysydd y gyfraith

Teulu, Tai, Gwahaniaethu

Sefydliad Arweiniol

Cyngor ar Bopeth
Canolbarth-Gogledd Swydd
Efrog

Partneriaid Cyflawni

1. Cyngor ar Bopeth
Scarborough a'r Ardal
2. Cyngor ar Bopeth a
Chanolfan y Gyfraith
Kirklees
3. Gwasanaeth Cam-drin
Domestig Annibynnol

Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhirfryn

Mae'r bartneriaeth rhwng Canolfan y Gyfraith Manceinion Fwyaf a Chyngor ar Bopeth Gogledd Swydd Gaerhirfryn wedi cael ei hariannu i ddarparu rhwydwaith cyngor a gwybodaeth rhanbarthol integredig a all gefnogi ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ar draws Swydd Gaerhirfryn a Manceinion Fwyaf.

Yn seiliedig ar ganolfan gymunedol ym mhob sir, mae cydlynwyr/llyw-wyr yn cynnig cyngor cynnar dros y ffôn, e-bost a fideo i gefnogi cyngor cyffredinol cyfredol. Mae cyfreithiwr cyflogaeth arbenigol yn hyfforddi ac yn goruchwylio'r cyngor hwn, tra hefyd yn ymgymryd â gwaith achos arbenigol a chymorth cyfreitha i gleientiaid agored i niwed neu rai ag achosion cymhleth. Mae'r prosiect hefyd yn datblygu adnoddau a deunyddiau ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain a darparwyr cymunedol eraill.

Meysydd y gyfraith

Cyflogaeth, Teulu, Tai, Budd-daliadau Lles, Gwahaniaethu

Sefydliad Arweiniol

Canolfan y Gyfraith Manceinion Fwyaf

Partneriaid Cyflawni

Cyngor ar Bopeth Gogledd Swydd Gaerhirfryn

3.3 Ffrwd gyllido ranbarthol

Y Prif Bwyntiau

- Mae'r ffrwd gyllido ranbarthol yn cynnwys tri grant sy'n llunio rhwydweithiau cydlynol ar draws rhanbarth gyda'r nod o gael eu dyblygu mewn rhannau eraill o'r wlad.
- Mae cyfanswm o 29 o fudiadau'n ymwneud â darparu'r grantiau hyn, gan gynnwys swyddfeydd Cyngor ar Bopeth, Canolfannau'r Gyfraith, a Phrifysgol.

Gogledd Ddwyrain Lloegr

Mae partneriaeth Gogledd Ddwyrain Lloegr yn gonsortiwrm o 13 sefydliad a'r bartneriaeth fwyaf o fewn LSLIP. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu dwy ganolfan gymorth rithiol sy'n darparu cyngor a chymorth ar fudd-daliadau lles, cyflogaeth a phroblemau teuluol.

Mae'r model yn cynnwys partneriaid yn nodi'r staff sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth berthnasol ac yn eu rhyddhau i'r ganolfan rithwir am nifer o ddiwrnodau yr wythnos y cytunwyd arnynt. Mae'r staff hyn yn gweithio o'u swyddfa leol ond yn gweithredu fel 'aelodau staff canolfan rhithwir' y mae eu sgiliau a'u harbenigedd ar gael i'r holl

bartneriaid cyflawni, sy'n gallu atgyfeirio dros y ffôn, e-bost neu galendr ar-lein. Mae gan y model raglen hyfforddi a mentora strwythuredig ac mae wedi'i chynllunio i gynyddu capasiti ar gyfer cyngor arbenigol ar draws y rhanbarth.

Mae'r bartneriaeth hefyd yn datblygu is-brosiect gyda GLITEM i alluogi mynediad o bell/rhithiol at gyfreithiwr arbenigol mewn Llysoedd Cyfraith Teulu ar draws Gogledd Ddwyrain Lloegr.

Meysydd y Gyfraith

Teulu, Cyflogaeth, Budd-daliadau Lles

Sefydliad Arweiniol

Canolfan y Gyfraith Gogledd Ddwyrain Lloegr

Partneriaid Cyflawni

1. Cyngor ar Bopeth Northumberland
2. Cyngor ar Bopeth Newcastle
3. Cyngor ar Bopeth Gogledd Tyneside
4. Cyngor ar Bopeth De Tyneside
5. Cyngor ar Bopeth Sunderland
6. Cyngor ar Bopeth Gateshead
7. Cyngor ar Bopeth Durham
8. Cyngor ar Bopeth Darlington
9. Cyngor ar Bopeth Stockton
10. Cyngor ar Bopeth Hartlepool
11. Cyngor ar Bopeth Middlesbrough
12. Cyngor ar Bopeth Redcar

Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae partneriaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru yn gonsortiwrm o saith cangen Cyngor ar Bopeth Leol a Phrifysgol Bangor. Mae gweithwyr achos teulu, gofal cymunedol a chyflogaeth wedi cael eu recriwtio i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a chynyddu capasiti.

Mae'r bartneriaeth yn hwyluso partneriaeth ehangach a dyfnach gyda Phrifysgol Bangor, er mwyn galluogi nifer uwch o fyfyrwyr i wirfoddoli ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru. Caiff myfyrwyr, yn enwedig y rhai sy'n astudio ar gyfer modiwlau arbenigol ym maes cyflogaeth, gofal cymunedol a theulu, eu cefnogi i helpu'r gweithwyr achos arbenigol a chynyddu eu sgiliau cyfreithiol yn y meysydd cyfreithiol hyn. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â nod Ysgol y Gyfraith Bangor o wreiddio sgiliau yn ei chwricwlwm ac ehangu'r ddarpariaeth ar draws y rhanbarth. Mae Ysgol y Gyfraith hefyd yn cynnal ymchwil sy'n cefnogi gwell dealltwriaeth o'r llwybrau a gymerir gan ymgyfreithwyr drostynt eu hunain a sut i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio o amgylch eu hanghenion.

Dyfnaint a Chernyw

Mae partneriaeth Dyfnaint a Chernyw yn gonsortiwrm o naw Cyngor ar Bopeth Lleol. Mae'r bartneriaeth yn adeiladu ar brosiect pilot Mynediad at Gyfiawnder Dyfnaint Cyngor ar Bopeth, gan ei ehangu ar draws Dyfnaint a Chernyw. Mae'r prosiect yn darparu gwaith achos arbenigol ac yn paratoi ar gyfer y llys ar gyfer cleientiaid sydd â phroblemau cyfraith teulu, er mwyn bodloni'r cynnydd yn y galw am gyngor yng nghyswllt perthynas yn chwalu ac ymholiadau eraill am gyfraith teulu, o ganlyniad i Covid-19.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda sefydliadau ledled Dyfnaint a Chernyw drwy sefydlu rhwydwaith atgyfeirio ar y cyd ar draws y ddwy sir sy'n cynnwys Clinig Cyfraith Prifysgol Caerwysg. Er mwyn sicrhau llwyddiant yr atgyfeiriadau hyn, mae'r prosiect yn darparu hyfforddiant i gynghorwyr cyffredinol craidd ar draws swyddfeydd Cyngor ar Bopeth yn

Meysydd y Gyfraith

Teulu, Cyflogaeth, Gofal Cymunedol

Sefydliad Arweiniol

Cyngor ar Bopeth Ynys Môn

Partneriaid Cyflawni

1. Cyngor ar Bopeth Wrecsam
2. Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint
3. Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych
4. Cyngor ar Bopeth Rhanbarth Conwy
5. Cyngor ar Bopeth Gwynedd
6. Cyngor ar Bopeth Powys
7. Prifysgol Bangor (Ysgol y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithasol)

Meysydd y Gyfraith

Aelodau'r teulu

Sefydliad Arweiniol

Cyngor ar Bopeth Teignbridge

Partneriaid Cyflawni

1. Cyngor ar Bopeth Cernyw
2. Cyngor ar Bopeth Dyfnaint
3. Cyngor ar Bopeth Dwyrain Dyfnaint
4. Cyngor ar Bopeth Caerwysg
5. Cyngor ar Bopeth Plymouth
6. Cyngor ar Bopeth Torbay
7. Cyngor ar Bopeth Torridge, Gogledd, Canolbarth a

Nyfnaint a Chernyw, i wella sgiliau a chynyddu gallu gwirfoddolwyr a chynghorwyr cyffredinol i ganfod lle y gallai cleient elwa o gyngor arbenigol. Gyda rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer cyngor wyneb yn wyneb yn dibynnu ar yr angen a'r cyfle, mae cyngor yn cael ei ddarparu'n bennaf dros y ffôn, drwy fideo-gynadledda ac e-bost.

3.4 Ffrwd gyllido genedlaethol

Y Prif Bwyntiau

- Mae'r ffrwd gyllido genedlaethol yn cynnwys tri grant sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth, cyngor, arweiniad neu gefnogaeth i gleientiaid ledled Cymru a Lloegr gan ddefnyddio technoleg a chymorth o bell.

Support Through Court ac RCJ Advice

Mae'r bartneriaeth rhwng Support Through Court ac RCJ Advice yn hwyluso atgyfeiriadau amserol rhwng y ddau wasanaeth, er mwyn ehangu'r gefnogaeth sydd ar gael i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi ymgyfreithwyr drostynt eu hunain i gael gafael ar gymorth ymarferol, emosiynol a threfniadol (o Support Through Court), yn ogystal â chyngor cyfreithiol arbenigol (gan RCJ Advice).

Mae cyllid LSLIP yn cefnogi ehangu llinell ffôn genedlaethol Support Through Court, sy'n darparu cefnogaeth ymarferol, emosiynol a threfniadol i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain sydd â phroblemau sifil a theuluol. Gall y llinell ffôn hefyd gyfeirio galwyr at ffynonellau cyngor cyfreithiol, gan gynnwys sawl ffynhonnell o gymorth a ddarperir gan RCJ Advice, megis CourtNav a Finding Legal Options for Women Survivors (FLOWS). Er mwyn ehangu hygyrchedd y cyngor, mae LSLIP wedi ariannu RCJ Advice i recriwtio twrnai teulu, i dderbyn atgyfeiriadau'n uniongyrchol gan Support Through Court a rhoi cyngor cyfreithiol arbenigol iddynt. Gall pob cleient gael hyd at dair sesiwn gynghori gyda thwrnai teulu RCJ Advice.

Roedd Support Through Court wedi bwriadu treialu podiau 'Gofod Diogel' o bell, lle gallai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn Llys Teulu Canol Llundain (CFC) a Llysoedd Nottingham ddefnyddio system cynhadledd fideo i gysylltu o bell â gwirfoddolwyr Support Through Court a/neu dwrnai teulu RCJ Advice. Cafodd y 'podiau pilot' ei ddiwygio gan fod heriau parhaus Covid-19 wedi atal comisiynu'r podiau. Yn hytrach, mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar y cysyniad o 'ofod diogel' drwy sicrhau bod cleientiaid yn gallu cael gafael

ar gynghorwyr a gwirfoddolwyr mewn CFC a Llysoedd Nottingham, a themlo'n hyderus na fydd neb yn eu clywed na'u dychryn.

Er mwyn sicrhau atgyfeiriadau amserol a phriodol, mae gwirfoddolwyr Support Through Court yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r atgyfeiriad i RCJ Advice yn effeithiol, ac i fagu hyder wrth ddefnyddio offer a deunyddiau ar-lein, gan gynnwys Advicenow, CourtNav a Free Legal Answers.

LawWorks

Mae'r grant LSLIP wedi ariannu LawWorks i gefnogi a chynyddu eu gwefan Free Legal Answers, sy'n cael ei modelu ar wefan debyg sy'n gweithredu yn Unol Daleithiau America. Yn dilyn atgyfeiriad gan asiantaeth gynghori neu sefydliad yn y gymuned, mae defnyddwyr Free Legal Answers yn disgrifio problem gyfreithiol neu'n gofyn cwestiwn cyfreithiol a byddant yn cael cyngor gan gyfreithiwr pro bono sy'n cymryd rhan.

Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi pobl 18 oed a hŷn, ar incwm isel ac nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, i gael cymorth cyfreithiol cychwynnol am ddim ar gyfer eu problemau sifil a theuluol. Ar hyn o bryd, mae cyfreithwyr pro bono wedi ymrwymo i'r llwyfan gydag arbenigedd mewn cyfraith teulu, tai, cyflogaeth, defnyddwyr a dyledion, ac mae'r rhwydwaith hwn yn tyfu.

Mae Free Legal Answers yn ategu gwasanaethau eraill y mae LawWorks yn eu darparu, gan gynnwys Rhwydwaith Clinig LawWorks sy'n darparu cyngor cychwynnol am ddim i unigolion ym maes cyfraith lles cymdeithasol, y Rhaglen Nid er elw sy'n cysylltu mudiadau bach dielw y mae angen cymorth cyfreithiol arnynt gyda sgiliau ac arbenigedd cyfreithwyr gwirfoddol, a'r prosiect Arbenigedd Eilaidd sy'n hyfforddi ac yn cefnogi cyfreithwyr i ddarparu cyngor a chynrychiolaeth fanwl mewn meysydd o gyfraith lles cymdeithasol sydd wedi'u hariannu.

Law for Life

Mae'r grant LSLIP wedi ariannu Law for Life i ymgymryd â nifer o weithgareddau y gellir eu grwpio'n dri maes gwaith: gwella'r wybodaeth a'r canllawiau sydd ar gael ar wefan Advicenow, ehangu mynediad at Affordable Advice, a chynnal ymchwil i sut mae nifer o wasanaethau allweddol Law for Life yn meithrin gallu cyfreithiol ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ac yn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n eu hwynebu.

Mae Advicenow yn dwyn ynghyd wybodaeth wedi'i dilysu, ei dethol â llaw, a'r wybodaeth ddiweddaraf am y gyfraith a'r hawliau sydd ar gael ar y rhyngwrdd ar draws 350 o bynciau cyfreithiol, er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am hawliau a'r gyfraith. Mae LSLIP wedi ariannu Law for Life i ddiweddarau sawl canllaw ar draws y wefan a hyrwyddo'r adnoddau hyn, drwy Adwords ac optimeiddio SEO.

Mae Affordable Advice yn bartneriaeth rhwng Law for Life and Resolution, sy'n darparu ar gyfer pobl sy'n rhoi trefn ar eu materion ariannol ar ôl ysgariad neu fynd i'r llys dros drefniadau plant, cyfuniad o ganllawiau cam-wrth-gam gan Advicenow fel y gallant wneud y rhan fwyaf o'r gwaith eu hunain, gyda chynghor cyfreithiol wedi'i ddad-fwndelu a ffi sefydlog gan gyfreithwyr teulu Resolution ar y pwyntiau pwysicaf neu fwyaf anodd yn y broses. Mae LSLIP wedi ariannu Law for Life i ehangu mynediad at y gwasanaeth hwn, er mwyn symud o gam peilot i fodel gwasanaeth llawn.

Yn olaf, mae Law for Life wedi cael ei ariannu i gynnal ymchwil i allu digidol a chyfreithiol, i werthuso effaith adnoddau digidol ac archwilio'r prif rwystrau y mae grwpiau agored i niwed yn eu hwynebu wrth gael gafael ar gymorth cyfreithiol. Bydd yr ymchwil hwn yn cael ei ddefnyddio fel sail i raglenni addysg ar-lein.

3.5 Y Gronfa Cyfiawnder Cymunedol

Cafodd y cam ymgeisio cychwynnol ar gyfer y ffrydiau cyllido lleol a rhanbarthol ei ymestyn, er mwyn rhoi mwy o gyfle i sefydliadau rheng flaen ffurfio partneriaethau ac addasu eu gwasanaethau i gyfyngiadau'r pandemig.

Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y Gronfa Cyfiawnder Cymunedol ei chreu fel ymateb brys i bandemig Covid-19, i gefnogi a chynnal gwasanaethau cyngor cyfreithiol arbenigol ym maes lles cymdeithasol gan wynebu amhariad na welwyd ei debyg o'r blaen a chynnydd yn y galw.

Oherwydd brys yr argyfwng, a'r cyfleuster a ddarperir gan CJF i ddyrannu grantiau'n gyflym, penderfynwyd defnyddio cyllid LSLIP o'r cyfnod cychwynnol hwnnw i gefnogi mudiadau sy'n gweithio gydag ymgyfreithwyr drostynt eu hunain drwy CJF. Rhoddwyd grantiau i Wasanaeth Cyfraith Gymunedol Norfolk, Cyngor ar Bopeth Dyfnaint, Cyngor ar Bopeth Middlesbrough, a Chyngor ar Bopeth Gogledd Swydd Gaerhirfryn. Roedd hyn yn sicrhau bod y sefydliadau allweddol hyn yn gallu darparu gwasanaethau arbenigol i'w cymunedau, tra'r oedd eu ceisiadau i'r rhaglen LSLIP yn cael eu hystyried.

Mae rowndiau cyllido Ton 1 a Ton 2 o CJF wedi parhau i gefnogi derbynwyr grantiau LSLIP dethol gyda grantiau costau craidd, gan ganiatáu i sefydliadau fuddsoddi yn eu seilwaith a'u gwasanaethau craidd, wrth weithio i gyflawni amcanion LSLIP.

4. Dull gwerthuso

4.1 Cynllunio a chwmpasu gwerthusiad cyn-gweithredu

Y Prif Bwyntiau

- Datblygwyd dull gwerthuso'r LSLIP mewn partneriaeth agos rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder. Diffiniodd y ddau gorff sawl canlyniad allweddol ar gyfer y grant, gan gynnwys cynyddu mynediad at gyngor, gwella gallu cyfreithiol a datrys problemau'n gynt.
- I fesur cynnydd yn erbyn y canlyniadau hyn, mae pawb sydd wedi cael y grant wedi bod yn casglu amrywiaeth o ddata meintiol ac ansoddol, ac maent yn adrodd yn chwarterol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder.

Gweithiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder ar y cyd i ddatblygu dull strwythuredig o werthuso'r LSLIP. Cyn lansio'r grant, ymgynghorodd y ddau sefydliad â rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu model rhesymeg trosfwaol ar gyfer LSLIP (i'w weld yn Atodiad A), sy'n nodi'r amcanion cyffredinol, y canlyniadau a'r effeithiau y disgwylir i weithgareddau'r grant eu cyflawni.

Mae'r canlyniadau LSLIP allweddol o ddiddordeb yn ymwneud â chynyddu mynediad at gyngor, gallu cyfreithiol, datrys problemau, bodlonrwydd â gwasanaethau a chanlyniadau, a'r effaith ar y system cyfiawnder ffurfiol ac anffurfiol. Nodwyd y canlyniadau hyn fel gwahaniaethau allweddol yr oedd LSLIP yn gobeithio eu cyflawni ar gyfer cleientiaid yn y tymor byr a'r tymor canolig, er mwyn gwella eu gallu i ddatrys eu problemau yn gynt. Mae rhagor o wybodaeth am y canlyniadau a'r dangosyddion hyn ar gael yn Nhabl 4.

Tabl 4: Canlyniadau craidd wedi'u mesur gan dderbynwyr y grant LSLIP

Allbwn/Canlyniad	Dangosydd
Cleientiaid a materion a gynghorir fesul maes o'r gyfraith, fesul cam o'r cyngor.	Nifer y cleientiaid a'r materion a gynghorwyd ym mhob un o'r deg maes cyfraith sifil a theulu (fel yr amlinellir yn Nhabl 2), wedi'u dadansoddi yn ôl y cam cynghori (fel yr amlinellir yn Nhabl 3). Diffinnir cleient fel unigolyn ac mae problem yn cael ei diffinio fel problem mewn un maes o'r gyfraith, fel problem gydag apêl budd-daliadau lles.
Nodweddion gwarchoddedig y	Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol cleientiaid sydd â phroblemau mewn

Allbwn/Canlyniad	Dangosydd
cleient, fesul maes o'r gyfraith.	gwahanol feysydd o'r gyfraith, gan gynnwys y rheini y mae'n well ganddynt beidio â'u dweud.
Cynyddu mynediad at gyngor.	<ul style="list-style-type: none"> • % y cleientiaid yn gallu dod o hyd i'r cymorth priodol yn lleol neu'n genedlaethol, drwy gyngor gan y bartneriaeth, atgyfeiriadau neu gyfeirio.
Gwella gallu cyfreithiol cleientiaid.	<ul style="list-style-type: none"> • % y cleientiaid sy'n deall eu problem bresennol ac sy'n ymwybodol y gallai fod ganddynt rwymedi cyfreithiol. • % y cleientiaid sydd â dealltwriaeth o ganlyniadau cyfreithiol posibl eu problem. • % y cleientiaid sy'n ymwybodol o unrhyw gamau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd ar gyfer cam nesaf eu taith datrys problemau. Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith paratoi sydd ei angen cyn y llys. • % y cleientiaid sy'n dweud eu bod yn fwy hyderus a'u bod yn gallu delio â'u problemau.
Sicrhau bod problemau'n cael eu datrys.	<ul style="list-style-type: none"> • % yr ymgyfreithwyr drostynt eu hunain sy'n datrys eu problemau'n gynt, gan osgoi mynd i'r llys.
Gwell profiadau yn y llys/tribiwnlys.	<ul style="list-style-type: none"> • % y cleientiaid sy'n dweud eu bod yn deall prosesau'r llys yn well a beth i'w ddisgwyl wrth gynrychioli eu hunain yn y llys.
Bodlonrwydd cleientiaid â'r cyngor a chanlyniad eu problem.	<ul style="list-style-type: none"> • % y cleientiaid sy'n gwneud hunanasesiad cadarnhaol o ansawdd y gwasanaethau a chanlyniad eu hachos.

Mae casglu a choladu data o bob rhan o'r sector cynghori yn her gyffredin sy'n cael ei chydabod yn dda, gan fod gan sefydliadau wahanol ddulliau o gasglu data, yn seiliedig ar allu, capasiti, systemau rheoli achosion, gofynion cyllido a diwylliant sefydliadol o gasglu data. Cafodd rheolwr data a dysgu ei recriwtio i dîm rheoli grantiau'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder i gefnogi'r rhai sy'n derbyn grant gyda'r gwaith o gasglu ac adrodd am ddata a sicrhau cysondeb data ar draws prosiectau'r LSLIP.

Nid yw canlyniadau o ddiddordeb LSLIP yn cael eu mesur fel mater o drefn gan y sector cynghori ac felly roedd angen gwneud addasiadau i'r prosesau casglu data presennol. Er mwyn sicrhau bod y cynigion yn ymarferol ac y gellid eu hymgorffori wrth ddarparu gwasanaethau, trafodwyd y gofynion gyda rhai sefydliadau cynghori cyn eu gweithredu a'u mireinio ymhellach. Y cynnig gwreiddiol oedd mesur y dangosyddion hyn gan ddefnyddio arolygon cleientiaid ar ddiwedd eu hachosion, ond dywedodd rhai sefydliadau y gall y cyfraddau ymateb fod yn isel iawn (tua 15%) ac felly roedd risg uchel mai dim ond ychydig o ganlyniadau fyddai ar gael, ac na fyddai hynny'n gynrychioladol. Ar gyfer y derbynwyr

grant hynny nad oeddent yn defnyddio'r dull hwn, cynigiwyd dangosyddion sy'n seiliedig ar ganfyddiad, a oedd yn mynnu bod cynghorwyr yn arsylwi ac yn asesu'r canlyniadau hyn i gleientiaid mewn sesiynau cynghori, gan ddefnyddio eu barn broffesiynol a'u profiad. Gall y dangosyddion canfyddiad hyn ddioddef o wendidau methodolegol sy'n gysylltiedig â'u dilysrwydd a'u dehongli, felly mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder wedi rhoi arweiniad ysgrifenedig a llafar clir i dderbynwyr grant ac wedi cynnal gweithdai monitro ac adrodd a sesiynau datrys problemau, i gefnogi'r rhai sy'n derbyn grant ac i geisio cysondeb. Fodd bynnag, mae'n dal yn bosibl bod sefydliadau ym mhob partneriaeth wedi dehongli a gweithredu'r broses casglu data ychydig yn wahanol, gan fod rhai derbynwyr grant yn defnyddio arolygon, rhai yn defnyddio dangosyddion canfod-cynghorwyr, ac eraill yn defnyddio cymysgedd o'r ddau wedi'u teilwra i wahanol gamau'r cyngor. Gallai hyn gael rhywfaint o effaith ar wahaniaethau mewn canlyniadau. Bydd y dull hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.

Nid oedd yn gymesur nac yn ymarferol ymgymryd â dull arbrofol neu led-arbrofol na chasglu data ar grŵp cymharu er mwyn sefydlu achos, oherwydd y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â'r methodolegau hyn. Mae'r rhaglen LSLIP yn ariannu nifer o wahanol wasanaethau, sy'n cael eu darparu gan dros 50 o sefydliadau, felly byddai hyn wedi golygu adnoddau ac amser anghymesur gan y darparwyr rheng flaen, yn enwedig yn ystod Covid-19, lle'r oedd blaenoriaethu darpariaeth yn arbennig o bwysig. Felly, mae angen rhagor o dystiolaeth er mwyn priodoli'r canlyniadau hyn yn hyderus i'r cyngor a chyffredinoli'r canfyddiadau hyn.

Adrodd

Roedd pawb oedd yn cael grant LSLIP wedi ymrwymo i ddata a gwerthuso fel elfen allweddol o'u gweithgareddau grant ac wedi datblygu cynlluniau gwerthuso unigol ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, sy'n nodi'r canlyniadau y byddent yn eu mesur, y gofynion casglu data a'r dulliau adrodd ar gyfer eu prosiect.

Yn unol â'r cynlluniau gwerthuso hyn, mae pawb sydd wedi cael grant wedi bod yn casglu amrywiaeth o ddata meintiol ac ansoddol, a ddefnyddiwyd i archwilio pwy mae'r derbynwyr grant wedi'i gyrraedd, y math o gyngor a ddarparwyd a'r effaith y mae'r cyngor wedi'i chael ar ganlyniadau'r diddordeb. Adroddwyd ar hyn i'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn tair ffordd:

1. **Adroddiadau chwarterol ar niferoedd cleientiaid, nodweddion gwarchoddedig a dangosyddion ar gyfer y canlyniadau.** Bob chwarter, cyflwynodd pawb a gafodd grant ddau dempled Excel safonol, yn cynnwys nifer y cleientiaid a gafodd gymorth gyda phroblemau cyfreithiol ym mhob un o'r deg maes cyfraith sifil a theulu, nifer y sesiynau cynghori ym mhob un o'r pedwar cam cynghori, nodweddion gwarchoddedig y cleientiaid hyn, a'r canlyniadau ar gyfer cyngor ym mhob cam o'r gyfraith.
2. **Adroddiad naratif chwarterol.** Mae derbynwyr y grant hefyd yn darparu diweddariad ysgrifenedig chwarterol ar eu darpariaeth gwasanaeth, gan roi sylwadau ar unrhyw dueddiadau a welwyd a darparu astudiaethau achos cleientiaid.
3. **Cyfweliadau lled-strwythuredig.** Roedd derbynwyr y grant yn cymryd rhan mewn cyfweliadau lled-strwythuredig i bwysu a mesur eu profiad o flwyddyn gyntaf LSLIP. Roedd y cyfweliadau hyn yn ymdrin â nifer o bynciau, gan gynnwys sefydlu a chyflawni'r prosiect hyd yn hyn, gweithio mewn partneriaeth, rhyngweithio â chleientiaid a rheoli rhaglenni.

4.2 Yr adroddiad interim hwn

Y Prif Bwyntiau

- Mae'r adroddiad canol grant yn ystyried y data a'r dystiolaeth a gasglwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant (rhwng mis Hydref 2020 a mis Mehefin 2021) a derbynwyr cenedlaethol y grant (rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mehefin 2021).
- Nid yw'r adroddiad o reidrwydd yn ddangosydd cywir o berfformiad ar hyn o bryd, ond yn hytrach yn adroddiad cynnydd dangosol.

Mae'r adroddiad canol grant hwn yn dwyn ynghyd y data a'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, er mwyn adrodd ar gynnydd tuag at dri amcan y grant. Nid yw'r adroddiad hwn o reidrwydd yn ddangosydd cywir o berfformiad ar hyn o bryd, ond yn hytrach yn adroddiad cynnydd dangosol i adolygu'r data a gasglwyd hyd yma a nodi unrhyw faterion allweddol.

Drwy gydol yr adroddiad, mae data derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant wedi'i ddadansoddi gyda'i gilydd, tra mae derbynwyr cenedlaethol y grant yn cael eu dadansoddi'n unigol. Mae'r derbynwyr grantiau lleol a rhanbarthol yn cofnodi set gyson o ddata y gellir eu cyfuno'n haws ac yn briodol, gan fod rhywfaint o debygrwydd rhwng eu gwasanaethau o ran dulliau darparu a nifer y cleientiaid y maent yn eu cefnogi. Ceir llawer mwy o amrywiaeth o ran derbynwyr cenedlaethol y grant, sy'n darparu gwasanaethau ar

lefel genedlaethol gan ddefnyddio ystod o ddulliau, gyda rhai derbynwyr y grant yn helpu cant o bobl ac eraill yn cyrraedd bron i filiwn. Mae hyn yn golygu nad yw bob amser yn bosibl nac yn ddoeth cyfuno eu data. Nid yw'r dull hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod unrhyw ffrwd gyllido neu dderbynydd grant yn cael ei werthfawrogi'n fwy nag un arall, mae'n ceisio cael ymdeimlad o gynnydd hyd yma ar lefel rhaglen, gan gydbwysu'r manylion â bod yn gryno.

Er bod rhai pethau'n debyg rhwng y gwasanaethau lleol a rhanbarthol, nid ydynt i gyd yn darparu cyngor yn yr un ffordd yn union, ac felly gall eu dadansoddi fel casgliad guddio lle mae rhai modelau darparu'n sicrhau canlyniadau gwahanol. Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn edrych yn fanylach ar y gwahanol fodolau darparu LSLIP, y canlyniadau y maent yn eu cyflawni ac a oes modd eu hailadrodd neu eu hehangu.

Ni chafodd y grantiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gyd eu lansio ar yr un pryd ac felly mae'r data yn yr adroddiad hwn yn cyfateb i amserlenni ychydig yn wahanol. Mae'r data sy'n ymwneud â'r tri grant cenedlaethol yn cyfateb i weithgareddau rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mehefin 2021, wrth i'r tri grant LSLIP hwn gael eu lansio yn gyntaf. Cafodd y grantiau lleol a rhanbarthol eu lansio ychydig fisoedd yn ddiweddarach, felly mae'r data sy'n ymwneud â'u gweithgareddau yn cyfateb i weithgareddau mewn cyfnod ychydig yn fyrrach (rhwng mis Hydref 2020 a mis Mehefin 2021).

Ar gyfer pawb sy'n derbyn y grant, mae'r amserlenni hyn yn cynnwys y cyfnod sefydlu cychwynnol ar gyfer eu prosiectau ac felly byddant yn adlewyrchu camau gweithredu cynnar, gan gynnwys sefydlu gwasanaethau yn y lle cyntaf, recriwtio cynghorwyr, hyrwyddo gwasanaethau ac ymgyswngwyo â'r gwaith o gasglu data ac adrodd. Mae hyn yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigurau yn yr adroddiad hwn, oherwydd efallai nad ydynt yn adlewyrchu gwasanaethau sydd â chapasiti llawn ac efallai y bydd problemau'n gysylltiedig ag anghysondebau cyfrif cynnar a chyflwyno gwasanaethau a chasglu data. Bydd y ffactorau hyn yn cael eu harchwilio'n fanylach drwy gydol yr adroddiad ac mae'n golygu y gall unrhyw dueddiadau yn y data newid am weddill y cyfnod cyllido, wrth i wasanaethau gyrraedd eu hanterth.

Confensiwn talgrynnu

Mae'r confensiwn talgrynnu yn Nhabl 5 wedi cael ei ddefnyddio drwy gydol yr adroddiad hwn i sicrhau anhysbysrwydd ac i gydbwysu cywirdeb â darllenadwyedd. Mae'r canrannau'n gywir ac yn berthnasol i'r ffigurau heb eu talgrynnu.

Tabl 5: Confensiwn talgrynnu LSLIP

Ffigurau rhwng	Talgrynnu i'r rhif agosaf
0 - 1,000	10
1,000 - 10,000	100
10,000 – 100,000	1,000
100,000 +	10,000

5. Y cyngor a ddarparwyd gan y rhaglen LSLIP

5.1 Nifer y cleientiaid a'r problemau a gynghorwyd gan wasanaethau LSLIP

Y Prif Bwyntiau

- Rhwng mis Hydref 2020 a mis Mehefin 2021, rhoddodd derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant gyngor i 7,700 o gleientiaid ar 8,300 o faterion cyfreithiol.
- Rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mehefin 2021, darparodd derbynwyr cenedlaethol y grant - LawWorks, Support Through Court ac RCJ Advice gyngor a chymorth o bell i 2,800 o gleientiaid. Roedd LSLIP hefyd yn cefnogi darparu Llinell Gymorth Genedlaethol Support Through Court, a oedd yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad i tua 4,000 o gleientiaid; a gefnogwyd gan Advicenow, a oedd yn cynnwys dros 750,000 o ymwelwyr; ac a oedd yn cefnogi Affordable Advice, a oedd yn helpu 250 o unigolion i gael mynediad at apwyntiadau gyda chyfreithwyr.

Mae'r adran hon yn edrych ar nifer y cleientiaid a'r problemau y mae derbynwyr y grant wedi'u darparu gyda chymorth fel rhan o'u gwasanaethau LSLIP. Diffinnir cleient fel unigolyn ac mae problem yn cael ei diffinio fel problem mewn un maes o'r gyfraith, fel problem gydag apêl budd-daliadau lles. Mae Derbynydd y Grant wedi gwneud ymdrechion sylweddol i gasglu ac adrodd ar y data hwn mewn modd cyson o fewn eu systemau rheoli achosion a'u prosesau casglu data gwahanol, ond efallai y bydd achosion o hyd lle mae'r broses gategoreiddio a chofnodi hon yn amrywio ychydig rhwng sefydliadau. Er enghraifft, nid yw partneriaeth Gogledd Ddwyrain Lloegr (y bartneriaeth LSLIP fwyaf) ar hyn o bryd yn casglu data ar gleientiaid Cyfnod 1 a allai gam-ystumio'r data.

Rhwng mis Hydref 2020 a mis Mehefin 2021, rhoddodd derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant LSLIP gyngor i 7,700 o gleientiaid⁵ gyda 8,300 o faterion cyfreithiol⁶.

⁵ Efallai y bydd rhai cleientiaid hefyd wedi bod yn unigolion sy'n dychwelyd i'r sefydliad am gefnogaeth barhaus neu'n ceisio cyngor ar broblem newydd.

⁶ Mae hyn yn adlewyrchu'r cyngor sy'n cael ei ariannu gan LSLIP yn unig. Efallai fod y cleientiaid hyn wedi cael cyngor ar faterion eraill fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth ehangach y sefydliad, na fydd yn cael ei

Yn ystod y chwarter cyntaf, roedd derbynwyr y grant yn canolbwyntio ar sefydlu eu prosiectau, recriwtio cynghorwyr a sefydlu prosesau casglu data, a oedd yn golygu nad oedd y rhan fwyaf o wasanaethau wedi dechrau darparu cyngor tan fis Tachwedd/Rhagfyr 2020.

Soniodd nifer o dderbynwyr y grant am sut mae recriwtio cynghorwyr cyfreithiol arbenigol ar gyfer LSLIP wedi bod yn heriol, gan eu bod yn cystadlu â'r sector preifat sy'n gallu cynnig cyflogau mwy cystadleuol a chontractau tymor hwy, sy'n rhoi mwy o sefydlogrwydd a sicrwydd. Mae hwn yn fater cyffredin i sefydliadau cynghori sy'n derbyn cyllid tymor byr. Gwelodd ymchwil ddiweddar gan Advice Services Alliance fod diffyg cyllid tymor hwy, diffyg cynghorwyr cyfreithiol arbenigol a diffyg llwybr gyrfa strwythuredig i gyd yn golygu bod denu talent newydd i'r sector a chreu gweithlu cynaliadwy yn anodd iawn i sefydliadau cynghori⁷. Er mwyn goresgyn yr heriau hyn, roedd llawer o dderbynwyr y grant LSLIP yn edrych yn fewnol ac yn datblygu sgiliau aelodau staff iau ar gyfer eu prosiectau. Mae hyn yn gofyn am fwy o adnoddau mewnol i oruchwylio'r aelodau staff llai profiadol hyn, ond yn golygu 'meithrin' sgiliau yn eu sefydliadau.

Roedd y chwarter cyntaf hefyd yn cyd-daro â chyfnod gwyliau'r Nadolig, y cyfyngiadau symud ym mis Tachwedd a'r gaeaf ac amrywiaeth o newidiadau polisi a chyfraith eraill mewn ymateb i'r pandemig, a gafodd effaith ar y broses o ddarparu gwasanaethau. Yn gyffredinol, roedd y cyfnodau clo hyn yn gyfnod lle'r oedd yn rhaid i sefydliadau rheng flaen fod yn ystwyth ac addasu eu gwasanaethau'n gyson mewn ymateb i gyfyngiadau'r pandemig.


“Roeddem yn bwriadu cynnal cyfres o weithdai i wella sgiliau lleol a rhanbarthol o ran ble i gyfeirio cleientiaid a gwasanaethau. Nid oeddem yn gallu cynnal y gweithdai hyn yn ddwys oherwydd cyfyngiadau Covid ond rydym wedi gallu darparu'r rhain yn ehangach drwy ddulliau rhithwir ac ar-lein ac mae'r model hwn wedi bod yn gweithio'n dda.” (Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhirfryn)

gynnwys yn y data hwn. Felly, ni ddylid dehongli'r ffigurau hyn fel rhai sy'n awgrymu bod pob cleient yn profi 1.1 o broblemau ar gyfartaledd.

⁷ Ewch i: <https://asauk.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Building-the-younger-generation-of-advisers.pdf>

Cynyddodd nifer y cleientiaid yn yr ail a'r trydydd chwarter, wrth i wasanaethau ddechrau ymsefydlu a chyrraedd capasiti llawn. Mae'r cynnydd hwn i'w weld yn Ffigur 2.

Ffigur 2: Cleientiaid a materion a gynghorwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant, fesul chwarter cyflawni



Roedd rhai derbynwyr y grant yn priodoli'n benodol y cynnydd mewn cleientiaid i hyfforddiant a gwella sgiliau eu staff a'u gwirfoddolwyr yn llwyddiannus, sydd wedi galluogi eu sefydliad i flaenoriaethu cleientiaid yn fwy effeithiol a darparu cyngor mwy manwl yn gynharach.

“Yn ddi-os rydym wedi cynyddu capasiti a gwybodaeth arbenigol ar draws y sefydliadau ac mae'r holl weithwyr achos yn prysur ddod yn aelodau o'r tîm wedi'u hintegreiddio'n dda, gan wneud gwaith y teimlwn y gallai fod angen iddo fod yn fwy hirdymor na'r prosiect hwn...Rydym wedi cael llawer mwy o gleientiaid dros y chwarter olaf hwn.” (Dorset a De Gwlad yr Haf)

Nododd rhai derbynwyr y grant eu bod wedi disgwyl mwy o gleientiaid, ond mae cyfyngiadau pandemig a pholisïau brys wedi'u rhoi ar waith (fel y cynllun Cadw Swyddi

drwy gyfnod y Coronafeirws neu'r 'ffyrlo'⁸, yr ataliad dros dro ar droi pobl allan⁹ a'r codiad o £20 i'r Credyd Cynhwysol¹⁰) yn ymddangos fel pe baent wedi gohirio'r cynnydd mewn materion cyfreithiol a'r galw am gyngor. Fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau'n cael eu llacio a'r polisiau hyn ddod i ben, mae'r galw am wasanaethau cynghori ar gynydd, gyda mwy a mwy o gleientiaid yn cyflwyno problemau cymhleth neu fwy nag un mater. Mae derbynwyr y grant yn rhagweld y bydd y galw hwn yn parhau i gynyddu dros y misoedd nesaf, yn enwedig wrth i apwyntiadau wyneb yn wyneb aildechrau.

“[Rydyn ni wedi cael] nifer is na'r disgwyl oherwydd Covid, ar ôl i'r ffyrlo ddod i ben ac ar ôl i'r Adran Gwaith a Phensiynau ailgyflwyno eu ffyrdd [normal] o weithio, disgwylir y bydd mwy o alw.” (Gogledd Ddwyrain Lloegr)

Rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mehefin 2021, mae LawWorks, Support Through Court a RCJ Advice wedi darparu cyngor a chefnogaeth o bell i 2,800 o gleientiaid.

Mae Free Legal Answers wedi rhoi cyngor cyfreithiol i 120 o gleientiaid gan gyfreithwyr pro bono sy'n cymryd rhan. Roedd LawWorks yn disgwyl y byddai mwy o bobl yn manteisio ar y gwasanaeth ac maent wedi bod yn cymryd camau gweithredol i gynyddu nifer y partneriaid atgyfeirio a defnydd y gwasanaeth, gan gynnwys arddangosiadau i bartneriaid LSLIP i egluro sut mae'r llwyfan yn gweithio ac yn eu cynnwys fel asiantaethau atgyfeirio. Byddwn yn edrych yn fanylach ar gyfeiriadau rhwng partneriaid LSLIP yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Mae gwasanaethau Support Through Court LSLIP wedi darparu cymorth ymarferol, trefniadol ac emosiynol ar faterion teuluol, yn enwedig ysgariad a threfniadau plant, i 2,700 o gleientiaid. Cafodd bron i hanner y cleientiaid hyn (1,300) eu cyfeirio at wasanaethau eraill hefyd, gan gynnwys CourtNav a FLOWS, a chafodd 10% (290) gyngor cyfreithiol teulu arbenigol gan gyfreithiwr RCJ Advice. I gefnogi'r gweithgareddau hyn, mae cyllid

⁸ Sefydlwyd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (neu 'ffyrlo') ym mis Mawrth 2020 i helpu cyflogwyr i dalu cyflogau eu gweithwyr yn ystod y pandemig. Cafodd y cynllun ei gyflwyno ym mis Ebrill 2020 a daeth i ben ym mis Medi 2021.


⁹ Cafodd mesurau meddiannu tai dros dro eu gosod yn ystod Covid-19. Roedd y rhain yn cynnwys: ataliad ar achosion meddiannu rhwng 27 Mawrth a 20 Medi 2020; ataliad ar achosion o droi allan rhwng 17 Tachwedd 2020 a 31 Mai 2021; a chyfnodau rhybudd estynedig rhwng 26 Mawrth 2020 a 30 Medi 2021.

¹⁰ Cafodd taliadau Credyd Cynhwysol eu cynyddu dros dro £20 yr wythnos ym mis Mawrth 2020 tan fis Hydref 2021.

LSLIP wedi helpu i hyfforddi 130 o wirfoddolwyr Support Through Court i gefnogi cleientiaid gyda cheisiadau llys teulu a gwneud atgyfeiriadau effeithiol.

Roedd y pandemig wedi effeithio'n drwm ar Support Through Court a'r ffaith y bu'n rhaid cau llysoedd dros dro, a oedd yn golygu bod ffocws y prosiect yn cael ei wyro oddi wrth y podiau 'Gofod Diogel' ffisegol yn y llysoedd, tuag at ehangu cymorth o bell i gleientiaid. Wrth i'r cyfyngiadau lacio dros y chwarter diweddaraf, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cleientiaid a gefnogwyd gan Support Through Court yn Llys Teulu Nottingham, Caerdydd, Lerpwl a'r Llysoedd Teulu Canolog. Mae hyn i'w weld yn Ffigur 3.

Ffigur 3: Cleientiaid a gynghorwyd gan Support Through Court, RCJ Advice a LawWorks, fesul chwarter cyflawni



Mae cyllid LSLIP hefyd wedi cefnogi'r gwaith o gyflwyno Llinell Gymorth Genedlaethol Support Through Court a gwefan Advicenow Law for Life a'r gwasanaeth Affordable Advice.

Nid yw'n bosibl priodoli'n ddibynadwy faint o ddefnyddwyr a gyrhaeddwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r grant LSLIP gan eu bod yn cael eu hariannu gan sawl ffynhonnell. Fodd bynnag, rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mehefin 2021, mae Llinell Gymorth

Genedlaethol Support Through Court wedi rhoi gwybodaeth ac arweiniad i tua 4,000 o gleientiaid. Yn yr un cyfnod, mae Advicenow Law for Life wedi denu dros 750,000 o ymwelwyr ac mae'r gwasanaeth Affordable Advice wedi galluogi 250 o unigolion i gael apwyntiadau gyda chyfreithwyr, drwy ddarparu pwyntiau mynediad clir am wasanaeth ffioedd sefydlog is na'r cyfartaledd drwy gydol eu canllawiau ar-lein. Mae'r ffynonellau cymorth hyn wedi hen ennill eu plwyf, felly mae nifer y defnyddwyr wedi aros yn weddol sefydlog drwy gydol cyfnod y grant LSLIP hyd yma.

Mae'r ffynonellau cymorth hyn wedi hen ennill eu plwyf, felly mae nifer y defnyddwyr wedi aros yn weddol sefydlog drwy gydol cyfnod y grant LSLIP hyd yma. Fodd bynnag, mae'r un ffactorau allanol â'r gwasanaethau LSLIP lleol a rhanbarthol wedi dylanwadu arnynt hefyd.

5.2 Mathau o broblemau a gynghorir gan wasanaethau LSLIP

Y Prif Bwyntiau

- Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor a ddarparwyd gan y derbynwyr grantiau lleol a rhanbarthol wedi bod ar faterion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles (88%). Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor wedi bod yn gyngor cyffredinol cychwynnol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r gefnogaeth a ddarperir gan dderbynwyr cenedlaethol y grantiau wedi bod ar faterion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth a thai, ac eithrio Free Legal Answers, sydd wedi cael cyfran uchel o gleientiaid â materion sy'n ymwneud â defnyddwyr.

Mae'r adran hon yn edrych ar y mathau o gyngor a ddarperir gan wasanaethau LSLIP, gan gynnwys y meysydd cyfraith a'r math o gyngor a ddarperir. Mae derbynwyr y grant wedi nodi nifer y problemau y rhoddwyd gwybod amdanynt ym mhob un o'r 10 maes cyfraith sifil a theulu, fel y cânt eu diffinio yn Nhabl 2, a nifer y sesiynau cynghori ym mhob un o'r pedwar cam cynghori, fel y cânt eu diffinio yn Nhabl 3.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor a ddarparwyd gan y derbynwyr grantiau lleol a rhanbarthol (88%) wedi bod ar faterion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles.

Roedd y grant LSLIP yn caniatáu i fudiadau wneud cais am gyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori a fyddai'n gwella'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau ar hyn o bryd ac yn

diwallu anghenion eu hardaloedd lleol. Roedd y rhan fwyaf o dderbynwyr y grant wedi gofyn am gyllid i ddarparu cyngor ar faterion sy'n ymwneud â theulu a chyflogaeth (fel y nodir yn adran gyntaf yr adroddiad hwn), gan fod y rhain wedi cael eu nodi fel meysydd lle'r oedd gan wasanaethau fwch yn eu gwasanaethau a/neu feysydd lle'r oedd disgwyl y byddai cynnydd yn y galw am gyngor o ganlyniad i bandemig Covid-19. O ganlyniad, mae dros hanner yr holl gyngor a ddarperir gan y derbynwyr grantiau lleol a rhanbarthol wedi bod ar faterion sy'n ymwneud â theulu a chyflogaeth. Cafwyd llawer iawn o gyngor ar fudd-daliadau tai a lles hefyd gan dderbynwyr y grant LSLIP, sy'n cynnwys 33% o'r holl gyngor ar y cam hwn o'r grant.

Mae hyn wedi'i ddadansoddi'n fanylach yn Nhabl 6 a Thabl 7, sy'n dangos faint o gyngor a ddarperir ar draws meysydd y gyfraith. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw hyn yn adlewyrchu'r angen cyfreithiol na'r galw am gyngor yn ehangach.

Tabl 6: Nifer y materion a gynghorwyd gan dderbynwyr grant lleol a rhanbarthol ar draws gwahanol feysydd o'r gyfraith, fesul chwarter cyflawni


	Aelodau'r teulu	Cyflogaeth	Tai	Budd-daliadau Lles	Dyled	Gwahaniaethu	Trais Domestig	Mewnfudo	Gofal yn y Gymuned	Cyfraith Gyhoeddus	Arall
Cyfanswm	2,100	2,400	1,600	1,200	180	210	30	40	130	50	350
C1	170	210	50	110	<10	10	<10	<10	<10	<10	<10
C2	460	630	160	350	70	70	<10	<10	40	<10	10
C3	1,500	1,600	1,400	720	100	130	20	30	80	40	340

Tabl 7: Canran y materion y rhoddwyd cyngor arnynt gan dderbynwyr y grant yn lleol ac yn rhanbarthol ar draws gwahanol feysydd o'r gyfraith, fesul chwarter cyflawni

	Aelodau'r teulu	Cyflogaeth	Tai	Budd-daliadau Lles	Dyled	Gwahaniaethu	Trais Domestig	Mewnfudo	Gofal yn y Gymuned	Cyfraith Gyhoeddus	Arall
Cyfanswm	25%	29%	19%	14%	2%	3%	0%	0%	1%	1%	4%
C1	29%	36%	8%	19%	1%	2%	0%	0%	2%	1%	1%
C2	25%	35%	9%	19%	4%	4%	1%	0%	2%	0%	1%
C3	25%	27%	24%	12%	2%	2%	0%	0%	1%	1%	6%

Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y cyngor teulu, cyflogaeth a thai a ddarparwyd yn Ch3 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, fel y gwelir yn Ffigur 4.


Ffigur 4: Nifer y materion a gynghorwyd gan dderbynwyr grant lleol a rhanbarthol ar draws gwahanol feysydd o'r gyfraith, fesul chwarter cyflawni



Y cynnydd mwyaf oedd cyngor ar dai, a gynyddodd dros 8.5 gwaith o'i gymharu â Ch2.

Mae hyn yn newid y cymysgedd cyffredinol o gyngor, i'w rannu'n fwy cyfartal rhwng teulu, cyflogaeth, tai, a meysydd eraill o'r gyfraith (gan gynnwys budd-daliadau lles) fel y dangosir yn Ffigur 5.

Ffigur 5: Y gymysgedd gyffredinol o gyngor a ddarperir gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant, cyfanswm a fesul chwarter cyflawni



Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor a ddarparwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant LSLIP wedi bod yn gyngor cyffredinol cychwynnol, sy'n cynnwys 68% o gyngor, ond mae rhywfaint o amrywiaeth rhwng y chwarteri cyflawni a gwahanol feysydd o'r gyfraith.

Yn ogystal â hyblygrwydd ym meysydd y gyfraith, roedd y grant LSLIP yn caniatáu i fudiadau wneud cais am gyllid ar gyfer y math o gyngor yr oedd eu hardaloedd lleol ei angen. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, er mwyn cofnodi'r gwahanol fathau o gyngor mewn ffordd gyson, adroddodd derbynwyr y grant ar sesiynau cynghori mewn pedwar cam. Roedd nifer o dderbynwyr y grant yn rhagweld y byddent yn darparu'r niferoedd uchaf yn y camau cychwynnol, lle mae'n bosibl darparu cyngor i fwy o bobl gan nad yw'n golygu parhau i weithio dros gyfnod estynedig o amser, ond roeddent yn gofyn am gyllid i ddarparu cyngor ar bob cam.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor a ddarparwyd gan y derbynwyr grantiau lleol a rhanbarthol wedi bod yn y cam cynghori cyffredinol cyntaf (cam 1), er bod nifer sylweddol o sesiynau


cynghori yn y gwaith achos (cam 2) a chyngor cyn y llys (cam 3a), fel y dangosir yn Nhabl 8.

Tabl 8: Y gefnogaeth a ddarperir gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant ar bob cam

Cam	Y gefnogaeth a ddarperir	Cyfanswm nifer y materion a gynghorwyd	Cyfran yr holl faterion
Cam 1	Cyngor cyffredinol cychwynnol a brysbennu	5,700	68%
Cam 2	Gwaith achos	1,600	19%
Cam 3a	Cyngor, arweiniad a chefnogaeth cyn y llys	1,100	13%
Cam 3b	Cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol yn y llys	60	<1%

Mae'r cynnydd mawr yn nifer y materion y rhoddwyd cyngor yn eu cylch yn ystod y chwarter diweddaraf yn rhannol oherwydd cynnydd sylweddol mewn cyngor yng ngham un, fel y dangosir yn Ffigur 6.

Ffigur 6: Nifer y materion a gynghorir ar bob cam gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant, fesul chwarter cyflawni




Mae nifer o dderbynwyr y grant wedi dweud eu bod wedi gallu cael mwy o gyngor yng ngham un gan fod eu gweithwyr achos arbenigol a ariennir gan LSLIP wedi darparu hyfforddiant i wirfoddolwyr a staff, gan gynyddu nifer, ansawdd ac effeithiolrwydd y cyngor cychwynol a'r gweithgarwch brysbennu.

“[Mae'r grant wedi] cyflwyno mesurau newydd gan gynnwys uwchsgilio gwirfoddolwyr ac felly mae gennym bellach garfan o wirfoddolwyr sydd ar gael y gall Canolfan y Gyfraith ei gwasanaethu drwy'r swyddogaeth llywio cymunedol....roedd hyfforddi gwirfoddolwyr wedi galluogi'r gwasanaeth i frysennu'n fwy effeithiol, ond hefyd i edrych ar y ffynonellau cymorth sydd ar gael.” (Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhifryn)

Mae'r cynnydd hwn yn y cyngor cyffredinol cychwynol yn newid y cymysgedd cyffredinol o gyngor, o'i gymharu â'r cyngor a ddarparwyd yn y ddau chwarter cyntaf, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 7.

Ffigur 7: Y gymysgedd gyffredinol o gyngor a ddarperir gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant, cyfanswm a fesul chwarter cyflawni




Mae rhywfaint o amrywiaeth hefyd yn y mathau o gyngor a ddarperir rhwng meysydd y gyfraith, gyda mwy o gyngor cynnar cychwynol yn cael ei ddarparu ar rai materion nag eraill. Mae Tabl 9 yn rhoi dadansoddiad o faint o gyngor sydd ar gael ar bob cam, fesul maes o'r gyfraith, ond mae'r amrywiad yn cael ei ddangos yn weledol yn Ffigur 8.

Tabl 9: Nifer derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant a roddwyd ym mhob cam, yn ôl y gyfraith

	Aelodau'r teulu	Cyflogaeth	Tai	Budd-daliadau Lles	Dyled	Gwahaniaethu	Trais Domestig	Mewnfudo	Gofal yn y Gymuned	Cyfraith Gyhoeddus	Arall
Cam 1	1,200	1,800	1,500	450	140	150	20	30	90	40	270
Cam 2	180	560	130	490	30	50	10	<10	30	20	80
Cam 3a	700	80	40	210	10	<10	<10	-	<10	<10	<10
Cam 3b	<10	10	10	30	-	-	-	-	-	-	-

Ffigur 8: Cyfran y materion a gynghorwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant ar bob cam, yn ôl y gyfraith



Mae'r amrywiad hwn yn adlewyrchu'n rhannol natur wahanol y problemau, y bobl sy'n eu profi, y camau sydd angen eu cymryd i'w datrys. Er enghraifft, mae materion Budd-daliadau Lles hefyd wedi cael llawer mwy o waith achos (41%), cyngor cyn y llys (18%) a chynrychiolaeth yn y llys/tribiwnlys (3%) na materion mewn meysydd eraill o'r gyfraith. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod llawer o gleientiaid heb lwyddo i wneud hawliad

cychwynnol yn erbyn y penderfyniad budd-daliadau lles eu hunain cyn cyflwyno i'r sefydliad cynghori, ac yn awr mae angen cymorth arnynt gyda'r broses apelio. Mae'r broses apelio'n cynnwys gwaith achos a chymorth gyda gwrandawriad Tribiwnlys, ac felly mae angen cymorth mwy dwys yn ddiweddarach.

Mae cyfran llawer uwch o faterion teulu wedi cael cyngor ac arweiniad cyn y llys (33% wedi cael cyngor yng ngham 3a) na materion mewn meysydd eraill y gyfraith (tua 6% wedi cael cyngor yng ngham 3a), gydag un o'r elfennau dylanwadol allweddol yn nodi'r angen i ddatrys cyfran uchel o achosion cyfraith teulu yn y llys oherwydd natur hynod gymhleth problemau teuluol sy'n arwain unigolion i geisio penderfyniad annibynnol yn y llys.

Mae'r rhan fwyaf o'r gefnogaeth a ddarperir gan y derbynwyr cenedlaethol y grant LSLIP hefyd wedi bod mewn meysydd cyfraith teulu, cyflogaeth a thai, ac eithrio adnodd LawWorks Free Legal Answers, sydd wedi cael cyfran uchel o'r galw gan gleientiaid sydd â phroblemau defnyddwyr.

Mae gwasanaethau LSLIP Support Through Court wedi darparu cymorth ymarferol, trefniadol ac emosiynol ar faterion teuluol, yn enwedig ysgariad a threfniadau ar gyfer plant. Mae'r bartneriaeth gyda chyfreithiwr RCJ Advice wedi galluogi nifer o'r cleientiaid hyn i gael gafaél ar gyngor cyfreithiol arbenigol i deuluoedd.

Roedd Law for Life yn defnyddio cyllid LSLIP i ddiweddarau nifer o'u canllawiau Advicenow, gan gynnwys canllawiau i gefnogi unigolion sydd â budd-daliadau lles, tai a phroblemau teuluol¹¹. Mae'r traffig i'r canllawiau a'r adnoddau hyn wedi bod yn sylweddol, gydag oddeutu 16,000 o bobl yn edrych ar y canllaw Adran 21 (tai), 140,000 o bobl yn edrych ar yr adnodd PIP (budd-daliadau lles), 16,000 o bobl yn edrych ar yr adnodd Lwfans Byw i'r Anabl a dros 40,000 o bobl yn gweld y trefniadau plant a'r canllawiau ar orchmynion ariannol.

Mae Law for Life wedi nodi bod gweddau tudalen ar gyfer yr adnoddau hyn wedi amrywio yn unol â newidiadau mewn anghenion cyfreithiol o ganlyniad i'r pandemig. Er enghraifft, yn hanesyddol, yr adnoddau gorfodol o ran ailystyried yw'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio amlaf ar Advicenow, ond mae'r rhain wedi cael eu defnyddio'n llai aml yn ystod y pandemig oherwydd y gostyngiad yn nifer yr apelïadau budd-daliadau sy'n cael eu cynnal.

¹¹ Mae hyn yn cynnwys: Yr adnoddau Taliad Annibyniaeth Personol a'r Lwfans Byw i'r Anabl, canllaw Adran 21, sut i wneud cais am orchymyn trefniadau plant heb ganllaw cyfreithiwr, sut i wneud cais am orchymyn ariannol heb ganllaw cyfreithiwr.

Yn unol â'r gwasanaethau eraill a ariennir, mae Free Legal Answers wedi cefnogi cleientiaid yn bennaf gyda phroblemau teulu (22%), tai (23%) a chyflogaeth (11%). Ar ben hynny, maent hefyd wedi helpu nifer o ddefnyddwyr sydd â phroblemau dyledion (17%) a materion defnyddwyr (27%).

Nid yw'r pedwar cam cynghori'n cyd-fynd â'r gwasanaethau derbynnydd grant cenedlaethol, felly nid yw'n bosibl dadansoddi eu darpariaeth fel hyn. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau LSLIP cenedlaethol yn darparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau ar bob cam o'r daith datrys problemau, o wybodaeth, canllawiau ac offer digidol (Law for Life), i gyngor arbenigol gan gyfreithiwr (RJ Advice a LawWorks), a chyngor emosiynol, ymarferol a gweithdrefnol yn y llys (Support Through Court).

5.3 Nodweddion cleientiaid LSLIP

Y Prif Bwyntiau

- Mae derbynwyr y grant wedi casglu data ar naw nodwedd warchoddedig cleientiaid LSLIP, er mwyn cael gwybodaeth am yr unigolion a gefnogir gan y grant.
- Dim ond oedran, rhyw, hil ac anabledd cleientiaid y mae'r adroddiad interim hwn yn eu dadansoddi, oherwydd cyfradd ddatgelu isel y nodweddion eraill ar gam hwn y grant.
- Nid yw llawer o gleientiaid yn datgelu'r wybodaeth hon oherwydd pryder y gallai amharu ar eu mynediad at wasanaethau, felly mae'n bosibl y bydd y sampl hon yn gwyro tuag at grwpiau penodol ac na fydd yn gynrychioladol o bob cleient.

Er mwyn cael dealltwriaeth o'r garfan o unigolion sy'n cael cymorth drwy'r grant LSLIP, i lywio addasiadau i wasanaethau ac i ysgogi rhagor o waith gwerthuso neu ymchwilio, mae derbynwyr y grant wedi bod yn casglu data ar y naw nodwedd warchoddedig (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ymysg cleientiaid¹². Mae'r data hwn hefyd yn cefnogi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

I archwilio sut mae nodweddion LSLIP yn cyd-fynd neu'n wahanol i'r dystiolaeth bresennol am y garfan o bobl sy'n cael problemau cyfreithiol, cleientiaid cyngor eraill a'r boblogaeth gyffredinol, mae data LSLIP wedi cael ei gymharu â nifer o ffynonellau data eraill sydd ar

¹² Y naw nodwedd warchoddedig (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yw oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

gael i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys data Tablau Cyngor ar Bopeth, data Cyfrifiad 2011 ac Arolwg Datrys Problemau Cyfreithiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (LPRS). Mae'r tablau data hyn ar dudalennau 55-56 yr adroddiad.

Partneriaid LSLIP lleol a rhanbarthol

Mabwysiadwyd dull samplu bwriadus, lle bydd derbynwyr y grant ond yn casglu'r data personol hwn pan fydd yn codi'n organig yn ystod yr apwyntiad cynghori neu pan ystyrir ei bod yn briodol gofyn, er mwyn cynnal ymddiriedaeth a pherthynas rhwng cleientiaid a chynghorwyr. Mae hyn yn golygu nad yw data cyflawn wedi cael ei gasglu ar gyfer pob un o'r naw nodwedd a dim ond sampl sydd ar gael. Mae'r sampl hon yn amrywio ar draws y nodweddion gan fod rhai yn fwy sensitif nag eraill. Yn y cam interim hwn, mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi dosbarthiad oedran, rhyw, hil ac anabledd ymysg cleientiaid LSLIP ond nid yw wedi archwilio'r nodweddion gwarchoddedig sy'n weddill oherwydd y gyfradd ddatgelu isel.

Nid yw llawer o gleientiaid yn datgelu'r wybodaeth hon oherwydd pryder y gallai amharu ar eu mynediad at wasanaethau, felly mae'n bosibl y bydd y sampl hon yn gwyro tuag at grwpiau penodol ac na fydd yn gynrychioladol o bob cleient. Mae'r gyfradd ddatgelu ar gyfer pob nodwedd warchoddedig wedi'i datgan er mwyn dangos cyfran y cleientiaid y mae'r data hwn yn eu cynrychioli.

Partneriaid LSLIP cenedlaethol

Mae'r derbynwyr cenedlaethol y grant yn casglu data am nodweddion gwarchoddedig eu cleientiaid mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys Google Analytics ac arolygon cleientiaid. Mae'r ffynonellau data hyn hefyd yn cynrychioli sampl o ddefnyddwyr a gellir eu gogwyddo tuag at ddemograffeg benodol, felly efallai nad ydynt yn cynrychioli pob cleient. Mae'r gwasanaethau hyn hefyd yn cael eu defnyddio'n aml gan unigolion eraill sy'n ceisio cyngor neu arweiniad ar gyfer rhywun arall, felly efallai nad yw'r data o reidrwydd yn cynrychioli'r sawl sy'n wynebu'r broblem. Er enghraifft, mae 69% o adnoddau Advicenow Law for Life yn bobl sy'n chwilio am gyngor ar gyfer eu problem gyfreithiol eu hunain. Mae'r 31% sy'n weddill yn ffrindiau, yn berthnasau, yn ymgynghorwyr neu'n unigolion sy'n cyflawni rôl wirfoddol neu broffesiynol arall.

5.3.1 Oed


Y Prif Bwyntiau

- Mae 79% o'r cleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol wedi datgelu eu hoedran. Yn wahanol i'r rhai y mae'n well ganddynt beidio â dweud, mae tua dwy ran o dair (65%) o'r holl gleientiaid rhwng 25 a 55 oed.
- Mae angen rhagor o ddata cyn y gellir dod i gasgliadau dilys a dibynadwy, ond mae data Google Analytics yn awgrymu ei bod yn ymddangos bod carfan iau o ddefnyddwyr yn defnyddio Advicenow.

Mae 79% o'r cleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol wedi datgelu eu hoedran. Yn wahanol i'r rhai y mae'n well ganddynt beidio â dweud, mae tua dwy ran o dair (65%) o'r holl gleientiaid rhwng 25 a 55 oed.

Mae dadansoddiad manwl o oedran cleientiaid LSLIP, gan dynnu'r rhai y mae'n well ganddynt beidio â dweud, ar gael yn Nhabl 10. Mae Ffigur 9 yn dangos dosbarthiad oedran yr holl gleientiaid LSLIP a'r rheini sydd â materion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles. Nid yw meysydd eraill y gyfraith wedi cael eu cynnwys ar hyn o bryd, oherwydd niferoedd isel. Mae ychydig o amrywiaeth ym meysydd y gyfraith, gyda charfan iau o gleientiaid gyda phroblemau teuluol, na meysydd eraill o'r gyfraith.

Ffigur 9: Dosbarthiad oedran yr holl dderbynwyr LSLIP lleol a rhanbarthol a'r rheini sydd â materion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles, gan gael gwared â'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud



Mae dosbarthiad oedran y cleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol yn adlewyrchu'n fras broffil oedran defnyddwyr Cyngor ar Bopeth, gan awgrymu bod gweithgareddau grant LSLIP yn cyrraedd carfan oedran debyg i wasanaethau cynghori eraill. Nid yw'n ymddangos bod derbynwyr grant lleol a rhanbarthol yn cyrraedd llawer iawn o bobl dros 65 oed, er bod yr LPRS yn dangos bod 43% o'r bobl a ddywedodd bod ganddynt broblem dros 65 oed. Fodd bynnag, gan fod data Cyngor ar Bopeth yn awgrymu mai dim ond 14% o'u cleientiaid sydd dros 65 oed, efallai nad ceisio cymorth gan asiantaeth gynghori yw'r strategaeth ddatrys y mae'r garfan hŷn hon yn ei dilyn. Mae'n bwysig nodi hefyd y gallai'r rhai na ddatgelodd eu hoedran fod wedi bod yn y grŵp oedran hwn.

Mae data Google Analytics yn awgrymu ei bod yn ymddangos bod carfan iau o ddefnyddwyr yn defnyddio Advicenow, gyda bron i hanner y defnyddwyr (45%) o dan 35 oed.

Efallai fod hyn yn adlewyrchu sut mae carfannau iau yn aml yn fwy galluog yn ddigidol ac yn chwilio am adnoddau ar-lein fel eu cam cyntaf. Fodd bynnag, dim ond tua 25% o ddefnyddwyr Advicenow y mae data Law for Life Google Analytics yn ei gynrychioli, felly efallai na fydd yn bortread go iawn o'r holl ddefnyddwyr ac efallai y bydd yn gwyro tuag at rai grwpiau. I gefnogi hyn, canfu arolwg hunanddewis o 125 o ddefnyddwyr fod oedran y

defnyddwyr yn hŷn nag y mae hyn yn ei awgrymu, er bod y sampl yn fach iawn o'i gymharu â nifer yr holl ddefnyddwyr Advicenow.

Mae nifer y cleientiaid LawWorks a STC/RCJA sy'n datgelu eu hoedran yn isel iawn. Mae'r data wedi cael ei gynnwys yn Nhabl 10 er mwyn bod yn dryloyw, ond mae angen rhagor o ddata cyn y gellir dod i gasgliadau dilys a dibynadwy.

5.3.2 Rhyw


Y Prif Bwyntiau

- Mae 80% o'r cleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol wedi datgelu eu rhyw. Gan dynnu'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud, mae tua dwy ran o dair o'r cleientiaid yn fenywod (62%).
- Mae angen rhagor o ddata cyn y gellir dod i gasgliadau dilys a dibynadwy, ond mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod y rhan fwyaf o gleientiaid cenedlaethol y grant hefyd yn fenywod.

Mae 80% o'r cleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol wedi datgelu eu rhyw. Gan dynnu'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud, mae tua dwy ran o dair o'r cleientiaid yn fenywod (62%).

Mae dadansoddiad manwl o ryw cleientiaid LSLIP, gan dynnu'r rhai y mae'n well ganddynt beidio â dweud, ar gael yn Nhabl 11. Mae Ffigur 10 yn dangos dosbarthiad rhyw yr holl gleientiaid LSLIP a'r rheini sydd â materion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles. Nid yw meysydd eraill y gyfraith wedi cael eu cynnwys ar hyn o bryd, oherwydd niferoedd isel. Mae ychydig o amrywiaeth rhwng meysydd y gyfraith, ond mae cleientiaid benywaidd yn ffurfio mwy na hanner yr holl gleientiaid lleol a rhanbarthol ym mhob maes sy'n peri problem (o leiaf 58%).

Ffigur 10: Dosbarthiad rhyw yr holl dderbynwyr LSLIP lleol a rhanbarthol a'r rheini sydd â materion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles, gan gael gwared â'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud



Mae cyfran y cleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol sy'n fenywod ac yn ddynion yn adlewyrchu'n fras broffil oedran defnyddwyr Cyngor ar Bopeth, sy'n awgrymu bod gwasanaethau LSLIP yn cyrraedd carfan oedran debyg i wasanaethau cynghori eraill. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â data LPRS, sy'n awgrymu bod menywod yn cael mwy o broblemau cyfreithiol na dynion. Edrychir yn fanylach ar yr amrywiaeth rhwng meysydd o'r gyfraith ar dudalen 38.

Nid yw cyfran fawr o gleientiaid LSLIP cenedlaethol wedi datgelu eu rhyw, ond mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod y rhan fwyaf o gleientiaid Law for Life a STC/RCJA hefyd yn fenywod. Mae gan Free Legal Answers fwy o ddefnyddwyr gwrywaidd na benywaidd, er bod y sampl yn fach iawn ar hyn o bryd a bod angen mwy o ddata i ddilysu'r canfyddiad hwn.

Mae data Law for Life Google Analytics ar ryw defnyddwyr Advicenow yn cynrychioli tua 34% o'r holl ymwelwyr â'r safle, felly efallai na fydd yn bortread cywir o'r holl ddefnyddwyr. Canfu'r arolwg hunanddewis o 125 o ddefnyddwyr ar Advicenow hefyd fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn fenywod, er bod y sampl yn fach iawn o'i gymharu â nifer y defnyddwyr Advicenow.

Mae'r data sydd ar gael o Support Through Court a RCJ Advice yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'u cleientiaid hwythau hefyd yn fenywod. Fodd bynnag, mae nifer y cleientiaid sy'n datgelu eu rhyw hefyd yn isel, gan gynrychioli tua 25% o'r holl gleientiaid a gefnogir gan gyfreithiwr RCJA a Support Through Court. Mae hyn yn golygu efallai na fydd y dosbarthiad rhyw yn Nhabl 11 yn ddarlun cywir o ddefnyddwyr y gwasanaethau hyn.

Mae data a gofnodwyd gan Free Legal Answers yn awgrymu bod ychydig mwy o ddynion yn defnyddio'r gwasanaeth, fodd bynnag, mae'r sampl yn fach iawn ar hyn o bryd ac mae angen mwy o ddata cyn y gellir dod i'r casgliad bod Free Legal Answers yn cyrraedd carfan wahanol i wasanaethau cyngori eraill. Bydd y tueddiadau hyn yn cael eu monitro wrth i fwy o ddata ddod ar gael.

5.3.3 Hil


Y Prif Bwyntiau

- Mae 61% o'r cleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol wedi datgelu eu hil. Gan dynnu'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud, mae'r rhan fwyaf o'r cleientiaid yn wyn (91%).
- Mae'n ymddangos bod mwy o amrywiaeth ymysg cleientiaid derbynwyr cenedlaethol y grant, ond nid oedd cyfran fawr o gleientiaid ymysg holl dderbynwyr y grant wedi datgelu'r data hwn, felly mae angen mwy o ddata i ddilysu'r canfyddiadau hyn.

Mae 61% o'r cleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol wedi datgelu eu hil. Gan dynnu'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud, mae'r rhan fwyaf o'r cleientiaid yn wyn (91%).

Mae dadansoddiad manwl o hil cleientiaid LSLIP ar gael yn Nhabl 12. Mae derbynwyr y grant yn casglu'r data hwn yn fwy manwl na'r hyn a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, ond er mwyn diogelu anhysbysrwydd, gwella pa mor hawdd ei darllen yw'r wybodaeth a chaniatáu cymariaethau â ffynonellau data eraill, mae sawl categori wedi'u cyfuno. Mae Ffigur 11 yn dangos dosbarthiad hil yr holl gleientiaid LSLIP a'r rheini sydd â materion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles. Nid yw meysydd eraill y gyfraith wedi cael eu cynnwys ar hyn o bryd, oherwydd niferoedd isel.

Ffigur 11: Dosbarthiad hil yr holl dderbynwyr LSLIP lleol a rhanbarthol a'r rheini sydd â materion sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles, gan gael gwared â'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud



Wrth dynnu'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud, mae 91% o gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol yn wyn. Mae hyn yn wahanol i ddata'r cyfrifiad, ond bydd gan yr ardaloedd lle mae'r derbynwyr grantiau lleol a rhanbarthol yn gweithredu proffiliau demograffig gwahanol, ac felly gall nodweddion y cleientiaid gynrychioli eu hardaloedd lleol, ond nid data cyffredinol y cyfrifiad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan nad yw'r LSLIP yn ariannu gwasanaethau yn Llundain (y rhan fwyaf amrywiol yn y DU o ran ethnigrwydd) ac mae'n ariannu gwasanaethau yng Nghymru (y rhan leiaf amrywiol o'r DU o ran ethnigrwydd).

Mae data'r LSLIP hefyd yn wahanol i ddata Cyngor ar Bopeth, ond nid oedd dros 40% o'r cleientiaid wedi datgelu'r wybodaeth hon. Mae hyn yn golygu y gall fod mwy o amrywiaeth ymysg cleientiaid nag y mae'r ffigur hwn yn ei awgrymu, yn enwedig gan fod rhai cleientiaid yn teimlo bod arnynt ofn datgelu'r wybodaeth hon rhag ofn y bydd hyn yn effeithio ar y gwasanaeth y gallent ei dderbyn. Bydd y duedd hon yn cael ei monitro drwy hanner y grant LSLIP sy'n weddill.

Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod y rhan fwyaf o gleientiaid STC/RCJA a Law Works yn wyn (69% a 62%), ond bod mwy o amrywiaeth ymysg cleientiaid y derbynwyr grantiau LSLIP hyn. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r data lleol a rhanbarthol, nid yw cyfran fawr o'r cleientiaid wedi datgelu eu hil. Mae'r gyfradd ddatgelu isel ymysg

cleientiaid lleol a rhanbarthol hefyd yn golygu y gall fod mwy o amrywiaeth ymysg y cleientiaid hyn nag y mae'r data'n ei awgrymu.

5.3.4 Anabledd


Y Prif Bwyntiau

- Mae gan o leiaf 26% o gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol anabledd corfforol, synhwyraidd, gwybyddol neu iechyd meddwl, ac mae gan gyfran uchel o ddefnyddwyr STC/RCJA a Law for Life anabledd hefyd.
- Mae tystiolaeth sy'n awgrymu bod hyn yn amcangyfrif rhy isel a bod gan nifer uwch o gleientiaid iechyd corfforol a meddyliol gwael a'u bod yn dangos arwyddion eraill o fod yn agored i niwed.

Mae gan o leiaf 26% o gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol anabledd corfforol, synhwyraidd, gwybyddol neu iechyd meddwl.

Cam Gweithredu 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Roedd y gwasanaeth yn darparu cyngor clir i egluro hawliau cyfreithiol y cleient, yn amlinellu cynllun gweithredu, ac yn disgrifio'r camau y mae'n rhaid i'r cleient a'r gweithiwr achos eu cymryd ar bob cam yn yr achos.

Astudiaeth achos Cam 2	
	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gyda chymorth, ysgrifennodd y cleient nifer o lythyrau at ei chyflogwr yn amlinellu ei hawliau cytundebol yn gryno, ac yn gofyn yn gwrtais i'w chyflog gael ei ôl-ddyddio, gan gynnwys ceisiadau i gyhoeddi dogfennau a fyddai'n tystio i'w hawliad.
Canlyniad 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Ar ôl sawl wythnos o ohebiaeth, cytunodd y cyflogwr i ôl-ddyddio taliad o £8,000 i'r cleient. ➤ Roedd y cleient yn falch bod y broblem wedi'i datrys a'i bod wedi cael yr arian heb iddi orfod mynd ar drywydd hyn yn y llys, a fyddai wedi'i rhoi dan fwy o straen. Roedd hyn yn rhoi mwy o hyder a gallu i'r cleient fynd ar drywydd hawliadau o'r fath yn y dyfodol, gan ei bod yn deall ei hawliau'n well a'r camau angenrheidiol i'w cymryd.

Mae rhywfaint o amrywiaeth yn y modd y cyflawnwyd y canlyniad hwn rhwng staff a chleientiaid teulu a rhwng camau'r cyngor. Fodd bynnag, mae maint y sampl yn fach ac felly mae angen mwy o ddata i ddilysu'r canfyddiadau hyn. Efallai mai'r rheswm am yr amrywiad yw oherwydd y gwahaniaethau yn natur y problemau, er enghraifft, gall problemau teuluol fod yn arbennig o anodd os oes plant neu drais yn y cartref yn gysylltiedig, a bod cleientiaid â phroblemau cyflogaeth yn teimlo'n llai hyderus o ran eu gallu i ddelio â phroblem gyda chyflogwr mawr. Ar draws y rhan fwyaf o'r problemau, mae gwasanaethau LSLIP yn cefnogi cleientiaid agored i niwed sydd yn aml â phroblemau cymhleth a difrifol iawn, sy'n wynebu proses anghyfarwydd, ac felly efallai nad oes disgwyl lefelau uchel o hyder.

Mae adborth ansoddol gan Support Through Court yn awgrymu bod ymgysylltu â'u gwasanaethau hefyd yn gwella hyder cleientiaid i gymryd y cam nesaf ar eu taith.

Siaradodd Support Through Court am faint o gleientiaid yr oeddent yn eu cynghori drwy'r Llinell Gymorth Genedlaethol nad oeddent erioed wedi cael problemau cyfreithiol o'r blaen ac nad oeddent yn gwybod ble i ofyn am gymorth. Roedd y llinell ffôn yn syniad gwych ac roedd yn helpu'r unigolion hyn i gymryd cam nesaf eu taith datrys problemau, a chael cyngor cyfreithiol drwy dwrnai teulu RCJ Advice, Cyngor ar Bopeth Lleol arall ac offer ar-lein fel CourtNav.

Tabl 18: Canlyniadau gweithredu ar gyfer yr holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol, o'u cymharu â chleientiaid sydd â phroblemau teuluol a chyflogaeth

	Pob maes o gyfraith			Aelodau'r teulu			Cyflogaeth		
	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur
Mae cleientiaid yn ymwybodol o unrhyw gamau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i baratoi ar gyfer cam nesaf eu taith datrys problemau, gan gynnwys unrhyw waith paratoi sydd ei angen cyn mynd i'r llys.	76%	500	4	75%	260	3	74%	200	2
Mae gan gleientiaid fwy o hyder a gallu i ddelio â'u problemau.	66%	660	6	81%	220	5	47%	250	4

Tabl 19: Canlyniadau gweithredu ar gyfer pob cleient LSLIP lleol a rhanbarthol, fesul cam¹⁷

	Cam 1			Cam 2			Cam 3a a 3b		
	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur
Mae cleientiaid yn ymwybodol o unrhyw gamau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i baratoi ar gyfer cam nesaf eu taith datrys problemau, gan gynnwys unrhyw waith paratoi sydd ei angen cyn mynd i'r llys.	63%	120	2	72%	260	4	100%	70	3

¹⁷ Mae'n bosibl na fydd y niferoedd hyn yn cyfateb i'r niferoedd yn Nhabl 18, gan fod rhai canlyniadau'n cael eu nodi fel rhai 'traws-gam' nad ydynt yn cael eu cofnodi yma.

	Cam 1			Cam 2			Cam 3a a 3b		
	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur
Mae gan gleientiaid fwy o hyder a gallu i ddelio â'u problemau.	40%	170	1	60%	160	3	80%	170	3

6.4 Datrys problemau cyn mynd i'r llys neu'r Tribiwnlys

Y Prif Bwyntiau

- Mae LSLIP yn darparu amrywiaeth o gyngor ar hyd y daith datrys problemau, gan gynnwys cyngor a chymorth cynnar hyd at gynrychiolaeth yn y llys neu'r Tribiwnlys os oes angen ymwneud â'r system gyfiawnder ffurfiol. Y nod yw annog datrys yn gynt, gan ddarparu ystod gyfannol o gymorth sy'n diwallu anghenion cleientiaid.
- Mae derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant wedi casglu data ynghylch p'un ai a oedd y cyngor wedi arwain at ddatrys problemau cyn i wrandawriad llys neu Dribiwnlys gael ei gynnal, hyd eithaf eu gwybodaeth. Felly dylid dehongli'r data hwn gyda pheth gofal.
- Dywedodd derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant fod 62% o ymgyfreithwyr drostynt eu hunain wedi datrys eu problemau gyda chefnogaeth y cyngor a'r cymorth ac wedi osgoi'r angen i fynd i'r llys/Tribiwnlys.

Mae LSLIP yn darparu amrywiaeth o gyngor ar hyd y daith datrys problemau, gan gynnwys cyngor a chymorth cynnar hyd at gynrychiolaeth yn y llys neu'r Tribiwnlys os oes angen ymwneud â'r system gyfiawnder ffurfiol. Y nod yw annog datrys yn gynt, gan ddarparu ystod gyfannol o gymorth sy'n diwallu anghenion cleientiaid.

Er mwyn mesur p'un ai a oedd eu gwasanaethau wedi helpu i ddatrys problemau'n gynt, edrychodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gysylltu data LSLIP a GLITEM. Nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn ymarferol oherwydd pryderon sy'n gysylltiedig â cheisio caniatâd priodol gan gleientiaid i rannu eu data â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y pwysau y gallai hyn ei roi ar ddarparwyr rheng flaen a'r adnoddau sydd eu hangen i gysylltu'r data. Yn hytrach, cymerwyd ymagwedd bragmatig ac mae derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant wedi casglu data ynghylch p'un ai a oedd y cyngor wedi arwain at ddatrys problemau cyn i wrandawriad llys neu Dribiwnlys gael ei gynnal, hyd eithaf eu gwybodaeth. Felly, dylid dehongli'r data hwn gyda pheth gofal, gan y gellir cael achosion lle mae problem y cleient yn gwaethygu neu'n ailymddangos heb i'r cynghorydd wybod hynny.

Mae Tabl 20 a 21 ar t.80 yn rhoi dadansoddiad o sut mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu cyflawni ar draws y camau ac yn cymharu'r holl gleientiaid, cleientiaid cyflogaeth a chleientiaid theulu. Nid yw'r canlyniadau ar gyfer meysydd eraill o'r gyfraith wedi cael eu




cymharu ar gam hwn y grant gan fod y samplau'n rhy fach i ddod i gasgliadau dibynadwy, ond bydd hyn yn cael ei archwilio yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.

Yn dilyn cefnogaeth gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant LSLIP fod 62% o ymgyfreithwyr drostynt eu hunain wedi datrys eu problemau gyda chyngor a chefnogaeth ac wedi osgoi'r angen i fynd i'r llys/Tribiwnlys.

Mae hyn yn seiliedig ar sampl o 3,900 o gleientiaid (tua 47% o'r holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol), wedi'i fesur gan 6 o 8 derbynnydd lleol a rhanbarthol y grant.

Mae cyflawni'r canlyniad hwn yn amrywio rhwng materion cyflogaeth a theulu, ond mae gan y problemau hyn wahanol nodweddion a theithiau datrys problemau, sy'n golygu bod eu tebygolrwydd o ryngweithio â'r system gyfiawnder ffurfiol yn wahanol. Er enghraifft, bydd llawer o anghydfodau cyflogaeth yn mynd yn eu blaen i Acas neu i Dribiwnlys Cyflogaeth os yw'r unigolyn wedi dilyn y drefn gwyno fewnol. Roedd hyn yn wir am y cleient yn yr astudiaeth achos yn Ffigur 19.




Ffigur 19: Astudiaeth achos partner LSLIP rhanbarthol

Astudiaeth achos Cam 2	
Cyflogai ar absenoldeb salwch tymor hir wedi cael cefnogaeth i gael ôl-daliad gwyliau 2 flynedd	
Problem 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Roedd cleient wedi cael ei gyflogi ers dros bum mlynedd, ond wedi bod ar absenoldeb salwch am bron i ddwy flynedd ar ôl damwain yn y gwaith. Nid oedd wedi cael tâl gwyliau yn ystod y cyfnod hwn a chysylltodd y cleient â'i gyflogwr dros y ffôn i holi am ei hawl i dâl gwyliau pan oedd yn absennol oherwydd salwch. ➤ Dywedodd ei gyflogwr wrth y cleient nad oedd ganddo hawl tra'i fod ar absenoldeb salwch a dywedwyd wrtho eu bod wedi holi cyfrifydd y cwmni a oedd wedi cadarnhau hyn.
Cam Gweithredu 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cysylltodd y cleient â Chyngor ar Bopeth i weld a oedd hyn yn gywir ac fe'i cynghorwyd tra'r oedd ar absenoldeb salwch, parhaodd i gronni ei hawl i dâl gwyliau, felly, yr oedd o leiaf pump i chwe wythnos o wyliau yn ddyledus iddo am y ddwy flynedd ddiwethaf. ➤ Rhoddwyd cyngor ar hawliau'r cleient ac y gallai herio ei gyflogwr ynghylch y mater, a phetai hawliad yn cyrraedd y llys, y byddai'r cleient yn sicr o lwyddo. ➤ Eglurodd Cyngor ar Bopeth y broses o fynd ar drywydd y mater, yn gyntaf drwy gyflwyno cwyn ysgrifenedig ffurfiol, ac yna cysylltu ag Acas, ac os bydd hyn yn methu, cyflwyno hawliad am yr arian i'r Tribiwnlys Cyflogaeth.
Canlyniad 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Roedd y gwasanaeth wedi helpu gyda'r llythyr cwyno, a gyflwynodd y cleient i'w gyflogwr ac roedd y cleient hefyd wedi dilyn cyngor drwy gysylltu ag Acas i ofyn am 'Gymodi Cynnar'.


Astudiaeth achos Cam 2	
	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Ar ôl cyfathrebu'n ôl ac ymlaen rhwng Acas a chyflogwr y cleient, cytunodd y cyflogwr i dalu dros £4,500 i'r cleient. ➤ Dywedodd y cleient fod y cyngor a'r cymorth yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol iddo a'i fod yn fwy hyderus na fyddai wedi bod fel arall o ran dal i herio a datrys y mater hwn gyda'i gyflogwr.



Gall y datrysiad cynharach hwn arwain at fanteision pellgyrhaeddol i'r cleientiaid, eu teuluoedd ac ochr arall yr anghydfod. Mae'r astudiaeth achos yn Ffigur 20 yn nodi sut mae partner LSLIP lleol wedi cyfyngu ar fynd â'r mater ymhellach, er budd y cleient a'i blant. Mae'r astudiaeth achos yn Ffigur 21 yn nodi sut y gwnaeth partner LSLIP lleol arall ymyrryd er mwyn atal ei gleient rhag ymddwyn yn amhriodol ymhellach.

Ffigur 20: Astudiaeth achos partner LSLIP lleol

Astudiaeth achos Cam 1	
Materion teuluol yn cael eu datrys drwy gyfyngu	
Problem 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Roedd y cleient wedi gwahanu oddi wrth ei bartner ac wedi symud allan o gartref y teulu, lle'r oedd y ddau yn talu morgais ar y cyd. Mae gan y cwpl ddau o blant ifanc ac roedd y cleient yn cael ei fygwth gan ei gyn-bartner y byddai'n cael gwared ag unrhyw gyswllt gyda'r plant.
Cam Gweithredu 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Dywedodd y partner LSLIP lleol wrth y cleient am fynd ati'n weithredol i fynd ar drywydd cyfyngu er mwyn datrys problemau cyswllt plant ac arian y teulu. Esboniwyd bod hwn yn llwybr mwy priodol i'w ddilyn nag achos llys, a'i fod yn gallu bod yn rhatach, yn gyflymach a golygu llai o ddadlau o ran y plant.
Canlyniad 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Roedd y cyngor cynnar yn atal y mater rhag gwaethygu. Rhoddwyd arweiniad byr i Gyfyngu i Deuluoedd i'r cleient a'i gyfeirio at gynllun cyfyngu i deuluoedd lleol.

Ffigur 21: Astudiaeth achos partner LSLIP rhanbarthol

Astudiaeth achos Cam 1	
Wedi helpu'r cleient agored i niwed i ddeall eu hymddygiad amhriodol ac atal mater teuluol rhag gwaethygu	
Problem 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Roedd y cleient yn agored iawn i niwed, gyda nifer o broblemau'n codi. Saesneg oedd ei ail iaith a olygai fod rhwystr iaith sylweddol. ➤ Roedd wedi bod drwy achosion Deddf Plant a oedd yn cael eu herio bedair blynedd yn gynharach, gyda gorchymyn llys ar gyfer cyswllt â'i fab yn dilyn ysgariad. Roedd ei gyn-wraig wedi symud gryn bellter i ffwrdd ac roedd wedi colli cysylltiad â'i fab. ➤ Roedd wedi cysylltu â'i gyn-wraig fwy na 100 gwaith y dydd, mewn ymgais i drefnu cyswllt gyda'r mab. Roedd yn flin iawn, yn fyrbwyll ac yn ypset iawn, a gofynnodd am help i lenwi ac anfon ei gais C100, a oedd wedi'i gwblhau'n rhannol.

Astudiaeth achos Cam 1	
Cam Gweithredu 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Darganfu'r cynghorydd ei fod wedi cael llythyr diweddar gan gyfreithwyr ei gyn-wraig, yn ceisio agor trafodaethau am drefniadau cyswllt newydd. Llwyddodd y cynghorydd i dawelu'r cleient a siarad ag ef am y math o gynnig y gallai ei gyflwyno'n realistig, gan gydnabod bod y pellter a'i gyflyrau iechyd amrywiol yn golygu na allai'r cyswllt fyth fod fel yr oedd am iddo fod. Draftiwyd llythyr ar ei ran at gyfreithwyr y gyn-wraig, yn cynnwys ei gynigion ar gyfer cyswllt. ➤ Cafodd y cleient gymorth hefyd i ddeall, er gwaethaf ei deimladau cryf, ei fod yn amhriodol ac y gallai fod yn niweidiol i'w achos ffonio ei gyn-wraig i'r graddau hynny.
Canlyniad 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gohiriwyd cais llys newydd a cheisiadau gwaharddeb posibl ar ran cyn-wraig y cleient.

Ar gyfer problemau a oedd yn gofyn am ymyriad ffurfiol gan y system gyfiawnder, mae'n ymddangos bod y cyngor a'r gefnogaeth yn 3a a 3b wedi helpu'r achos i redeg yn fwy llyfn, cymryd llai o amser yn y llys a sicrhau canlyniadau boddhaol. Mae'r mesurau hyn yn seiliedig ar asesiad y sefydliad cynghori o'r achos o'u safbwynt nhw ac felly nid ydynt yn fesurau annibynnol wedi'u dilysu, ac efallai y bydd angen rhagor o dystiolaeth i ategu'r canfyddiadau hyn.

Yn dilyn y gefnogaeth gan dderbynwyr LSLIP lleol a rhanbarthol, cymerodd 57% o'r achosion lai o amser yn y llys ac roedd canlyniadau 88% o'r achosion yn foddhaol.

Mae hyn yn seiliedig ar sampl fach iawn o 60 o gleientiaid (tua 5% o'r holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol a gynghorwyd yng nghyfnod 3a a 3b), ac roedd gan y rhan fwyaf ohonynt broblemau cyfreithiol teuluol. Mae angen llawer mwy o ddata i wirio pa mor sefydlog yw'r data hwn, ac a yw'n gyson ar draws mathau eraill o broblemau. Mae hefyd yn bwysig nodi bod nifer o ffactorau sy'n gallu effeithio ar ba mor ddidrafferth yw'r achos, pa mor hir mae'r gwrandawriad yn ei gymryd a chanlyniad yr achos, ac felly efallai na fydd y canlyniadau hyn yn cael eu priodoli'n llwyr i'r cyngor a ddarparwyd. Ar gyfer yr adroddiad gwerthuso terfynol, byddwn yn ymchwilio i ba mor ymarferol yw cael staff y llys i gasglu rhagor o dystiolaeth.

Tabl 20: Canlyniadau datrys cynharach ar gyfer holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol, o'u cymharu â chleientiaid sydd â phroblemau teuluol a chyflogaeth

	Pob maes o gyfraith			Aelodau'r teulu			Cyflogaeth		
	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur
Cleientiaid a ddatrysodd eu problemau gyda chymorth cyngor cyffredinol, gwaith achos a chymorth cyfreithiol arbenigol cynnar (cyngor cam 1 a cham 2), gan osgoi'r angen i fynd i'r llys.	62%	3,900	6	79%	1,300	4	11%	1,200	4

Tabl 21: Canlyniadau datrys cynharach ar gyfer yr holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol, fesul cam¹⁸

	Cam 1			Cam 2			Cam 3a		
	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur
Cleientiaid a ddatrysodd eu problemau gyda chymorth cyngor cyffredinol, gwaith achos a chymorth cyfreithiol arbenigol cynnar (cyngor cam 1 a cham 2), gan osgoi'r angen i fynd i'r llys.	67%	3,100	3	34%	410	4	48%	330	4

¹⁸ Mae'n bosibl na fydd y niferoedd hyn yn cyfateb i'r niferoedd yn Nhabl 20, gan fod rhai canlyniadau'n cael eu nodi fel rhai 'traws-gam' nad ydynt yn cael eu cofnodi yma.

6.5 Bodlonwydd cleientiaid â'r gwasanaeth a gawsant a chanlyniad eu problem

Y Prif Bwyntiau

- Mesurodd derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant fodlonrwydd cyffredinol y cleientiaid â'r gwasanaeth a gawsant a chanlyniad eu problem.
- Yn dilyn y gefnogaeth gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant, gwnaeth 81% o'r cleientiaid hunanasesiad cadarnhaol o'r gefnogaeth a chanlyniad eu problem.

Mae derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant wedi adrodd am ganran y cleientiaid sy'n fodlon â'r gefnogaeth a gawsant a chanlyniad eu problem, a gofnodwyd gan lawer drwy ffurflenni adborth ac arolygon. Efallai y dylanwadir ar foddhad cleientiaid gan y ffaith bod y cleient wedi cyflawni'r canlyniad yr oeddent wedi gobeithio amdano, ac felly efallai na fydd hyn yn adlewyrchiad cywir o ansawdd y gwasanaeth.

Yn dilyn y gefnogaeth gan dderbynwyr LSLIP lleol a rhanbarthol, gwnaeth 81% o'r cleientiaid hunanasesiad cadarnhaol o'r gefnogaeth a chanlyniad eu problem.




Mae tablau 22 a 23 yn rhoi dadansoddiad o sut y cyflawnwyd y canlyniad hwn ar draws y camau ac yn cymharu'r holl gleientiaid, a chleientiaid gyda phroblemau cyflogaeth a theulu. Nid yw'r canlyniadau ar gyfer meysydd eraill o'r gyfraith wedi cael eu cymharu ar gam hwn y grant gan fod y samplau'n rhy fach i ddod i gasgliadau dibynadwy, ond bydd hyn yn cael ei archwilio yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.

Mae rhywfaint o amrywiaeth o ran cyflawni'r canlyniad hwn ar draws meysydd y gyfraith, gyda chleientiaid teulu'n dweud eu bod yn fwy bodlon na chleientiaid cyflogaeth. Gallai hyn adlewyrchu effaith y pandemig ar faterion cyflogaeth a'r ffyrdd o ddatrys y problemau hyn. Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae yna amser aros hirach ar hyn o bryd ar gyfer Tribiwnlysoedd Cyflogaeth nag a ddisgwylir fel arfer. Ar ben hynny, mae achosion teulu'n fwy tebygol o fynd i'r llys, felly ar adeg yr hunanasesiad, mae'n bosibl y bydd gan gleientiaid ddatrysiad i'w mater, ac efallai na fydd hynny'n digwydd ar draws meysydd eraill y gyfraith.

Mae rhywfaint o amrywiaeth hefyd rhwng camau'r cyngor, gyda boddhad yn codi i 95% ar gyfer cleientiaid cam 3a a cham 3b. Efallai fod hyn yn adlewyrchu'r gefnogaeth arbenigol, fwy dwys a ddarperir ar y cam hwn neu'r cleientiaid ar y cam hwn sydd â gwell dealltwriaeth o'r broblem a'r canlyniadau posibl, fel y dangoswyd yn yr astudiaeth achos yn

Ffigur 22. Fodd bynnag, mae maint y sampl yn llai ar gyfer y canlyniad hwn ar y camau hyn, felly bydd y tueddiadau hyn yn cael eu monitro drwy gydol gweddill y grant LSLIP, er mwyn cadarnhau pa mor sefydlog ydynt.

Ffigur 22: Astudiaeth achos partner LSLIP rhanbarthol




Astudiaeth achos Cam 2	
Y cleient yn derbyn cyngor a chefnogaeth cyn gwrandawriad trefniant plentyn	
Problem 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cafodd cleient lythyr gan ei chynbartner yn mynd â hi i'r llys i geisio cael cystodaeth 50/50 i'w plentyn. Roedd gan y cleient a'i chynbartner berthynas gyfeillgar dros y 4 blynedd diwethaf felly roedd hi'n amau bod hyn yn ymateb iddi ofyn yn ddiweddar am daliadau cynhaliaeth plant. ➤ Roedd y pandemig a'r cyfyngiadau symud wedi cael effaith niweidiol ar incwm y cleient fel rhywun hunangyflogedig, ac o ganlyniad gwnaeth gais am Gredyd Cynhwysol. Ar ôl cysylltu â chyfreithiwr a chael dyfynbris ymlaen llaw o £1,500, ni allai'r cleient fforddio hyn a bu'n rhaid iddi gynrychioli ei hun yn y gwrandawriad trefniant plentyn.
Cam Gweithredu 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Heb unrhyw brofiad blaenorol o broses y llys, roedd y cleient eisiau cynnal y trefniadau plant presennol er budd gorau ei phlentyn ond roedd hefyd yn fodlon derbyn cynnig i gynyddu'r cyswllt rhwng ei chynbartner a'i mab. ➤ Rhoddodd y cleient y gwaith papur oedd ganddi i'r partner LSLIP, a ddangosodd ei bod wedi methu'r dyddiad cau i anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn (Ffurflen C7). ➤ Fe wnaeth y partner LSLIP helpu'r cleient i lenwi'r C7, gwirio ei datganiad, rhoi rhif cyswllt y llys i'r cleient i esbonio'r sefyllfa, a chynnig gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl mewn gwrandawriad llys.
Canlyniad 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Daeth y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd yn rhan o'r broses a threfnwyd sesiwn gyfryngu awr o hyd lle daeth y cleient a'r cynbartner i gytundeb addas. Gwrthododd y barnwr y cynnig i rannu'r gystodaeth yn gyfartal gan nad oedd o fudd i'r plentyn ond rhoddodd un diwrnod ychwanegol i'r tad yn yr ail wythnos. ➤ Roedd y cleient yn hapus iawn gyda'r canlyniad hwn, roedd y gwrandawriad wedi mynd yn well nag yr oedd wedi'i ddisgwyl ac roedd yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a gafodd a oedd wedi gwella ei hyder yn ei gallu ei hun i reoli'r broses.

Canfyddiad cyffredinol o arolygon cleientiaid a gynhaliwyd gan sefydliadau cyngori yw bod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n cael cyngor yn dweud eu bod yn fodlon iawn â'r gwasanaethau. Er enghraifft, dywedodd Cyngor ar Bopeth fod boddhad cleientiaid yn 98% drwy gydol 2019/20¹⁹, gydag 89% o bobl yn debygol neu'n debygol iawn o argymhell y gwasanaeth i eraill.



¹⁹ Ewch i: <https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Governance/Annual%20Report-2019-20.pdf>

Ni ofynnwyd i dderbynwyr y grant gofnodi a chyflwyno data sy'n ymwneud â'r canlyniadau penodol a gyflawnwyd ar gyfer pob cleient oherwydd cymhlethdod cofnodi'r rhain yn gyson ar draws ystod eang o broblemau a mathau o gyngor. Fodd bynnag, mae rhai o'r canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer cleientiaid a amlinellwyd yn yr astudiaethau achos wedi bod yn sylweddol, fel y dangosir yn yr enghreifftiau yn Ffigur 23 a Ffigur 24.


Ffigur 23: Astudiaeth achos partner LSLIP lleol

Astudiaeth achos Cam 1	
Cyflogai a wynebodd wahaniaethu yn ei erbyn yn y gwaith wedi cael cymorth i gymryd y camau angenrheidiol a sicrhau iawndal	
Problem 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cysylltodd cleient â'r gwasanaeth drwy linell gymorth benodol gan ei fod wedi cael ei ddiswyddo'n sydyn heb unrhyw rybudd, ymgynghori neu ystyried cyflogaeth arall addas ymlaen llaw. Roedd y cleient yn ddyslecsig a dywedwyd wrthi nad oedd fod i ddefnyddio'r tiliau na'r peiriant coffi gan ei bod yn rhy 'araf'. Roedd yr hawlydd hefyd yn aml yn cael sylwadau diraddiol am ei gallu gydol ei chyfnod yn y swydd.
Cam Gweithredu 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Credai'r hawlydd fod y cyflogwr wedi dibynnu ar y rheswm cyfreithlon posibl dros ddiswyddo (dileu swydd) i derfynu ei contract cyflogaeth o ganlyniad i'r ffaith ei bod yn ei chael hi'n anodd cyflawni a gweithredu dyletswyddau til a pheiriannau coffi, o'i gymharu â staff eraill. ➤ Rhoddodd y gwasanaeth gymorth i'r cleient gael gafael ar wasanaeth Cymodi Cynnar Acas ac aeth ymlaen gyda hawliad y cleient mewn Tribiwnlys Cyflogaeth.
Canlyniad 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Caniataodd y Tribiwnlys Cyflogaeth y cais a rhestrodd Wrandawiad Rhwymedi i'w gynnal. Aeth y gwasanaeth gyda'r cleient a'i gynrychioli yn y Gwrandawiad Rhwymedi a llwyddodd i gael dyfarniad iawndal gwerth dros £19,000 ar ei rhan.

Ffigur 24: Astudiaeth achos partner LSLIP rhanbarthol

Astudiaeth achos Cam 2	
Cefnogi cleient agored i niwed i gyflwyno gwaharddeb yn erbyn ei phartner	
Problem 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cysylltodd cleient â Chyngor ar Bopeth ar ôl cael cyngor gan yr heddlu i geisio gwaharddeb yn erbyn tad ei phlentyn heb ei eni i amddiffyn ei hun a'i theulu rhag ymddygiad ymosodol a rheolaethol ei chynbartner. Dywedodd y cleient ei fod yn teimlo'n ofnus o'i chynbartner, ar ôl dioddef pyliau o ddieter, a oedd wedi cynnwys camdriniaeth gorfforol a geiriol ar brydiau. ➤ Fel mam plentyn ifanc, gyda babi i fod i gyrraedd yn y misoedd nesaf, eglurodd y cleient y byddai'r waharddeb yn ei helpu i barhau â'i bechiogrwydd gan deimlo'n ddiogel.
Cam Gweithredu 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cafodd y cleient wybodaeth/cyngor cychwynnol ynghylch sefydliadau cymorth a gweithdrefnau brys (h.y. cysylltu ag asiantaethau cymorth cam-drin domestig a'r heddlu). ➤ Bu Prosiect Mynediad at Gyfiawnder Cyngor Ar Bopeth yn helpu'r cleient i ddrafftio a gwneud cais am waharddeb frys gyda'r nod o atal y

Astudiaeth achos Cam 2

	cynbartner rhag harasio'r cleient, neu ddod i gysylltiad corfforol â hi a'i theulu.
Canlyniad 	➤ Derbyniodd y llys gais y cleient a chaniatawyd y waharddeb, i'w hadolygu ar ôl 6 mis. Roedd hyn yn galluogi'r cleient i barhau â'i beichiogrwydd heb ofn ac roedd yn darparu ateb diogelu hirdymor i'w hamddiffyn hi a'r plant.

Tabl 22: Canlyniadau boddhad cleientiaid ar gyfer yr holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol, o'u cymharu â chleientiaid sydd â phroblemau teuluol a chyflogaeth

	Pob maes o gyfraith			Aelodau'r teulu			Cyflogaeth		
	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur
Mae cleientiaid yn gwneud hunanasesiad cadarnhaol o ansawdd y gwasanaethau a boddhad gyda'r canlyniadau.	81%	590	6	93%	220	4	58%	210	3

Tabl 23: Canlyniadau boddhad cleientiaid ar gyfer yr holl gleientiaid LSLIP lleol a rhanbarthol, fesul cam²⁰

	Cam 1			Cam 2			Cam 3a a 3b		
	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur	% wedi'i gyflawni	Maint y sampl	Derbynwyr y grant yn mesur
Mae cleientiaid yn gwneud hunanasesiad cadarnhaol o ansawdd y gwasanaethau a boddhad gyda'r canlyniadau.	60%	170	1	75%	110	2	95%	220	3

²⁰ Mae'n bosibl na fydd y niferoedd hyn yn cyfateb i'r niferoedd yn Nhabl 22, gan fod rhai canlyniadau'n cael eu nodi fel rhai 'traws-gam' nad ydynt yn cael eu cofnodi yma.

6.6 Ffactorau a oedd yn cefnogi ac yn llesteirio'r broses o ddarparu gwasanaethau LSLIP

Y Prif Bwyntiau

- Mae pandemig Covid-19 wedi creu heriau a chyfleoedd i sefydliadau cynghori ddarparu ffyrdd digidol ac anghysbell o weithio.
- Roedd hyrwyddo gwasanaethau yn codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael ac yn cynyddu eu cyrhaeddiad ymhlith y cyhoedd a mudiadau cefnogi eraill.
- Mae capasiti cynyddol gwasanaethau LSLIP wedi galluogi dull mwy cyfannol o ddatrys problemau a chyrraedd cleientiaid yn gynharach.
- Mae gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys dulliau cyfathrebu cryf, ymddiriedaeth a pherthynas, a rhannu gwybodaeth a phrosesau, wedi arwain at berthynas gryfach rhwng sefydliadau i gadarnhau cysylltiadau cyfeirio ac atgyfeirio, ac wedi ehangu cwmpas y cyngor sydd ar gael.
- Er hynny, mae angen rhagor o fuddsoddiad mewn hyfforddiant er mwyn helpu gwirfoddolwyr i lywio system gymhleth cymorth cyfreithiol a gwneud atgyfeiriadau perthnasol ac amserol.

Mae'r adran hon yn edrych ar y ffactorau a fu'n gymorth ac yn rhwystr i ddarparu gwasanaethau LSLIP, er mwyn cynnig cyd-destun ar gyfer sut y cyflawnwyd y canlyniadau a ddarparu gwersi i'w cyflwyno ymhellach ar gyfer y sector. Mae'n seiliedig yn bennaf ar y cyfweiliadau canol-grant lled-strwythuredig ac adroddiadau monitro rheolaidd, lle cafwyd sylwadau gan fudiadau ar yr hyn y teimlwyd ei fod yn gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella.

Mae pandemig Covid-19 wedi cyflwyno heriau a chyfleoedd i sefydliadau cynghori.

Gyda chyfyngiadau Covid-19 yn gorfodi cau swyddfeydd a gweithio gartref, mae sefydliadau cynghori wedi addasu eu gwasanaethau'n gyflym i gael eu darparu o bell, er mwyn diogelu staff, defnyddwyr a gwirfoddolwyr yn ystod pandemig Covid-19 a chydymffurfio â chyfyngiadau symud. Roedd y prosesau a'r addasiadau newydd hyn i systemau a dulliau newydd o ddarparu cyngor yn creu heriau a chyfleoedd i dderbynwyr y grant. Soniodd llawer o dderbynwyr y grant am eu balchder wrth addasu eu ffyrdd o weithio i gynnwys y cyfyngiadau hyn.

“Dydw i ddim yn meddwl ein bod ni wedi rhagweld y byddem ni mewn sefyllfa o’r fath gyda Covid, ond byddwn i’n petruso rhag dweud ei fod wedi effeithio’n andwyol ar y ddarpariaeth, rydw i’n meddwl ein bod ni wedi gorfod ailystyried rhai elfennau ac mae wedi gweithio’n dda dan yr amgylchiadau.” (Dorset a De Gwlad yr Haf)

Soniodd nifer o dderbynwyr y grant am sut mae’r ffyrdd digidol ac anghysbell o weithio a roddwyd ar waith mewn ymateb i’r pandemig wedi cefnogi gweithio mewn partneriaeth, gan y gallai sefydliadau gyfeirio cleientiaid at sefydliadau ar draws lleoliadau daearyddol ehangach. Roedd gweithio o bell hefyd yn helpu gyda heriau recriwtio gan nad oedd angen i staff fyw a gweithio yn y dref y lleolwyd y gwasanaeth ynddi mwyach, gan ehangu’r ymgeiswyr posibl a allai wneud cais rhesymol am swyddi.

Mae llawer o gleientiaid wedi bod yn barod i dderbyn y dulliau newydd hyn o gefnogaeth gan eu bod yn fwy hyblyg ac addas i’w hanghenion a’u ffordd o fyw. Er enghraifft, mae partneriaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi bod yn defnyddio WhatsApp fel adnodd i rannu dogfennau, gan ddefnyddio DocuSign i alluogi llofnodi digidol, ac amseroedd apwyntiad byrrach i gynnig hyd at dri apwyntiad o bell dros y ffôn.

“Mae’r pandemig wedi galluogi cleientiaid i fod yn fwy parod i dderbyn y dull hwn o weithio ac addasu i apwyntiadau o bell. Roedden ni’n gallu bod yn arloesol, er enghraifft drwy gael apwyntiad gyda chyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain ac ychydig iawn o broblemau rydyn ni wedi’u cael o ran cael gafael ar wasanaethau o bell drwy ddefnyddio’r gwasanaeth ffôn neu ddefnyddio WhatsApp i gyfathrebu a rhannu dogfennau.” (Gogledd a Chanolbarth Cymru)

Fodd bynnag, roedd y dulliau o bell hyn yn achosi heriau i gleientiaid â gwendidau difrifol a phroblemau iechyd meddwl a chorfforol cymhleth, a oedd angen cymorth wyneb yn wyneb gan rywun roeddent yn ymddiried ynddo. Roedd y dulliau o bell hyn hefyd yn cyfyngu ar y cyfle i nodi problemau eraill yr oedd cleientiaid yn eu hwynebu neu i nodi unrhyw wendidau cudd neu annisgwyl.

Soniodd llawer o bartneriaethau am ddefnyddio dulliau hybrid o apwyntiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb er mwyn diwallu anghenion y rheini sy’n fwy galluog yn ddigidol a’r rheini sy’n agored i niwed sydd angen apwyntiadau wyneb yn wyneb. Bydd y dulliau hybrid hyn

yn parhau i ddarparu dulliau cyfathrebu lluosog i gleientiaid wrth i gyfyngiadau'r pandemig gael eu llacio ac wrth i apwyntiadau wyneb yn wyneb ailddechrau.

Er mwyn ehangu data a thystiolaeth yn y maes hwn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ATJF yn cynnal rhagor o ymchwiliad i fodolau darparu cyfunol²¹, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â gwahanol ddulliau darparu, a'r cleientiaid a'r problemau y mae'r gwahanol sianeli cyfathrebu hyn yn gweithio'n dda iddynt.

Roedd rhai o'r partneriaid cenedlaethol eisoes yn cynnig gwasanaethau o bell ac ar-lein cyn pandemig Covid-19, felly roedd ganddynt sail ar gyfer uwchraddio ac addasu i wasanaeth cwbl anghysbell yn ystod y cyfyngiadau symud a osodwyd, ac felly nid oedd yn rhaid iddynt addasu eu gweithgareddau yn yr un ffordd â dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant. Fodd bynnag, nododd Law for Life fod y pandemig yn golygu bod mwy o bobl yn fwy cyfarwydd â gwasanaethau digidol ac awgrymodd fod hyn yn golygu bod eu gwasanaethau (yn enwedig Affordable Advice) yn gallu cyrraedd cynulleidfa fwy nag y byddent wedi'i wneud fel arall. Support Through Court oedd y partner cenedlaethol yr effeithiwyd fwyaf arno a bu'n rhaid i'r gweithgareddau a ariannwyd ganddo symud oddi wrth bodiau ffisegol mewn adeiladau llys a reolir gan wirfoddolwyr at ddarparu'r rhan fwyaf o'r cymorth o bell.

Roedd angen i holl dderbynwyr y grant fod yn ymwybodol o'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi a ddaeth i rym mewn ymateb i'r pandemig, fel yr ataliad dros dro ar droi allan a chamau gorfodi. Roedd y pandemig yn golygu bod camau deddfwriaethol eraill oedd wedi'u cynllunio (fel y Ddeddf Atebolrwydd Sifil) wedi cael eu gohirio, sydd wedi cael effaith ddilynol ar ffrydiau gwaith eraill sydd wedi'u cynllunio gan dderbynwyr y grant, gan gynnwys cynlluniau Law for Life i ddiweddarau a chyflwyno canllawiau newydd ar Advicenow.

²¹ Mae'r prosiect ymchwiliad ansoddol hwn yn ceisio rhoi cipolwg ar sut mae dulliau darparu cyngor wedi newid ymysg sefydliadau LSLIP ers mis Mawrth 2020. Yn gyntaf, mae'n ceisio deall i ba raddau y mae mudiadau'n darparu cyngor wyneb yn wyneb, cyngor o bell, neu gyfuniad o bob un, i ddiwallu anghenion cyfreithiol cleientiaid sy'n wynebu problemau tai, dyled neu les. Yn ail, mae'n ceisio deall sut mae'r cleientiaid eu hunain yn gweld y dulliau cynghori hyn, drwy ymchwilio i ba mor ddefnyddiol y mae cleientiaid yn dod o hyd i gyngor wyneb yn wyneb, o bell neu gyfunol. Yn drydydd, mae'n ceisio darparu gweledigaeth ar gyfer y rôl briodol y dylai pob un o'r dulliau gwahanol hyn ei chwarae wrth ddarparu cyngor yn y dyfodol i sicrhau bod yr anghenion cyfreithiol yn cael eu diwallu'n effeithiol ar draws y tri maes cyfraith hyn.

Roedd hyrwyddo gwasanaethau yn codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael ymysg y cyhoedd a sefydliadau cefnogi eraill, er mwyn cynyddu eu cyrhaeddiad.

Nododd nifer o dderbynwyr y grant fod eu prosiect LSLIP wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau cyffredinol ymysg y cyhoedd a sefydliadau eraill yn eu hardal leol, sydd wedi eu gwneud yn fwy amlwg er mwyn hyrwyddo cyngor cynnar. Soniodd sawl sefydliad am sut yr oedd yr ymwybyddiaeth gynyddol hon wedi helpu i oresgyn y camsyniadau am gyngor cyfreithiol a chynyddu hygredd eu gwasanaethau, yn enwedig o'i gymharu â'r sector cyfreithiol masnachol.

“Mae'r prosiect wedi galluogi mwy o ymwybyddiaeth o ansawdd y gwasanaeth sydd ar gael a mwy o gysylltiadau â phartneriaid masnachol gan gynnwys gwasanaethau Rhwydwaith Cyfiawnder i fod o fudd i gleientiaid a bod yn fwy cyfartal o ran y cyngor a'r gefnogaeth sydd ar gael o'i gymharu â'r sector masnachol.” (Gogledd a Chanolbarth Cymru)

Mae ar dafod leferydd wedi bod yn bwysig i godi ymwybyddiaeth ymysg y partneriaethau ehangach, ond mae sawl derbynnydd y grant hefyd wedi ymgymryd â gweithgareddau penodol i hyrwyddo eu gwasanaethau. Er enghraifft:

Mae partneriaeth Dorset a De Gwlad yr Haf wedi bod yn ymgysylltu â'r cyngor lleol i wneud y prosiect yn fwy amlwg ac i frifio aelodau'r cyngor ynghylch y math o waith sy'n cael ei wneud.

Mae nifer o bartneriaethau, gan gynnwys Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhirfryn, a Dyfnaint a Chernyw, wedi bod yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w gwasanaethau ar gyfryngau cymdeithasol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyngor sydd ar gael a thrafod ymgyrchoedd cymunedol lleol.

Mae nifer o bartneriaethau, gan gynnwys Dyfnaint a Chernyw, Suffolk a Norfolk, a Dwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr, wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau gyda rhanddeiliaid lleol eraill gan gynnwys canolfannau plant, elusennau cam-drin domestig, ysgolion cynradd, safleoedd teithwyr, awdurdodau lleol a chyfryngwyr dibynadwy eraill, er mwyn ymgysylltu â grwpiau cleientiaid newydd ac ehangu a sefydlu llwybrau atgyfeirio newydd.

Mae sawl partneriaeth yn cynnal prosiectau gyda phrifysgolion lleol. Mae'r 8 ganolfan Cyngor ar Bopeth Leol o fewn partneriaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi

cydweithio'n agos â Phrifysgol Bangor, gan hyfforddi myfyrwyr i ddod yn gynghorwyr cyffredinol ac ymchwilio i fanteision a heriau darparu cyngor ar-lein. Mae partneriaeth Dwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi dechrau prosiect gyda Phrifysgol Dinas Birmingham i archwilio sut i gynyddu addysg gyfreithiol gyhoeddus, ac mae Dyfnaint a Chernyw wedi bod yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau gyda Chlinig Cyfraith Prifysgol Caerwysg i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i'r gymuned leol. Mae LawWorks yn gweithio'n agos gyda Phrifysgolion ac Ysgolion y Gyfraith i ymgysylltu â'r garfan iau o gyfreithwyr sy'n chwilio'n frwd am gyfleoedd pro bono.

Mae LawWorks wedi hyrwyddo Free Legal Answers gyda sawl asiantaeth gyfeirio, gan recordio fideos llawn gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r plattform a chynnig hyfforddiant cynefino i sefydliadau er mwyn sicrhau atgyfeiriadau priodol ac effeithiol. Mae cyfreithwyr pro bono yn ganolog i Free Legal Answers, felly mae LawWorks yn bwriadu ymgysylltu'n ehangach â chyfreithwyr sydd ag arbenigedd mewn meysydd cyfraith eraill ac annog cyfreithwyr eraill o sefydliadau sy'n rhan o'r broses i gymryd rhan. Fel rhan o hyn, mae LawWorks yn cyfweld cyfreithwyr i ddeall yn well beth sy'n eu cymell i gofrestru ar gyfer Free Legal Answers ac i ganfod a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau posibl. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt hefyd gyda Chanolfannau'r Gyfraith i ganfod sut y gallant ddefnyddio'r porth.

Cododd Support Through Court ymwybyddiaeth o'u gweithgareddau drwy'r swyddfeydd Support Through Court lleol. Mae gan bob swyddfa gyswllt lleol a chysylltiadau cryf â sefydliadau cynghori eraill yn eu hardal.

Mae'r gweithgareddau hyn a'r gwaith partneriaeth agos wedi codi ymwybyddiaeth o wasanaethau LSLIP sydd wedi cynyddu'r cyfleoedd i gleientiaid gael gafael ar wasanaethau, hyrwyddo cyngor cynnar, a mwy o atgyfeiriadau. Fodd bynnag, nododd nifer o dderbynwyr y grant ei bod wedi bod yn hanfodol cynnal a rheoli'r llwybrau atgyfeirio hyn yn weithredol gan y gall cleientiaid sy'n dod i'r gwasanaeth o'r llwybrau newydd hyn fod â disgwyliadau heriol o'r gwasanaeth a'r canlyniadau ar gyfer eu problem, sy'n gallu bod yn anodd i'w cynghorwyr. Ategwyd y canfyddiad hwn yn y gwerthusiad o Gynllun Gwasanaeth Cyngor Arbenigol Covid-19²² sy'n cynnwys effaith y Gronfa Cyfiawnder Cymunedol.

²² Ewch i: <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-specialist-advice-service-scheme-end-of-grant-report>

Mae'r capasiti cynyddol yn y rhwydwaith LSLIP wedi galluogi sefydliadau i fabwysiadu dull mwy cyfannol o ddatrys problemau a chyrraedd cleientiaid yn gynharach.

Mae llawer o dderbynwyr y grant wedi sôn am sut mae cyllid LSLIP wedi eu galluogi i feithrin capasiti ychwanegol yn eu sefydliad er mwyn cynyddu dyfnder ac ehangder y cymorth sydd ar gael i gleientiaid a llenwi bylchau blaenorol yn y gwasanaethau a gynigir. Mae hyn wedi golygu bod llawer o dderbynwyr y grant wedi gallu ehangu eu cyrhaeddiad daearyddol, cynnig cyngor mewn mwy o feysydd cyfreithiol nag o'r blaen, a chynnig ystod ehangach o gyngor ar hyd y daith datrys problemau. I lawer o dderbynwyr y grant, roedd galw ers tro byd am gyngor yn y meysydd hyn ac roedd y cyllid yn eu galluogi i ddechrau mynd i'r afael â'r bylchau yn eu darpariaeth gwasanaeth, cefnogi ymyriadau cynharach a darparu gwasanaeth mwy cyfannol. Llwyddodd partneriaeth Dyfnaint a Chernyw i ddiwallu'r angen hirsefydlog am gyngor i deuluoedd ac roedd partneriaeth Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhirfryn yn gallu helpu cleientiaid gyda materion cyflogaeth.

“Doedden ni ddim wedi rhagweld y byddem yn cael cyllid ac roedden ni'n ymwybodol o'r bwch yn y galw. Roedd ein gweledigaeth yn cael ei datblygu gyda chyllid blaenorol ond roedd LSLIP yn golygu bod modd hwyluso hyn.” (Dyfnaint a Chernyw)

Mynegodd partneriaid cenedlaethol y grant farn debyg. Roedd Law for Life yn gallu ariannu ymchwil nad oedd modd ei wneud o'r blaen, gan gynnwys datblygu fframweithiau gwerthuso ar gyfer eu gwasanaethau, mireinio arolygon defnyddwyr ar Advicenow ac archwilio cwestiynau ymchwil cyffredinol am ymglyfreithwyr drostynt eu hunain, gallu cyfreithiol a'r rhwystrau i gael gafael ar gymorth digidol. Dywedodd LawWorks fod cyllid LSLIP wedi rhoi mwy o adnoddau, hyder a sefydlogrwydd iddynt er mwyn gweithredu ac ehangu Free Legal Answers yn effeithiol a chynllunio ar gyfer dyfodol y plattfform.

Arweiniodd gwaith partneriaeth LSLIP at berthynas gryfach rhwng sefydliadau, sy'n darparu cysylltiadau cyfeirio ac atgyfeirio cadarn, ac sy'n ehangu cwrmpas y cyngor sydd ar gael.

Roedd cael amrywiaeth o sefydliadau ym mhob partneriaeth gyda darparwyr gwasanaeth gwahanol yn golygu y gallai'r partneriaethau hyn gynnig cefnogaeth gyfannol i gleientiaid a rhoi sylw i bob elfen o'u materion yn gynt, eu datrys yn gynt ac atal y problemau hyn rhag gwaethygu.

“Mae model yr LSLIP wedi cynyddu’r cymorth a ddarperir i gleientiaid drwy eu taith ac wedi caniatáu i ddull gweithredu gael ei roi ar waith yn effeithiol sy’n gweithio ac yn arbed amser i’r llys ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gleientiaid.” (Dyfnaint a Chernyw)

Er enghraifft, roedd y bartneriaeth rhwng Support Through Court ac RCJ Advice yn golygu bod modd darparu cymorth parhaus rhwng y ddau sefydliad drwy ddulliau atgyfeirio ffurfiol y gellir ymddiried ynddynt. Cyn hyn, dim ond at gymorth cyfreithiol yr oedd Support Through Court wedi gallu cyfeirio eu cleientiaid ac nid oeddent yn gallu hwyluso mynediad uniongyrchol at gyngor cyfreithiol arbenigol, a oedd yn golygu nad oedd y cleientiaid hyn yn ceisio datrys eu mater cyfreithiol o gwbl.

“Y gefnogaeth barhaus sy’n gwahanu’r prosiect hwn oddi wrth unrhyw un o’r rheini. Mae’r ffaith ein bod yn rhoi cyngor cyfreithiol a’n bod yn gwybod y bydd rhywun yn parhau i gynnig y gefnogaeth honno i’r cleient drwy ei daith yn gwbl unigryw.” (RCJ Advice)

Soniodd nifer o dderbynwyr y grant, gan gynnwys Gogledd a Chanolbarth Cymru, Dorset a De Gwlad yr Haf, a Dyfnaint a Chernyw, am sut y gwnaethant adolygu a chryfhau eu prosesau atgyfeirio er mwyn cydlynu’n effeithiol ac yn effeithlon gyda phartneriaid LSLIP a sefydliadau allanol. Bu’r atgyfeiriadau hyn yn gweithio’n arbennig o effeithiol i’r partneriaethau gyda systemau brysbennu cadarn, wedi’u hintegreiddio’n dda, a allai gasglu a dadansoddi anghenion cleientiaid yn gywir, cyn cyfeirio cleientiaid ymlaen. Drwy ganoli’r gwaith cychwynnol hwn o gasglu a brysbennu data, gallai’r gweithwyr achos ganolbwyntio ar ddarparu cyngor a theilwra eu cyngor i anghenion cleientiaid. Mae’r systemau data a rennir hyn hefyd wedi galluogi sefydliadau i asesu ac olrhain cleientiaid agored i niwed yn well gyda nifer o broblemau.

“Mae’r rhaglen wedi cefnogi rhagor o bwyntiau mynediad drwy daith cleient a sut maen nhw’n cael eu cofnodi.” (Canolbarth Gogledd Swydd Efrog)

Mae’r partneriaethau LSLIP wedi creu sylfaen gref lle’r oedd pob un o dderbynwyr y grant yn adeiladu arni a’i hehangu ymhellach. Er enghraifft, ffurfiodd partneriaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru gysylltiadau â’r Grŵp Cyfiawnder ac Arloesi, a chyd-drefnodd partneriaeth Dyfnaint a Chernyw fwrdd crwn cyngor cyfreithiol yn ne-orllewin Lloegr. Mae

hyn wedi rhoi cwrdd ehangach fyth i'r partneriaethau hyn, rhwydwaith ehangach o sefydliadau atgyfeirio a mwy o gyfle i rannu gwybodaeth a dysgu.

“Ehangu cyrhaeddiad drwy allu adnabod, cysylltu a chydweithio ag asiantaethau ac elusennau lleol eraill heb eu cyffwrdd sydd â phrofiadau uniongyrchol o'r materion hyn.” (Suffolk a Norfolk)

Mae'n ymddangos bod lle i fwy o atgyfeiriadau rhwng y derbynwyr lleol/rhanbarthol a chenedlaethol y grant.

Mae cynyddu'r atgyfeiriadau i'w gwasanaethau yn ffocws allweddol ar bwynt hwn y grant ar gyfer Support Through Court a LawWorks, sydd wedi cael llai o atgyfeiriadau i'w gwasanaethau gan y derbynwyr grantiau lleol a rhanbarthol nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Soniodd Support Through Court am y diddordeb cynyddol a'r rhyngweithio sy'n digwydd gyda gwasanaethau LSLIP eraill drwy eu swyddfeydd Support Through Court lleol, gan gynnwys sefydlu cyswllt â phartneriaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru drwy swyddfa Caerdydd, partneriaeth Dyfnaint a Chernyw drwy swyddfeydd Bryste a Chaerwysg, a chysylltu â phartneriaeth Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhirfryn a LawWorks. Soniodd Support Through Court am sut y bydd datblygu'r cysylltiadau hyn yn allweddol ar gyfer ail flwyddyn LSLIP, i ymestyn gweithgarwch cyfeirio ac atgyfeirio.

Mynegodd LawWorks yr awydd i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau a mynediad at Free Legal Answers, drwy gynyddu nifer y cleientiaid a gyfeirir at y platfform gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau'n deillio o Support Through Court. Roedd y model Free Legal Answers cychwynnol yn cynnwys elfen o gymorth digidol, gyda chyfryngwyr a chynghorwyr dibynadwy yn helpu defnyddwyr i ymgysylltu â'r llwyfan, felly mae LawWorks yn rhagweld cynnydd mewn ymgysylltu wrth i apwyntiadau wyneb yn wyneb ailddechrau.

“Mae her o hyd o ran cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r FLA. Roedd y model cychwynnol yn ymwneud â sefydliadau'n cyfeirio ond hefyd am wasanaethu staff i helpu cleientiaid i ymuno â'r wefan. Roeddem yn disgwyl y byddai mwy o bobl yn cael eu cyfeirio ac mae angen deall sut mae gwasanaethau eraill yn defnyddio ac yn cyfeirio at y gwasanaeth.” (LawWorks)

Soniodd nifer o dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant am sut roeddent yn defnyddio'r gwasanaethau LSLIP cenedlaethol, ond yn bennaf fel ffynhonnell wybodaeth ac arweiniad. Mae tua 11% o ddefnyddwyr Advicenow yn gynghorwyr ac mae 6% o ddefnyddwyr mewn rôl wirfoddol neu broffesiynol arall, sy'n awgrymu bod eu gwybodaeth a'u harweiniad yn cael eu defnyddio gan fudiadau yn ogystal ag unigolion sy'n dysgu eu hunain. Mynegodd Law for Life awydd i nodi a hwyluso gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er mwyn galluogi mwy o gleientiaid i ddefnyddio'u hadnoddau, ond mae materion sy'n ymwneud ag amser a chapasiti wedi cyfyngu ar eu potensial i ddatblygu'r cysylltiadau hyn.

Disgrifiwyd cryfhau'r cysylltiadau hyn â phartneriaid LSLIP cenedlaethol fel sgwrs sy'n esblygu, gyda rhagor o drafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch sut i gadarnhau'r cysylltiadau hyn mewn llwybrau atgyfeirio. Eglurodd rhai derbynwyr y grant eu bod yn gwerthfawrogi ffynhonnell yr wybodaeth a'r arweiniad ond nad oeddent o reidrwydd yn cyfeirio cleientiaid at y gwasanaethau hyn gan fod eu cleientiaid yn aml yn fregus iawn ac yn wynebu argyfwng ac na fyddent yn gallu delio â'r cynigion digidol hyn yn effeithiol. Roedd pryder petaent yn cyfeirio cleientiaid at y gwasanaethau hyn ac nad oeddent yn gallu cael gafael ar gymorth, y byddai eu problemau'n gwaethygu ac yn arwain at ganlyniadau gwaeth. Nododd derbynwyr eraill y grant fod eu partneriaethau LSLIP yn gallu rhoi sylw i faterion yn lleol o fewn eu rhwydweithiau ac nad oedd angen iddynt gyfeirio cleientiaid i rywle arall.

Nododd ambell i dderbynnydd y grant fod angen amser ac adnoddau i hwyluso'r cysylltiadau hyn gyda'r sefydliadau cenedlaethol, ond eu bod yn rhagweld ail flwyddyn yr LSLIP i gyflwyno cyfleoedd i ddod o hyd i ffyrdd o weithio'n agosach gyda gwasanaethau ar lefel genedlaethol. Yn ystod hanner olaf 2021, roedd derbynwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y grant wedi cynyddu eu dulliau cyfathrebu o ddydd i ddydd drwy fforwm ar-lein preifat a ddarparwyd gan ATJF a'r Rhwydwaith dros Gyfiawnder, ac mae gwasanaethau cenedlaethol wedi dangos eu gwasanaethau. Mae hyn wedi cynyddu lefel y dulliau dysgu ar y cyd ar faterion penodol, gwell dealltwriaeth o gapasiti o fewn y gwahanol bartneriaethau a mwy o effeithlonrwydd o ran gweinyddu drwy, er enghraifft, rannu templedi.

Soniodd nifer o dderbynwyr y grant sut mae meithrin perthynas gref â'r sefydliadau yn eu partneriaethau wedi bod yn allweddol i feithrin ymddiriedaeth a pherthynas rhwng gwasanaethau, cynnal prosesau cyfathrebu rheolaidd, creu llwybrau atgyfeirio effeithiol a goresgyn unrhyw heriau ar y cyd.

Soniodd nifer o dderbynwyr y grant sut mae meithrin perthynas gref â'r sefydliadau yn eu partneriaethau wedi bod yn allweddol i feithrin ymddiriedaeth a pherthynas rhwng gwasanaethau, cynnal dulliau cyfathrebu rheolaidd, creu llwybrau atgyfeirio effeithiol a goresgyn unrhyw heriau ar y cyd. Roedd hyn yn eu galluogi i ddarparu un daith ddi-dor i gleientiaid a chyfathrebu mewn un llais fel rhan o'u partneriaethau.

Er mwyn meithrin y cysylltiadau hyn, sefydlodd derbynwyr y grant grwpiau llywio prosiectau a gweithgorau llai er mwyn annog staff rheng flaen i gydweithio a chynyddu eu gwybodaeth am yr hyn y mae pob sefydliad yn ei gynnig, adolygu prosesau cyfeirio, hyfforddi gwirfoddolwyr a staff ar brosesau newydd, a diwygio eu systemau rheoli data er mwyn iddynt allu olrhain a chefnogi cleientiaid drwy gydol eu problem gyfreithiol. Roedd nifer o bartneriaid gwasanaeth eisoes wedi cydweithio o'r blaen (e.e. canghennau Cyngor ar Bopeth Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru a Phrifysgol Bangor, a nifer o wasanaethau o fewn partneriaeth Dorset a De Gwlad yr Haf) a oedd yn golygu bod ganddynt eisoes sylfaen gref i adeiladu arni a oedd o fudd i'r broses o sefydlu a darparu'r prosiect.

Soniodd nifer o dderbynwyr y grant am yr anawsterau a oedd yn gysylltiedig â datblygu perthnasoedd o bell, a sut roedd hyn yn gwneud hyfforddi, gweinyddu a chydlynu rhwng gwasanaethau yn fwy heriol. Roedd hyn yn arbennig o wir am sefydliadau partner llai nad oedd ganddynt yr un lefel o adnoddau i'w buddsoddi i feithrin y cysylltiadau hyn neu i gasglu'r data a'r dystiolaeth angenrheidiol.

Roedd y gweithgareddau hyn yn fwy heriol i bartneriaethau gyda sefydliadau o wahanol rwydweithiau, a oedd yn aml â gwahanol strwythurau gwasanaeth, ffyrdd o weithio, systemau rheoli achosion a therminoleg/iaith. Er enghraifft, mae gan Support Through Court ac RCJ Advice feini prawf cymhwysedd gwahanol ar gyfer eu gwasanaethau, a allai arwain at anawsterau wrth drosglwyddo rhwng y ddau wasanaeth. Mae dulliau cyfathrebu rheolaidd wedi bod yn hanfodol i gefnogi cydweithio rhwng cyfreithiwr RCJ Advice a gwirfoddolwyr STC i fynd i'r afael â materion fel hyn, ac unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg yn y dyfodol. Soniodd partneriaeth Canolbarth Gogledd Swydd Efrog am sut yr oedd cyd-oruchwyliaeth staff wedi helpu i greu ymdeimlad o gyfrifoldeb a oedd yn hwyluso dysgu ehangach rhwng gwasanaethau. Er y gallai pontio'r bylchau rhwng gwahanol sefydliadau a rwydweithiau fod yn heriol ar brydiau, ymddengys mai dyma lle mae rhai o'r cyfleoedd mwyaf i gynyddu ehangder a dyfnder y cyngor sydd ar gael.

“Mae ymgysylltu rhwng Canolfan y Gyfraith a Chyngor ar Bopeth wedi bod yn allweddol yn y gwaith o ddatblygu cysylltiadau a chydweithio’n agos. Bellach, mae modd ehangu’r model i Ganolfannau’r Gyfraith a Chyngor Ar Bopeth Lleol eraill er mwyn pontio’r bwlch rhwng cyngor cyffredinol a chyngor arbenigol.” (Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhirus)

Mae angen buddsoddi mewn hyfforddiant i helpu gwirfoddolwyr i lywio drwy’r system gymhleth o gymorth cyfreithiol a gwneud atgyfeiriadau perthnasol ac amserol.

Soniodd llawer o dderbynwyr y grant am y modd yr oedd angen hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr a chynghorwyr cyffredinol, i’w cefnogi i ganfod cyfleoedd atgyfeirio addas a’u gwneud ar gyfle amserol, yn enwedig wrth i’r partneriaethau a’r rhwydweithiau dyfu.

Mae rhai sefydliadau, megis Support Through Court, yn dibynnu’n drwm ar wirfoddolwyr sy’n gorfod defnyddio’u disgrisiwn wrth roi cleientiaid ar brawf neu eu cyfeirio at wasanaethau eraill. Roedd Support Through Court yn cydnabod bod hyn yn gallu bod yn anodd i’r gwirfoddolwyr, sydd ag amrywiaeth o alluoedd a dulliau gweithredu, ac felly mae perthnasedd atgyfeiriad yn cael ei gwestiynu weithiau. Mae gweithio gyda gwirfoddolwyr yn gofyn am fwy o oruchwyliaeth na staff cyflogedig ond mae awydd gan Support Through Court ac RCJ Advice i ddatblygu hyder gwirfoddolwyr i ddefnyddio nifer o ddulliau a phwyntiau mynediad at gyngor cyfreithiol fel CourtNav a Free Legal Answers.

“Rydyn ni’n gofyn i wirfoddolwyr ddefnyddio lefel uchel o ddisgrisiwn a bydd rhai yn deall y broses hon ac eraill ddim. Dyma natur y gwaith. Rydyn ni’n ceisio annog a hyfforddi ac arwain, ond rydyn ni’n cydnabod mai dyma natur ac ystod y gwirfoddolwyr sy’n gweithio ar y prosiect.” (Support Through Court)

Cefnogwyd rhagor o ddulliau dysgu a datblygu sefydliadol gan sefydliadau a oedd yn rhannu arferion gorau â’r rhwydwaith LSLIP ehangach.

Soniodd llawer o dderbynwyr y grant sut roedd eu partneriaethau a’u rhwydwaith LSLIP ehangach wedi hwyluso dulliau dysgu a datblygu ehangach, drwy rannu arferion gorau a gwybodaeth. Er enghraifft, rhannodd partneriaeth Suffolk a Norfolk eu profiad o dreialu’r Gwasanaeth Bws Cyfiawnder, a arweiniodd at lawer o bartneriaid eraill yn mabwysiadu

cynghorwyr cyfreithiol symudol tebyg i'w helpu i gyrraedd cleientiaid mewn ardaloedd gwledig, gan ddysgu o brofiad Suffolk a Norfolk.

Roedd y dulliau dysgu a datblygu sefydliadol hwn yn croesi ffiniau rhwydwaith, gyda Chyngor ar Bopeth a Chanolfannau'r Gyfraith yn rhannu arbenigedd a deunyddiau, yn datblygu gwybodaeth am feysydd cyfreithiol arbenigol eraill, ac yn meithrin dealltwriaeth o sut i gydweithio'n gynhyrchiol. Roedd hyn yn cefnogi datblygu staff drwy gyfuno gwybodaeth am feysydd cyfreithiol arbenigol eraill i ddatblygu sgiliau cynghorwyr, hyfforddi staff a gwirfoddolwyr, cynyddu'r hyder i ddefnyddio rhwydweithiau cyfeirio a chefnogi cyfleoedd dysgu pellach.

“Rydyn ni'n meddwl yr un fath ac yn gwneud gwaith tebyg. Mae wedi bod yn galonogol ac yn braf gallu dysgu gan ein gilydd. Roedd Swydd Derby yn awyddus i ddysgu o waith myfyrwyr CELC. Roedd CELC yn awyddus i ddysgu o ffyrdd Swydd Derby o weithio a chael deunyddiau i elwa o rannu gwybodaeth.” (Dwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr)

7. Rheoli rhaglenni

Y Prif Bwyntiau

- Fe wnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder a derbynwyr y grant LSLIP fyfyrion ar y gwaith o reoli'r rhaglen yn ystod y flwyddyn gyntaf a nododd fod y cydweithio agos rhwng yr holl bartneriaid wedi bod yn allweddol i'r LSLIP i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i dderbynwyr grant a chynyddu effaith y cyllid.
- Roedd derbynnydd y grant yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y rhaglen LSLIP a'r cyfathrebu cefnogol gyda'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, a oedd yn galluogi sefydliadau i addasu eu darpariaeth i ymateb i anghenion cyfreithiol newydd a chanolbwyntio ar ddysgu a datblygu.
- Lluniodd y gwaith o fonitro ac adrodd ar ddata nifer o gyfleoedd dysgu a chymhlethdodau, ond roedd llawer o dderbynwyr y grant o'r farn bod y data a'r dystiolaeth a gasglwyd yn fuddiol ar gyfer darparu eu gwasanaeth a dangos lle mae galw cleientiaid yn cynyddu.
- Mae'r ystod eang o ddata meintiol ac ansoddol a gesglir gan bob derbynnydd y grant yn goleuo ac yn cefnogi trafodaethau polisi ynghylch ffyrdd o gefnogi ymglyfreithwyr drostynt eu hunain yn effeithiol.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder a sefydliadau derbynwyr y grant wedi gweithio'n agos dros flwyddyn gyntaf LSLIP i sefydlu prosiectau LSLIP, i addasu i ffyrdd newydd o weithio ac i sefydlu'r fframwaith casglu data ac adrodd. Mae'r adran hon yn edrych ar sawl agwedd ar reoli'r rhaglen, fel yr adlewyrchir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder a derbynwyr y grant LSLIP yn ystod cyfweiliadau lled-strwythuredig, er mwyn darparu gwersi ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol.

Mae cydweithio rhwng y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a derbynwyr y grant LSLIP wedi bod yn allweddol i'r LSLIP.

Mae'r cydweithio agos rhwng y partneriaid hyn wedi cefnogi derbynwyr y grant i wreiddio prosesau newydd, gan gynnwys llinellau cyfathrebu agored, addasu i faterion sy'n dod i'r

amllwg, gwneud penderfyniadau amlbwrpas, sefydlu nodau cyffredin a chynyddu effaith y cyllid.

Teimlai'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder ei fod wedi'i rymuso gan dîm dyrannu grantiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddefnyddio'u harbenigedd a'u gwybodaeth am y sector cynghori i lunio dulliau cynllunio a monitro'r rhaglen. Roedd hyn yn annog y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder i wneud addasiadau rhesymol a fyddai, yn eu barn nhw, o fudd i dderbynwyr y grant ac yn gymorth i'w cyflawni.

“...Rwy'n meddwl bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn gefnogol iawn o ran ceisio canfod pwy oedd yn gwneud beth. Rwy'n credu bod hyn wedi mynd yn eithaf da i raddau helaeth ac mae llawer o hyblygrwydd wedi bod o ran rhoi cynnig ar bethau, newid pethau, oherwydd rydyn ni i gyd yn cydnabod bod hyn yn newydd, felly rydw i'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn defnyddio'r math hwnnw o hyblygrwydd, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a derbynwyr y grant wedi bod yn gadarnhaol iawn.” (Y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder)

Teimlai tîm grantiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fod y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder wedi delio'n dda â rheoli grantiau LSLIP yn ystod blwyddyn gyntaf heriol. Mae nifer o staff newydd wedi ymuno â'r tîm rheoli grantiau ers i'r rhaglen ddechrau, ond mae arbenigedd eang y tîm ac uwch arweinwyr wedi sicrhau bod y grant wedi cael ei reoli'n dda drwy sefydlu cysylltiadau cadarnhaol, dulliau cyfathrebu cynnar a thryloywder gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod meysydd allweddol o ddiddordeb, risgiau parhaus, cynlluniau ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol, a'r sector cynghori yn ehangach.

Roedd y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder yn falch bod y dulliau cyfathrebu agored rheolaidd gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod sefydlu cychwynnol, er mwyn parhau i ddatblygu'r berthynas rhwng y ddau sefydliad. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd wedi helpu i rannu adborth, deall y newid yn y galw yn y sector, a myfyrio ar gynnydd pob adroddiad chwarterol.

Roedd rhai heriau cychwynnol wrth sefydlu'r rhaglen i ddechrau, a oedd wedi gwaethgu yn sgil dechrau'r pandemig.

Gan mai dyma'r tro cyntaf i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder redeg grant fel hyn, roedd disgwyl y byddai rhai heriau yn y broses sefydlu

gychwynnol, ond cafodd y rhain eu gwaethygu gan y pandemig, a oedd yn golygu addasiadau sylweddol i strwythur cychwynnol y grant LSLIP a darparu cyngor rheng flaen. Fodd bynnag, roedd y newidiadau hyn yn arwain at nifer o fanteision annisgwyl ac yn caniatáu mwy o gydweithio rhwng y ddau sefydliad. Roedd y berthynas waith gref a dulliau cyfathrebu rheolaidd yn sicrhau bod y grant yn symud ffocws yn effeithlon.

Mynegodd cydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder eu gwerthfawrogiad o'r ffordd y bu'r derbynwyr grant a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder yn gweithio gydag ymroddiad i ymateb i ofnion newydd a chylchdroi eu darpariaeth yn gyflym mewn ymateb i'r pandemig. Gyda dealltwriaeth o adnoddau a chyfyngiadau derbynnydd y grant, roedd y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder yn gallu darparu cefnogaeth a hyblygrwydd lle bo angen, i sicrhau bod sefydliadau'n gallu ymateb yn effeithiol i'r galw sy'n newid gan barhau i gyflawni amcanion y rhaglen.

Mynegodd derbynwyr y grant ymdeimlad cryf o falchder o ba mor gyflym y sefydlwyd eu gwasanaethau ac y gwnaethant ddechrau sicrhau llwyddiannau cadarnhaol i gleientiaid. Fodd bynnag, roedd y cyfnod sefydlu cychwynnol yn heriol yn gyffredinol o ganlyniad i orfod addasu gwasanaethau i ffyrdd newydd o weithio, gwella prosesau cyfeirio, sefydlu cysylltiadau rhwng gwasanaethau, recriwtio staff newydd a darparu ar gyfer y gofynion data a monitro, mewn cyfnod cymharol fyr.

Fel y soniwyd eisoes, mae recriwtio cynghorwyr cyfreithiol arbenigol ar gyfer LSLIP wedi bod yn heriol iawn, gan fod sefydliadau'n cystadlu â'r sector preifat sy'n gallu cynnig cyflogau mwy cystadleuol a chontractau tymor hwy, sy'n rhoi mwy o sefydlogrwydd a sicrwydd. Mae derbynwyr y grant wedi mynegi pryderon ynghylch eu gallu i gadw staff wrth i ddiwedd y cyfnod cyllido nesáu, wrth i'r aelodau staff hyn ddechrau chwilio am waith arall. Bydd hyn yn effeithio ar y gwasanaeth y gallant ei ddarparu, nifer y cleientiaid y gallant eu cyrraedd a'r canlyniadau y gallant eu cyflawni. Mae hwn yn fater ar draws y sector y mae'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder yn ymwneud ag ef drwy waith partneriaeth arall, gan gynnwys y Gronfa Cyfiawnder Cymunedol.

“Mae ceisio recriwtio pobl i'r proffesiwn pan mae'n ansefydlog o ran cyllid yn anodd iawn. Er mwyn cael system cyfraith lles cymdeithasol, mae angen pobl o safon uchel arnoch a'u cadw, ac ni fydd hyn yn digwydd gyda system ansefydlog. Cyn gynted ag y maen nhw eisiau symud ymlaen, prynu tŷ neu ddechrau teulu, byddan nhw'n mynd.” (Dwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr)

Roedd pa mor gyflym y llwyddwyd i sefydlu pethau ar y cychwyn hefyd yn her i'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, a fu'n gweithio'n gyflym gyda derbynwyr grantiau i sefydlu prosiectau, gan sefydlu systemau i reoli'r gofynion monitro ac adrodd, y gwahanol gyfnodau cyllido ar draws y ffrydiau cyllido, a darparu cyngor a chefnogaeth i dderbynwyr y grant. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod yn barhaus ac mae derbynwyr y grant yn parhau i gael cyfarfodydd rheoli grant un i un gyda'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder bob chwarter, sy'n rhoi cyfle i ofyn cwestiynau, trafod heriau a dod o hyd i atebion. Mae'r ymgysylltu agos hwn wedi helpu i oresgyn unrhyw broblemau cychwynnol. Ceir ymdeimlad cryf o falchder ymysg tîm rheoli grantiau'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder tuag at y gwaith monitro a gwerthuso a gyflawnwyd hyd yma gan mai dyma un o'r heriau mwyaf yn y cyfnod sefydlu cychwynnol.

Roedd derbynwyr y grant ar draws pob un o'r ffrydiau cyllido yn gwerthfawrogi'n fawr y dulliau cyfathrebu cefnogol a chydlynus gyda'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder.

Gwnaeth y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder gryn dipyn o waith datblygu, yn enwedig gyda derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant, i weithredu gwahanol sianeli cyfathrebu a meithrin cysylltiadau ac ymddiriedaeth gyda phob un o dderbynwyr y grant. Roedd hyn yn cynnwys trefnu cyfarfodydd datrys problemau un i un a darparu arweiniad rheolaidd ar gyfer monitro ac adrodd ar ddata. Roedd cael y llinellau cyfathrebu agored ac ymatebol hyn nid yn unig yn helpu derbynwyr y grant i sefydlu'r rhaglen yn y lle cyntaf, ond hefyd yn cefnogi'r newid yn y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn ystod y pandemig.

“...Mae'r ymgysylltu a'r cyfathrebu â derbynwyr y grant yn wych, y perthnasoedd rydyn ni wedi gallu eu meithrin... rydyn ni wedi gallu cael gwybod beth sy'n digwydd go iawn a beth sy'n gweithio go iawn a beth sydd ddim, ac rydyn ni wedi gallu cael llawer mwy o fanylion ac wedi gallu eu cefnogi mewn ffyrdd gwahanol.”
(Y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder)

Ar draws y gwasanaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, roedd pob partneriaeth yn cydnabod yn llwyr y rhyngweithio rheolaidd, trefnus ac ymatebol gydag aelodau'r tîm yn y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, yn enwedig yng nghamau cynnar y prosiect. Roedd hyn yn fuddiol er mwyn deall sut byddai'r rhaglen yn gweithio a'r hyn a oedd yn ofynnol ganddynt, er mwyn rhoi'r gwasanaeth ar waith yn gyflym.

“Mae ATFJ wedi bod yn gefnogol, yn ddifyr, wedi deall y cyfyngiadau, ac wedi darparu cefnogaeth gam wrth gam i’r problemau a wynebwyd. Mae wedi bod yn grant sy’n cael ei redeg yn dda a’i reoli’n effeithiol.” (Gogledd Ddwyrain Lloegr)

Yn ogystal â’r cyfarfodydd un-i-un hyn, trefnodd y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder fforymau derbynwyr grantiau chwarterol, a oedd yn rhoi platfform rhithiol i dderbynwyr y grant ar gyfer rhwydweithio, dysgu, cydweithio, a chael trafodaeth fanwl am y llwyddiannau a’r heriau allweddol ar draws pob un o’r partneriaethau. Roedd derbynwyr y grant yn ystyried y fforymau hyn yn ased gwerthfawr a oedd yn eu galluogi i gyfnewid syniadau gyda phartneriaid eraill. Cafwyd sawl argymhelliad gan dderbynwyr y grant i adeiladu ar y rhain yn y dyfodol, gan gynnwys: addasu’r fforymau i’w defnyddio fel llwyfan ar gyfer hyrwyddo arferion gorau a rhannu profiad o ‘beth sy’n gweithio’; ymgorffori gweithdai llai ar gyfer datrys problemau a thrafod themâu allweddol LSLIP a chwestiynau polisi sy’n dod i’r amlwg; a defnyddio’r fforwm ar wefan Rhwydwaith Cyfiawnder i alluogi cyfathrebu llai ffurfiol rhwng derbynwyr grantiau LSLIP. Nododd y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder fod llawer o’r awgrymiadau hyn ar y gweill ar gyfer cyfarfodydd fforwm yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys treialu’r defnydd o Slack i hwyluso dulliau cyfathrebu rhwng derbynwyr grantiau sydd wedi cael eu lansio ers hynny

Roedd derbynwyr y grant yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y rhaglen LSLIP, gan ei bod yn galluogi eu sefydliadau i addasu eu darpariaeth i ddiwallu anghenion yn ystod y pandemig a chanolbwyntio ar ddysgu a datblygu.

Mynegwyd gwerthfawrogiad gan dderbynwyr y grant am natur hyblyg y rhaglen grantiau, a oedd yn eu galluogi i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd a oedd yn diwallu anghenion eu hardal leol mewn ffordd greadigol, gyda’r lle i ganolbwyntio ar ddysgu a datblygu heb ofni cael eu cosbi am fethu targedau. Nododd derbynwyr y grant nad dyma’r drefn gyda chyllid y sector cyngori fel arfer, sydd fel arfer wedi gosod meini prawf a thargedau. Roedd rhai sefydliadau o’r farn nad oedd y dull gweithredu hwn sy’n cael ei yrru gan dargedau yn ffordd bwrpasol o dargedu anghenion lleol gan ei fod yn creu mwy o ffocws ar gyflawni targedau yn hytrach na chanolbwyntio ar anghenion cleientiaid.

“Mae LSLIP wedi rhoi cyfle i feddwl yn ddwys am ffyrdd o weithio – rydym wedi gwerthfawrogi’r cyfle hwn gan ei fod wedi rhoi cryfder aruthrol i’r gwasanaeth a ddarperir.” (Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhirfryn)

Roedd yr hyblygrwydd o ran darparu cyngor yn cael ei werthfawrogi'n arbennig yn ystod y pandemig, lle'r oedd llawer o bethau anhysbys. Roedd y gwasanaethau'n gallu ymateb i'r galw a oedd yn cael ei gyflwyno iddynt a darparu'r cyngor priodol, heb boeni am fethu targedau. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i dderbynwyr y grant a oedd yn darparu cyngor cam diweddarach, yr effeithiwyd arno gan gau llysoedd, ôl-groniadau mewn achosion a pholisïau dros dro a roddwyd ar waith, megis yr ataliad ar droi allan a chamau gorfodi. Roedd hyblygrwydd y grant yn golygu y gallai mudiadau gyflwyno eu darpariaeth yn gyflym er mwyn canolbwyntio ar gyngor yn ystod camau cynharach a gwaith achos. Roedd adborth gan dderbynwyr LSLIP a'r dulliau dysgu pellach ar draws y sector a gasglwyd gan y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder ac ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill, yn pwysleisio pwysigrwydd hyblygrwydd a chyllid costau craidd i ateb y galw'n effeithlon. Mae'r adborth hwn wedi cael ei fabwysiadu yn strategaeth y Gronfa Cyfiawnder Cymunedol, sy'n cael ei chefnogi ar hyn o bryd gan Grant Cynaliadwyedd Sector y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Fe wnaeth y gwaith o fonitro ac adrodd data greu nifer o gyfleoedd dysgu a chymhlethdodau ar gyfer holl dderbynwyr y grant.

Er bod derbynwyr y grant wedi cael profiad o gasglu ac adrodd data fel rhan o ofynion cyllido blaenorol, roedd integreiddio prosesau monitro ac adrodd data LSLIP yn dasg heriol i dderbynwyr y grant yn ystod camau cynnar y rhaglen, ac roedd angen ymdrech sylweddol.

“Roedd y gwaith o reoli data yn broses ddysgu oherwydd bod llawer iawn o ddata ar gael. Fodd bynnag, roedd y naratifau a'r astudiaethau achos wedi helpu i ddeall y data drwy roi mwy o gyd-destun i lenwi unrhyw fylchau.” (Canol a Gogledd Swydd Efrog)

Soniodd llawer o dderbynwyr y grant am ddiffyg adnoddau neu arbenigedd dadansoddi yn eu sefydliad i gefnogi'r broses hon. Fodd bynnag, nodwyd eu bod yn gallu integreiddio'r gofynion drwy weithio'n agos gyda gwasanaethau eraill yn eu partneriaeth a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder. Helpodd y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder i drosi manylion manwl y fframwaith gwerthuso'n dermau ymarferol a rhoddodd gymorth un i un i dderbynwyr y grant i'w gwneud yn gyfarwydd â'r gofynion. Soniodd y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder am sut roedd hi'n werth chweil gweld y data'n esblygu bob chwarter, gweld heriau cynharach yn cael sylw a chynnydd yn ansawdd y taenlenni data, adroddiadau monitro ysgrifenedig ac astudiaethau achos.

Roedd casglu a choladu data yn arbennig o gymhleth ar gyfer partneriaethau mawr gyda sefydliadau o wahanol rwydweithiau cynghori, oherwydd y gwahaniaethau rhwng arferion gweithio a systemau rheoli achosion. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i rai partneriaid addasu eu prosesau ar ôl dechrau darparu neu gynyddu adnoddau yn eu timau rheoli i gefnogi'r gwaith o gasglu ac adrodd data a sicrhau cysondeb ar draws yr holl bartneriaid. Yn yr un modd, roedd y broses hon yn her i'r sefydliadau llai a oedd â llai o amser ac adnoddau i reoli'r gofynion hyn, ac i dderbynwyr grant nad oedd ganddynt fynediad at systemau rheoli achosion ac a oedd yn cael llai o gyswllt uniongyrchol â chleientiaid ar sail apwyntiadau.

Mabwysiadwyd un fframwaith casglu data ac adrodd er mwyn casglu data o bob rhan o'r rhaglen, ond roedd yr un fframwaith hwn yn heriol i'w weithredu gan fod partneriaid LSLIP yn dod o amrywiaeth o rwydweithiau cynghori gydag arferion gwahanol. Roedd nifer o faterion yn ymwneud â chysondeb diffiniadau a oedd yn gofyn am newidiadau i'r broses adrodd ac roeddent wedi cymryd sawl cylch chwarterol i roi sylw iddynt, oherwydd yr oedi gyda'r adrodd. Mae hon yn her sy'n gynhenid i ddefnyddio un system data ac adrodd ar draws nifer o dderbynwyr grant sydd ag arferion gweithio, dulliau cyflawni, gallu ac adnoddau gwahanol. Bu ymgysylltu ag ychydig o sefydliadau o wahanol rwydweithiau cynghori ddechrau 2020 i archwilio a mireinio gofynion casglu data LSLIP i sicrhau eu bod yn ymarferol, fodd bynnag, mynegodd ychydig o nifer o dderbynwyr y grant awydd am fwy o gyd-ddylunio'r fframwaith gwerthuso er mwyn cael y cyfle i gyfrannu at ddyluniad y prosesau casglu data ac adrodd.

Er bod y gofynion o ran data ac adrodd wedi bod yn heriol, nododd llawer o dderbynwyr y grant fod y data a'r dystiolaeth maent wedi'u casglu wedi bod yn ddefnyddiol o ran llywio eu darpariaeth gwasanaeth a dangos lle mae galw cleientiaid yn cynyddu ar gyfer meysydd a chamau penodol o'r gyfraith. Mae'r data a'r dystiolaeth yn dangos y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd i gleientiaid, y gellir eu defnyddio mewn ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.

“...Bydd y prosiect peilot hwn yn ein helpu i gael yr wybodaeth honno i ganfod beth sy'n gweithio ac a yw partneriaethau sy'n gweithio'n lleol, yn rhanbarthol, yn golygu llai o oedi o ran gwasanaethau i ddefnyddwyr a bod defnyddwyr yn cyrraedd lle mae angen iddynt fod yn gynt, fel bod eu materion yn cael eu datrys yn gynt.” (Y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder)

Roedd y dull o fonitro ac adrodd yn her benodol i dderbynwyr cenedlaethol y grant, nad oedd eu gweithgareddau'n cyd-fynd yn dda â'r fframwaith.

Roedd defnyddio fframwaith monitro ac adrodd cyson ar draws gwasanaethau LSLIP yn ddymunol er mwyn helpu i reoli adroddiadau LSLIP yn gyffredinol ac er mwyn gallu casglu data ar draws y grant, ond roedd datblygu fframwaith a oedd yn addas i holl dderbynwyr y grant yn her ac, i ddechrau, nid oedd yn cyd-fynd yn dda â'r gwasanaethau a ddarperir gan dderbynwyr cenedlaethol y grant.

Roedd hyn yn arbennig o wir am Law for Life, a ariannwyd i lunio ymchwil a thystiolaeth ac i ddarparu gwasanaeth Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus, ac felly roedd eu gweithgareddau'n wahanol i wasanaethau cynghori traddodiadol ac roeddent yn unigryw ymysg partneriaid LSLIP. Roedd hyn yn golygu nad oedd y fframwaith cychwynnol yn cyfateb i'w hymyriadau ac roedd angen sawl iteriad i'w addasu i'w gwaith wedi'i ariannu, a oedd yn golygu oedi cyn dechrau eu gweithgareddau. Argymhellwyd y byddai mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y byddai ymchwil yn cael ei integreiddio i'r fframwaith adrodd gan Law for Life, er mwyn iddynt allu deall gofynion yr ymchwil yn well cyn i'r prosiect ddechrau.

“Fe wnaeth cam cychwynnol y prosiect gymryd llawer mwy o amser na'r disgwyl, llawer o nôl a mlaen, edrych ar y templedi data... Roedd hyn yn cymryd amser cyn i ni gyrraedd y pwynt lle gwnaethom ddeall y broses monitro, gwybod beth roedden ni'n mynd i'w fonitro ac yna'n gallu dechrau cyflawni.” (Law for Life)

Roedd rhai heriau ychwanegol i dderbynwyr cenedlaethol y grant nad ydynt yn defnyddio systemau rheoli achosion sy'n gallu casglu gwybodaeth fanwl am bobl a'u problemau (ac eithrio RCJ Advice) ac y mae eu cyfnod adrodd yn digwydd yng nghanol y mis. I adlewyrchu'r ffactorau hyn, mae derbynwyr cenedlaethol y grant wedi cael eu dadansoddi'n annibynnol ar dderbynwyr eraill y grant LSLIP.

Er bod datblygu fframwaith cyson sy'n cynnwys gwasanaethau derbynnydd cenedlaethol y grant wedi bod yn heriol, roedd Support Through Court, RCJ Advice a Law for Life yn croesawu'r ymgysylltu cynnar cadarnhaol gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder ac yn annog cyd-gynhyrchu prosiectau rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r sector cynghori yn y dyfodol.

Mae'r ystod eang o ddata sy'n cael ei gasglu ar draws pob partneriaeth yn llywio ac yn cefnogi trafodaethau polisi ynghylch ffyrdd o gefnogi ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn effeithiol.

Mae ategu data meintiol gydag astudiaethau achos naratif effeithiol wedi galluogi'r rhaglen i gofnodi'r risgiau, y cyfleoedd a'r llwyddiannau y mae derbynwyr y grant yn eu hwynebu.

Mae'r dystiolaeth hon yn sail i drafodaethau polisi am ddulliau effeithiol o gymorth cyfreithiol ac yn cyfrannu at achos mwy cymhellol dros gyllid yn y dyfodol.

8. Edrych tua'r dyfodol (ar ôl 2022)

Y Prif Bwyntiau

- Gan ystyried yr hyn a allai ddigwydd i'r gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth wrth i'r rhaglen LSLIP gyfredol ddod i ben ym mis Mehefin 2022, soniodd nifer o dderbynwyr y grant am yr awydd i gynnal neu ehangu eu modelau darparu a/neu bartneriaethau i barhau i allu mynd i'r afael â'r problemau cymhleth yn eu cymunedau ac yn ehangach.
- Er mwyn cynnal neu ehangu modelau darparu LSLIP, gan gynnwys cadw staff a chynghorwyr medrus, nododd derbynwyr y grant y ffynhonnell sefydlog ofynnol o gyllid tymor hwy.
- Dros y blynyddoedd nesaf, un o flaenoriaethau'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder fydd sicrhau bod data, tystiolaeth a dysgu LSLIP yn cael eu dosbarthu a'u defnyddio'n effeithiol gyda chynulleidfae ehangach.

Roedd y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol yn ymrwmo i gynyddu cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y Strategaeth Cymorth i Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain i £3 miliwn am ddwy flynedd, felly bydd y rhaglen LSLIP bresennol yn dod i ben ym mis Mehefin 2022. Gofynnwyd i bartneriaid ystyried beth allai ddigwydd i'r gwasanaethau a'r gwaith partneriaeth yr oeddent wedi'i sefydlu ar gyfer eu rhaglen LSLIP, pan ddaw'r cyllid i ben.

Soniodd nifer o dderbynwyr y grant am yr awydd i gynnal eu partneriaethau, i barhau i allu mynd i'r afael â'r problemau cymhleth yn eu cymunedau.

Er enghraifft, soniodd partneriaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru am y potensial i ddefnyddio dulliau darparu o bell i ehangu'r model darparu'n ehangach ledled Cymru, ac mae gan bartneriaeth Dyfnaint a Chernyw fwriad i ehangu eu model i gynnwys meysydd eraill o'r gyfraith yn y dyfodol. Er enghraifft, soniodd partneriaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru am y potensial i ddefnyddio dulliau darparu o bell i ehangu'r model darparu'n ehangach ledled Cymru, ac mae gan bartneriaeth Dyfnaint a Chernyw fwriad i ehangu eu model i gynnwys meysydd eraill o'r gyfraith yn y dyfodol. O fewn y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, mae awydd i sefydlu a chynnal modelau tebyg a ddatblygwyd yn y rhaglen LSLIP mewn mannau eraill yng Nghymru a Lloegr.

“Y nod yw ceisio rhagor o gyllid i gynnal partneriaeth, cynnal dull cyfannol sy’n canolbwyntio ar y cleient ac sy’n rhoi terfyn ar y loteri cod post, sicrhau bod cleientiaid yn cael gwasanaeth cyson, a pharhau i weithio mewn partneriaeth â’i gilydd.” (Gogledd Ddwyrain Lloegr)

Roedd nifer o dderbynwyr y grant yn dadlau bod angen cyllid sefydlog, tymor hwy er mwyn cynnig i’w cynghorwyr medrus y sefydlogrwydd a’r sicrwydd tymor hwy sydd eu hangen er mwyn eu cadw.

Roedd derbynwyr y grant yn rhannu’r pryder y byddant, wrth i’r rhaglen LSLIP ddod i ben, yn colli’r aelodau hyn o staff ac y bydd angen iddynt gwtogi’r hyn mae’r gwasanaeth yn ei gynnig, a fydd yn cael effaith negyddol ar eu gallu i ddiwallu anghenion cyfreithiol eu hardaloedd lleol. Petai hyn yn digwydd, byddai rheoli disgwyliadau eu cleientiaid, a’u gwirfoddolwyr, yn hanfodol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r hyn y gellir ei gyflawni’n realistig ar gyfer eu problemau.

“ O ran ein hadnoddau eraill, nid oes gennym y gallu i wneud hyn oherwydd y galw. Mae [cymorth LSLIP] yn teimlo fel ychwanegiad penodol iawn a fyddai’n cael ei golli heb yr adnodd hwn a byddai disgwyliadau cleientiaid yn broblem i’w rheoli.” (RCJ Advice)

Gall bylchau yn y cyllid fod yn arbennig o rwystredig i wasanaethau cynghori, gan ei fod yn golygu eu bod yn mynd i gylch heriol, nad oes modd ei ragweld, o ran recriwtio, datblygu a cholli arbenigedd.

“Os oes bwlch o ran cyllid, byddwn yn colli’r sawl y cawsom drafferth i’w recriwtio, ac mae’n debyg y bydd yn mynd i bractis preifat. Rydw i wedi bod gyda CELC am 12 mlynedd, pan gollon ni gyllid cymorth cyfreithiol, fe wnaethom golli llawer iawn o ymgynghorwyr profiadol i gyfraith lles cymdeithasol. Mae ceisio temtio pobl yn ôl yn amhosib, nid ydynt yn fodlon cymryd gostyngiad cyflog sylweddol.” (Dwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr)

Roedd derbynwyr y grant yn poeni y byddent yn ei chael hi’n anodd cael gafael ar gyllid o ffynonellau eraill i gynnal neu wella eu model LSLIP, gan fod gan gyllidwyr eraill feysydd ffocws penodol, targedau caled a llai o ffocws ar waith ataliol.

Mae angen i ddata, tystiolaeth a dulliau dysgu LSLIP gael eu rhannu â chynulleidfaoedd ehangach a'u defnyddio'n effeithiol.

Nododd y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder mai'r flaenoriaeth dros y blynyddoedd nesaf fydd sicrhau bod data, tystiolaeth a dulliau dysgu LSLIP yn cael eu rhannu â chynulleidfaoedd ehangach. Mae'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo a bydd y sgysiau strategol parhaus ynghylch natur raddadwy a chynaliadwyedd ariannol model y LSLIP yn y dyfodol yn allweddol i'r datblygiad hwn, yn ogystal â sut mae parhau i weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael ag anghenion tystiolaeth tymor hir sy'n cefnogi ymyrryd yn gynharach ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.

“...Rwy'n credu gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder bod angen i ni edrych ar y darlun ehangach, beth sydd ar gael, pa gyllid sydd ar gael, beth sydd ei angen, er mwyn i ni allu gwneud hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol.” (Y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder)

9. Casgliad

Mae derbynwyr y grant wedi gwneud ymdrechion sylweddol i sefydlu eu gwasanaethau LSLIP a gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau yn eu hardaloedd lleol i wella mynediad at gyngor i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg cynnar ar y canlyniadau cadarnhaol y mae gwasanaethau LSLIP yn eu cyflawni i gleientiaid. Mae hyn yn cynnwys gwella dealltwriaeth cleientiaid o'u problem a'r llwybr i'w datrys, gwella eu hyder a'u gallu i gymryd y camau hyn, datrys problemau yn gynharach, arfogi'r ymglyfreithwyr drostynt eu hunain sy'n cynrychioli eu hunain yn y llys yn well, a gwella sefyllfaoedd eu cleientiaid mewn nifer o ffyrdd eraill.

Er mwyn dangos y manteision hyn drwy ddata a thystiolaeth, aeth derbynwyr y grant ati'n gyflym i fynd i'r afael â gofynion data a thystiolaeth anghyfarwydd, gan addasu eu harferion gweithio a hyfforddi staff i gasglu data a thystiolaeth ychwanegol yn eu systemau rheoli achosion.

Mae'r gwaith o sefydlu, gweithredu a monitro'r prosiect wedi bod yn gymhleth ac wedi cynnwys heriau o ran addasu i'r amgylchedd Covid-19 sy'n esblygu, recriwtio gweithwyr achos arbenigol, a chyflawni'r gofynion o ran data a thystiolaeth. Mae tîm rheoli grantiau'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder wedi darparu cefnogaeth barhaus i helpu derbynwyr y grant i ddatrys neu addasu i lawer o'r heriau hyn. Mae natur hyblyg y cyllid hefyd wedi galluogi derbynwyr y grant i addasu eu cyngor i ddiwallu anghenion lleol ac ymateb i'r newid yn amgylchedd Covid-19.

Mae'r adolygiad hwn yn cyflwyno nifer o wersi i'w dysgu dros weddill cyfnod y LSLIP. Er enghraifft:

Bydd gweithio mewn partneriaeth yn parhau i gael ei hyrwyddo, gan annog mwy o gydweithio rhwng derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant a Support Through Court, LawWorks a Law for Life.

Bydd y galw am wasanaethau LSLIP yn cael ei fonitro, gan fod tystiolaeth anecdotaidd y bydd y galw am gyngor yn cynyddu'n sylweddol wrth i sefydliadau ddechrau cynnig mwy o waith wyneb yn wyneb ac wrth i gleientiaid agored i niwed ddechrau cyflwyno i wasanaethau sydd â phroblemau dwfn iawn y maent wedi'u 'storio' dros y pandemig.

Wrth i gyfnod y grant ddod i ben, bydd partneriaid yn monitro unrhyw anawsterau o ran cadw staff a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddarparu gwasanaethau. Os bydd staff

arbenigol yn gadael, bydd gofyn i dderbynwyr y grant reoli disgwyliadau cleientiaid o ran yr hyn y gellir ei ddarparu, a/neu amlinellu eu darpariaeth tuag at fwy o gyngor cyffredinol. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar y data a gesglir a bydd angen ei adlewyrchu yn y gwerthusiad.

Edrychir ar y posibilrwydd o symleiddio'r gofynion casglu data gan ddefnyddio gwybodaeth o'r adolygiad canol-grant ar argaeledd ac ansawdd data, er mwyn lleihau'r baich ar dderbynwyr y grant. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i dderbynwyr y grant ddechrau cyrraedd eu capasiti llawn a chael llai o ystod ar gyfer monitro ac adrodd.

Roedd yr adolygiad hwn yn edrych ar effaith derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant gyda'i gilydd a'r derbynwyr cenedlaethol yn unigol, er mwyn cydbwysu manylion a chrynodeb ar gam hwn y grant. Yn ystod y cyfnod cyllido sy'n weddill, y flaenoriaeth ar gyfer y gwerthusiad fydd edrych yn fanylach ar y gwahanol fodelau darparu LSLIP, y canlyniadau y maent yn eu cyflawni ac a oes modd eu hailadrodd neu eu cynyddu.

Cyfeiriadau

Acas. (2021). *About us*. Ar gael yn: <https://www.acas.org.uk/about-us>

Advice Services Alliance. (2009). *Legal Capability*. Ar gael yn: <https://lawforlife.org.uk/wp-content/uploads/2013/05/legal-capability-plenet-2009-147-1-147.pdf>

Advice Services Alliance. (2011). *Definitions to help you understand the advice sector*. Working for Together for Advice Project. Ar gael yn: <https://asauk.org.uk/wp-content/uploads/2013/08/Definitions-to-help-you-understand-the-advice-sector.pdf>

Advice Services Alliance. (2020). *Building the younger generation of advisers*. How do we make advice work more attractive to new talent and build sustainability within the advice sector? Ar gael yn: <https://asauk.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Building-the-younger-generation-of-advisers.pdf>

Cyngor ar Bopeth. (2020). *Adroddiad blynyddol 2019/20*. Ar gael yn: <https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Governance/Annual%20Report-2019-20.pdf>

Cyngor ar Bopeth. (2021). *Advice Trends*. Ar gael yn: <https://public.tableau.com/app/profile/citizensadvice/viz/AdviceTrendsSeptember2021/Cover>

Collard, S., Deeming, C., Wintersteiger, L., Jones, M. & Seargeant, J. (2011). *Public Legal Education Evaluation Framework*. Bryste: Prifysgol Bryste. Ar gael yn: <https://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/geography/migrated/documents/pfrc1201.pdf>

Franklyn, R., Budd, T., Verrill, R. & Willoughby, M. (2017). *Findings from the Legal Problem and Resolution Survey, 2014-15*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/596490/legal-problem-resolution-survey-2014-to-2015-findings.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Cefnogaeth gyfreithiol The Way Ahead - An action plan to deliver better support to people experiencing legal problems*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/777036/legal-support-the-way-ahead.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). *Covid-19 Specialist Advice Service Scheme: End of Grant Report*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-specialist-advice-service-scheme-end-of-grant-report>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2011). *Cyfrifiad 2011*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/census/2011census>

Support Through Court. (2021). *How we help*. Ar gael yn:

<https://www.supportthroughcourt.org/get-help/how-we-help/>

YouGov. (2019). *Legal needs of Individuals in England and Wales - Technical Report*

2019/20. Adroddiad a gomisiynwyd ar y cyd gan ac a gyflawnwyd ar ran y Bwrdd

Gwasanaethau Cyfreithiol a Chymdeithas y Gyfraith. Ar gael yn:

<https://legalservicesboard.org.uk/wp-content/uploads/2020/01/Legal-Needs-of-Individuals-Technical-Report-Final-January-2020.pdf>

Atodiad A: Model rhesymeg LSLIP

Mae model rhesymeg yn ddiagram sy'n dangos cysylltiad achosol rhwng yr angen a nodwyd, y gweithgareddau ymyrryd a sut mae hyn yn gwneud gwahaniaeth i unigolion a chymunedau yn y tymor byr a'r tymor hir. Gall model rhesymeg helpu i gynllunio a gwerthuso rhaglenni, a meithrin dealltwriaeth gyffredin o beth yw'r rhaglen, sut mae'n gweithio a beth mae'n ceisio ei gyflawni. Rhagwelwyd y byddai'r allbynnau'n ymwneud â gweithgareddau grant penodol ac felly nid oedd y rhain wedi'u nodi yn y model rhesymeg cyffredinol.

Mewnbynnau	Gweithgareddau	Canlyniadau cychwynnol	Canlyniadau tymor hwy
<p>Nod y grant hwn fydd gwella gwasanaethau sy'n cefnogi'r ymyriadau cynharaf posibl ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, a gwella ein dealltwriaeth o'r camau maen nhw'n symud drwyddynt wrth iddynt ryngweithio â'r system gyfiawnder. Bydd y grant yn seiliedig ar dair ffrwd gyllido:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cynyddu darpariaeth sefydliadau neu ganolfannau. 2. Datblygu gwasanaethau ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain mewn ardaloedd daearyddol lle mae bylchau yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd. 3. Cefnogi prosiectau cenedlaethol ledled Cymru a Lloegr. 	<p>Bydd ffrydiau ariannu 1 a 2 yn cynnwys gweithgareddau sy'n targedu ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ar dri cham o'u taith i ddatrys eu problem gyfreithiol...</p> <p><u>Cam 1 – ymyriad cynharach drwy lywio cymunedol:</u> Ymgysylltu â phobl a allai fod ag ateb cyfreithiol i'w problem/problemau ond nad ydynt yn ymwybodol o hyn. Datrys achosion eu caledi ariannol cyn gynted ag y bo modd drwy flaenoriaethu medrus neu gyngor cyffredinol i ganfod y problemau, ac yna cymorth i atal yr angen am achos llys.</p> <p><u>Cam 2 – ymyrryd yn hwyrach drwy waith achos arbenigol:</u> Darparu gwaith achos arbenigol i'r cleientiaid mwyaf agored i niwed sy'n cysylltu ag asiantaethau cyngori ynghylch camau gweithredu posibl, gan ddatgelu eu</p>	<p>Canlyniadau Ffrydiau 1 a 2 <u>Cam 1 a 2</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn deall eu problem bresennol ac yn ymwybodol y gallai rhwymedi cyfreithiol fod yn berthnasol iddi. • Mae gan ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ddealltwriaeth o ganlyniadau cyfreithiol posibl eu problem. • Mae ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn ymwybodol o unrhyw gamau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i baratoi ar gyfer cam nesaf eu taith datrys problemau. Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith paratoi sydd ei angen cyn mynd i'r llys (fel gofynion tystiolaeth a hawliau). • Pan fo'n briodol, caiff unigolion eu cyfeirio'n fewnol neu'n allanol at ffynonellau cyngor eraill mewn modd amserol, gan gynnwys 	<p><u>Gwell ansawdd canlyniadau ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn fwy abl i orfodi eu hawliau yn unol â'r gyfraith. • Mae problemau'n cael eu datrys yn gynt am gost ariannol ac emosiynol is. • Mae problemau'n parhau wedi'u datrys. • Hunan-asesiad cadarnhaol o ansawdd gwasanaethau a boddhad gyda chanlyniadau. <p><u>Cyngor cyfreithiol/effeithiau gwasanaeth</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae mwy o achosion yn cael eu setlo cyn cyrraedd y llys, gan leihau amser y llys.

Mewnbynnau	Gweithgareddau	Canlyniadau cychwynnol	Canlyniadau tymor hwy
<p>Gweinyddir y prosiectau hyn gan ATJF, mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.</p>	<p>holl anghenion cyfreithiol i ddatrys clystyrau o broblemau cyn y llys. <u>Cam 3 – yn y llys:</u> Darparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol.</p> <p>Bydd ffrwd ariannu 3 yn cynnwys prosiectau ar raddfa genedlaethol gyda gweithgareddau fel... Darparu cyngor, gwybodaeth neu gymorth drwy ddulliau nad ydynt yn rhai wyneb yn wyneb drwy ddefnyddio technoleg. Defnyddio seilwaith presennol neu ddatblygu seilwaith newydd i gynyddu cyrhaeddiad mentrau/gwasanaethau cenedlaethol presennol. Mynd ati'n rhagweithiol i wreiddio'r defnydd o'r cynlluniau/gwasanaethau cenedlaethol hyn gyda derbynwyr y grant i hyrwyddo eu defnydd a'u gwerth i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain.</p> <p><u>Poblogaeth darged</u> Unigolion ar incwm isel nad oes modd iddynt dalu am wasanaethau preifat ond nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Mae'r data a'r dystiolaeth bresennol yn</p>	<p>cyngor pro bono, a/neu eu cyfeirio at ddulliau datrys problemau eraill fel ADR. (Sylwer: Bydd y gwasanaeth cyfeirio yn dibynnu ar allu darparwyr eraill).</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae ymglyfreithwyr drostynt eu hunain yn datrys eu problemau'n gynt, gan osgoi mynd i'r llys, gyda chefnogaeth cyngor cyffredinol a gwaith achos neu gymorth cyfreithiol arbenigol. <p><u>Cam 3</u>²³</p> <ul style="list-style-type: none"> Caiff achosion llys eu datrys yn gynt gyda chyngor a/neu gynrychiolaeth o gynllun 'ar y diwrnod'. <p>Canlyniadau Ffrwd 3 (prosiectau cenedlaethol)</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae ymglyfreithwyr drostynt eu hunain yn adrodd am well dealltwriaeth o brosesau'r llys a beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn cynrychioli eu hunain yn y llys. Mae'r ymglyfreithwyr drostynt eu hunain yn dweud bod ganddynt fwy o hyder a'u bod yn gallu delio â'u problemau eu hunain neu ddod o hyd i gymorth wyneb yn wyneb priodol yn lleol. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae cysylltiadau cryfach rhwng asiantaethau rheng flaen a chymorth cenedlaethol yn golygu bod asiantaethau'n teimlo mewn gwell sefyllfa ac yn fwy hyderus i ddefnyddio mathau eraill o gymorth, gan gynnwys: adnoddau ar-lein, mathau arbenigol o gymorth a chynrychiolaeth pro bono.

²³ Ar ôl ymgynghori yng nghymau dylunio cynnar y rhaglen, cafodd cam 3 ei rannu wedyn yn gamau 3a a 3b.

Mewnbynnau	Gweithgareddau	Canlyniadau cychwynnol	Canlyniadau tymor hwy
	dangos bod y grŵp hwn yn agored iawn i niwed.		